**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00AM DYDD MAWRTH, 4 RHAGFYR, 2012**

**10:00 AM, TUESDAY, 4 DECEMBER, 2012**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/ CHAMBER**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES**

**PENRALLT, CAERNARFON**

***Noder y man cyfarfod os gwelwch yn dda/Please note the meeting place***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 27/11/12

www.gwynedd.gov.uk

**Aelodaeth/Membership (18)**

**<u>Plaid Cymru (9)</u>**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**<u>Llais Gwynedd (3)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**<u>Llafur/Labour (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**<u>Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 4 Medi, 2012, fel rhai cywir, (copi yma – papur **melyn**)

<u>Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod</u>

## 5. FFORDD OSGOI

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Roberts, (copi yma – papur **hufen** )

10.10am – 11am ( 50 munud)

## 6. STRATEGAETH WASTRAFF

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet –Y Cynghorydd Gareth Roberts, (copi yma – papur **gwyn**)

11.00 am – 11.45 (45 munud)

## 7. CLUDIANT

Ystyried adroddiad Pennaeth Rheoleiddio, (copi yma - papur **lelog**)

11.45am – 12.30pm (45 munud)

## 8. YNNI GWYNT

Ystyrried Taflen Benderfyniad yr Aelod Cabinet, ynghyd â llythyr Cyfeillion Llŷn, (copi yma – papur **melyn**)

12.30pm – 1.30pm (60 munud)

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 04-09-12**

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Gwynfor Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Morgan, Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Mandy Williams-Davies, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, ac Eurig Wyn

**HEFYD YN BRESENNOL:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a'r Cynghorydd John Wyn Jones, (Aelod Cabinet – Economi).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Nigel Pickavance a Robert J. Wright,

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2012, fel rhai cywir.

**2. RHAGLEN WAITH BLYNYDDOL**

a) Cyflwynodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu wybodaeth ynglŷn â fersiwn ddiweddaraf o Raglen Waith Blynyddol y Pwyllgor Craffu hwn. Nododd bod y materion a nodwyd yn adlewyrchiad o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y 'gweithdy' a gynhaliwyd ar 26 Mehefin ar gyfer rhaglennu gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2012-13.

b) Cadarnhaodd fod y ddogfen yn 'ddogfen fyw'. Caiff ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor gan roi cyfle i'r cyhoedd, yn unol â Mesur Llywodraeth Cymru, i gadw golwg ar y rhaglen waith.

c) Rhoddwyd cyfle pellach i'r aelodau i ystyried cynnwys y rhaglen waith fel y gellid ychwanegu neu ddileu materion.

**PENDERFYNWYD:**

**i) ychwanegu'r materion canlynol i'r rhestr o flaenoriaethau:**
- **Dyfodol siopau pentref traddodiadol, banciau a swyddfeydd post;**
- **Tyrbinau gwynt;**
- **Parthau Cadwraeth Morol;**

- **Baw cŵn ac amharodrwydd perchnogion i gadw cŵn dan reolaeth mewn mannau cyhoeddus.**

**ii) bod gwybodaeth ynglŷn â'r trefniadau cyfredol, mewn perthynas â dulliau o ymdrin â thrafferthion baw cŵn, yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Paratoi y Pwyllgor Craffu hwn.**

## 3. ADOLYGIAD O GYFLENWAD A FFORDDIADWYEDD TAI

'Roedd yr Aelod Cabinet, Cynllunio, y Cynghorydd John Wyn Williams, a'r Rheolwr Polisi Strategol, Tai, yn bresennol ar gyfer yr eitem yma.

a) Ymhellach i adroddiad ysgrifenedig, ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddog yn briodol i gwestiynau a sylwadau a gyflwynwyd gan yr aelodau a gwnaed y prif bwyntiau canlynol :

- Nododd yr Aelod Cabinet ei awydd i gynorthwyo'r rhai sy'n gweithio, ond heb fod yn ennill cyflog digon uchel i gael morgais, a hefyd heb nifer digonol o bwyntiau i'w gosod yn uchel ar y rhestr aros ;
- Bod Tîm Opsiynau Tai yn cael ei sefydlu ar 10 Medi 2012 ac yn creu un system o osod tai;
- Bydd y Tîm Opsiynau Tai wedi ei leoli o fewn y Cyngor ond yn gweithredu ar ran y cymdeithasau tai.
- Sefydlwyd y drefn uchod ar ddeddfwriaeth ond bydd ystyriaeth i gysylltiad lleol yn rhan ohoni. Yn ogystal, mae'r drefn yn seiliedig ar y rheidrwydd i'r person fyddai'n cael tŷ fod mewn angen;
- Bod bwriad i gyflwyno gwybodaeth parthed y drefn uchod mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Ardal;
- Bod posibilrwydd i'r drefn fudd-daliadau newydd gryfhau ymdrechion i gyflwyno newidiadau fel y byddai tenantiaid yn symud i dai mwy addas ac osgoi sefyllfaoedd pryd y gallai unigolion fyw mewn tai o faint sylweddol;
- Bod Deddf Ddigartrefedd yn sicrhau fod ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal i'r holl amgylchiadau cyn y caiff unigolion eu hystyried yn wirioneddol ddigartref;
- Bod y drefn o 'rent canolradd' yn cynnig cyfleoedd i gyplau ifanc brynu yn hytrach na rhentu eu cartrefi;
- Bod tai cydweithredol wedi profi'n llwyddiant mewn rhai ardaloedd ac y gellid ymchwilio ymhellach i'r maes;
- Y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud defnydd llawn o dai o fewn y sector breifat sydd ar hyn o bryd yn is-safonol, ac y gellid gwneud hyn gyda benthyciadau yn hytrach na grantiau;
- Bod cynllun benthyciadau blaendal morgais Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu a bod bwriad iddo fod yn weithredol yn yr Hydref eleni. Bydd y cynllun yn cynnwys amodau parthed cysylltiad lleol;
- Bod gwaith yn cael ei wneud i gael tai gwag yn ôl i ddefnydd, ond bod rhaid anelu at welliant cyson;
- Bod ail Swyddog Tai Gwag wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar, a bod hyn yn adlewyrchu'r bwriad i sicrhau gwelliant;
- Bod angen ymchwilio'n fanwl i effeithiau Amod Cyfreithiol 106 a osodir ynghlwm â chaniatâd cynllunio fel y gellir cynorthwyo teuluoedd ifanc ac ymdrechu i sefydlu trefn er sicrhau nad yw'r amod yn creu rhwystr mewn perthynas â rhyddhau morgais.

b) Awgrymodd yr Aelod Cabinet y gallai'r Pwyllgor Craffu hwn gynnal ymchwiliad i'r maes tai fel y byddai'n bosib iddynt wneud argymhellion i'r Cabinet.

c) Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet ac i'r Rheolwr Polisi Strategol, Tai am fynychu'r cyfarfod ac am eu sylwadau.

**Argymhellion:**

1.Gofynnir i'r Aelod Cabinet - Cynllunio, gyflwyno'r manylion am y canlynol i gyflwyno'r manylion am y canlynol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Ardal:
a) Rhestr Tai Cyffredin a'r Tîm Opsiynau Tai.
2. Ymchwilio ymhellach i botensial datblygu:

- Tai Cydweithredol a Chorfforaethol;
- Gwella tai yn y sector breifat drwy fenthyciadau yn ogystal â grantiau;
- Effaith Amod Gyfreithiol 106 fel nad yw'n creu rhwystr i ryddhau morgais.

3. Gofynnir i'r Aelod Cabinet - Gofal Cwsmer ddarparu rhestro olyniaeth ffermydd dan berchnogaeth y Cyngor;
4. Bod aelodau'r Pwyllgor Craffu'n ystyried, yn y Cyfarfod Paratoi nesaf, gynnal Ymchwiliad Craffu annibynnol neu weithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet – Cynllunio.

## 4. BALCHDER BANGOR

a) Amlinellodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu'r gwaith fyddai'n gysylltiedig â chynnal ymchwiliad craffu i Gynllun Balchder Bangor.

b) Pwysleisiodd y byddai angen i aelodau'r Grŵp Arweiniol weithio i amserlen gaeth ac y byddai angen ymroddiad llwyr ganddynt er cwblhau'r ymchwiliad yn drylwyr.

c) Eglurwyd y byddai ystyriaeth lawn yn cael ei roi i lwyddiannau a methiannau'r Cynllun ynghyd â'r posibilrwydd o'i ymestyn i rannau eraill o Wynedd gan gynnwys ardaloedd gwledig.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Sefydlu Ymchwiliad Craffu i Gynllun Balchder Bangor;**
**b) Ethol yr aelodau canlynol yn aelodau o'r Grŵp Arweiniol:**
**Y Cynghorwyr: Eric M. Jones, Mandy Williams – Davies, Gwynfor Edwards, Nigel Pickavance, Dilwyn Morgan a Gruffydd Williams.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11:55am.

| ENW’R PWYLLGOR CRAFFU | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
|---|---|
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 Rhagfyr 2012** |
| **TEITL YR EITEM** | **Penderfyniad y gwasanaeth Drafnidiaeth o’r Adran Rheoleiddio i gefnogi asesiad y Llywodraeth ar linell ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W Gareth Roberts** |
| | |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r galw am ffordd osgoi i Gaernarfon a Bontnewydd gan gymunedau, teithwyr a busnesau wedi bod yn cynyddu ers sawl blwyddyn. Ym mis Chwefror 2007 comisiynwyd cwmni Ove Arup gan y Llywodraeth i edrych ar y materion trafnidiaeth ac opsiynau ar gyfer datblygu ffordd osgoi. Cyflwynwyd eu hadroddiad WelTAG rhagarweiniol (Welsh Transport Appraisal Guidance) yn ystod mis Gorffennaf 2007. Pwrpas yr adroddiad yma oedd esbonio’r agweddau trafnidiaeth perthnasol drwy ymgynghori gyda rhanddeiliaid a rhestru opsiynau i’w lliniaru, eu cloriannu a’u symud ymlaen am ystyriaeth bellach trwy adroddiad WelTAG (cam 1).

1.2 Yn mis Chwefror 2008, yn dilyn gwaith gan gwmni Ove Arup, cyhoeddwyd adroddiad technegol WelTag (cam 1). Pwrpas yr adroddiad yma oedd cofnodi a datblygu opsiynau i fynd yn eu blaen i ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar y prosiect oedd wedi eu hasesu a’u datblygu yn y WelTAG rhagarweiniol.

1.3 Rhwng 1af Fawrth a 24 Fai 2010 cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf ar 4 llwybr sef opsiynau Pinc, Porffor, Melyn a Brown. Roedd y canlyniad pan ofynnwyd i bobl pa opsiwn oeddent yn ffafrio fel a ganlyn:

- Porffor 53%
- Melyn 25%
- Brown 18%
- Pinc 4%

1.4 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf, penderfynwyd cynnal ail ymgynghoriad. Cynhaliwyd hwn rhwng 1af Dachwedd 2010 a 24 Ionawr 2011. Erbyn hyn, cwmni Parsons Brinckerhoff oedd wedi eu hapwyntio fel prif ymgynghorwyr i weithredu ar ran y Llywodraeth. Y rheswm y penderfynwyd cynnal ail ymgynghoriad oedd bod sylwadau ac awgrymiadau o’r ymgynghoriad cyntaf yn dangos nad oedd yr holl opsiynau oedd wedi eu hystyried gan y llywodraeth wedi eu hamlygu yn yr ymgynghoriad. Felly, roedd yr ail ymgynghoriad yn gyfle i bobl fynegi eu barn ar y dewisiadau hynny yn ogystal. Roedd Cyngor Gwynedd ymysg yr ymatebwyr oedd wedi lleisio pryder nad oedd y wybodaeth gyflawn wedi ei gyflwyno fel rhan o’r ymgynghoriad.

1.5 Yn yr ail ymgynghoriad, cyflwynwyd 5 opsiwn oedd yn cael eu diystyru sef opsiynau Pinc, Gwyn, Glas, Brown ac amrywiad ar y dewis Brown. Yr oedd 6 opsiwn arall yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad sef opsiynau Porffor, Melyn, Du, Oren, Coch a Gwyrddlas. Mae'r llwybrau yma wedi eu dangos yn **Atodiad A.**

1.6 Fel rhan o'r ail ymgynghoriad, bu i swyddogion o'r Gwasanaeth Trafnidiaeth Gwynedd herio canfyddiadau'r Llywodraeth a gofyn am wybodaeth ychwanegol i fodloni eu hunain bod yr hyn oedd yn cael ei gyflwyno yn wybodaeth gadarn. Un elfen bwysig yn hyn oedd yr ymgais i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd sirol fyddai yn weddill wedi unrhyw welliant yn cael eu gwarchod.

1.7 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cynghorwyr lleol a swyddogion o'r Adran Rheoleiddio i esbonio'r rhesymeg dros gefnogi safiad y Llywodraeth ar ddewis llwybr, ac i wrando ar farn y Cynghorwyr lleol oedd yn cynrychioli'r ardaloedd fyddai yn cael ei effeithio gan y datblygiad. Fe gynhaliwyd y cyfarfod yma ar 21 Rhagfyr 2010.

1.8 Wedi edrych yn fanwl ar yr wybodaeth, gofyn am wybodaeth ychwanegol a herio canfyddiadau swyddogion y Llywodraeth a'i Ymgynghorwyr Parsons Brinckerhoff, daethpwyd i'r casgliad bod eu hasesiad o'r llwybrau a gyflwynwyd yn gadarn. Anfonwyd llythyr dyddiedig 14 Chwefror 2010 oddi wrth y Gwasanaeth at y Llywodraeth yn datgan cefnogaeth i ganlyniad eu hasesiad ar sail dechnegol.

1.9 Yn ystod mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd gan Lywodraeth Cymru ddatganiad o ganlyniadau yr ail ymgynghoriad cyhoeddus ar ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Mae'r adroddiad yn un eithaf swmpus ac wedi ei atodi fel **Atodiad B**. Gwelir yn yr adroddiad yma bod cefnogaeth gonfensiynol at ddewisiadau llwybrau fel a ganlyn:

- Porffor 33%
- Melyn 7%
- Du 50%
- Oren 5%
- Coch 2%
- Gwyrddlas 2%
- Dim ymateb 8%

1.10 Dylid nod bod y llwybr Porffor ar Du yn un fath rhwng crib ffordd osgoi Felinheli a chylchdro arfaethedig Cibyn

1.11 Mae'r datganiad yn pwyso a mesur yr opsiynau a ymgynghorwyd arnynt, ac yn datgelu'r rhesymau am ddewis a diogelu'r llwybr a ffafrir yn dilyn yr ymgynghoriad, sef y llwybr Porffor.

1.12 O ganlyniad i'r datganiad, ynghyd ar ffaith y bod y Gwasanaeth Trafnidiaeth wedi cefnogi safiad y Llywodraeth mai'r dewis Porffor sydd yn cynnig yr opsiwn orau ar sail dechnegol, mae cynrychiolaeth o gymunedau Y Felinheli a Bethel o'r farn y dylid newid y llinell y llwybr a ffafrir o'r Borffor i'r Felyn.

## 2. PWRPAS YR ADRODDIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i esbonio yn glir y materion technegol gafodd eu hystyried wrth ymateb i asesiad y Llywodraeth. Yn ogystal, ymdrechir i ymateb i'r materion isod sydd wedi eu hamlygu gan aelodau'r Pwyllgor Craffu a Chymunedau:

- Esbonio'r rhesymau dros ddod i gasgliad bod y Gwasanaeth Trafnidiaeth yn cytuno a barn swyddogion Llywodraeth Cymru mai'r llwybr Porffor o'r ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yw'r un gorau.
- Yn eich barn chi, i ba raddau fyddai'r ffordd osgoi llwybr Porffor yn effeithio ar dir amaethyddol o safon uchel a faint o dir fyddai yn cael ei effeithio?
- Beth yw costau tebygol y llwybr Porffor o'i gymharu â chost y llwybr melyn sef ffordd osgoi Caernarfon hyd at Blas Menai?
- Beth yw eich barn mewn perthynas â nifer damweiniau a damweiniau angheuol posib ar y ffordd osgoi llwybr porffor o'i gymharu ar ffordd osgoi llwybr melyn?
- Beth fyddai effaith y ddau gynllun ar ffyrdd cyfagos megis ffordd gefn sy'n cysylltu Bethel a'r Felinheli?
- Beth fyddai effaith posib datblygiad y ffordd osgoi ar fusnesau lleol ac ar fannau trigiannol?
- Beth fyddai effaith posib datblygiad y ffordd osgoi ar y diwedd
- Pa effaith allai datblygiad y ffordd osgoi ei gael ar rannau eraill o Wynedd - Meirionnydd ac ardal Llyn?
- A oes unrhyw risgiau sydd ynghlwm a newid barn y Cyngor ar lwybr y ffordd?
- Beth yn eich barn fyddai'r ffordd gorau i sicrhau trafodaeth effeithiol ehangach ar y llwybr gorau i'w fabwysiadu yn y pen draw?

## 3. ESBONIO'R RHESYMAU DROS DDOD I GASGLIAD BOD Y GWASANAETH TRAFNIDIAETH YN CYTUNO A BARN SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU MAI'R LLWYBR PORFFOR O'R FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD YW'R UN GORAU

3.1 Fe ystyriwyd 6 opsiwn fel rhan o'r ail ymgynghoriad sef Porffor, Melyn, Du, Oren, Coch a Gwyrddlas.

3.2 Cyn yr ymgynghoriad fe gynhaliwyd asesiad WelTAG (cam 2) ar y 6 opsiwn. Mae canlyniad yr asesiadau yn deillio o waith manwl gan brif ymgynghorwyr y Llywodraeth i ystyried pob llinell ar wahân ac yn wrthrychol. O'r asesiadau yma yr oedd yn glir mai'r llwybr Porffor oedd y cryfaf. Sgôr pob opsiwn a ystyrir o fewn y drefn WelTAG oedd fel a ganlyn:

- Porffor 21.5
- Melyn 20.5
- Du 17.5
- Oren 17.0
- Coch 17.5
- Gwyrddlas 17

3.3 Yn ogystal â'r asesiadau WelTAG 2, yr oedd materion technegol eraill yn dylanwadu a'r farn proffesiynol peirianwyr y Gwasanaeth Trafnidiaeth. Mae'r ffaith bod y llwybr Porffor yn cynnig ffordd fwy uniongyrchol ac annibynnol o'r rhwydwaith ffyrdd sirol ac yn fwy deniadol i yrwyr trafnidiaeth trwm hefyd yn ystyriaethau allweddol. Yn ogystal, mae manteision i'w cael os yw brif ffordd o'r Gogledd i'r De yn medru osgoi cylchdro Plas Menai gan fod nifer o wrthdrawiadau yn y lleoliad yma a gellir ei osgoi trwy fabwysiadu llwybr Porffor. Dylid hefyd nodi bod toriad sylweddol i'r tirwedd o ganlyniad i ddilyn llwybr Melyn yng nghyffiniau Plas Menai a byddai hyn yn achosi cryn effaith gweledol ac archeolegol.

3.4 Mae'r llwybr Porffor yn 10.9km o hyd tra mae'r llwybr melyn yn 9.650km o hyd. I'r sawl fyddai yn teithio rhwng cylchdro Y Faenol, Bangor a Llanwnda, fy fyddai siwrnai oddeutu 800m yn llai wrth ddefnyddio'r llwybr Porffor nag wrth ddefnyddio'r llwybr Melyn.

3.5 Mae gan y llwybr Porffor y fantais o gadw'r rhwydwaith ffyrdd sirol fel y mae yn bresennol. Mae hyn yn fanteisiol i'r sawl sydd angen teithio rhwng cymunedau lleol neu wneud siwrneiau byr. Mae cael y rhwydwaith strategol Gogledd / De yn annibynnol o'r rhwydwaith lleol gyda sawl mantais i drafnidiaeth leol ac yn ogystal, mae yn cynnig nifer o opsiynau am wyriadau pe byddai argyfyngau ar ein ffyrdd neu fod angen gwaith cynnal ayyb.

3.6 Mae'r ffaith bod y llwybr Porffor yn cynnig llwybr mwy uniongyrchol, sydd yn fyrrach na'r dewis melyn yn ei hun yn debygol o annog trafnidiaeth drom sydd yn teithio Gogledd / De i ddefnyddio'r llwybr yn hytrach a defnyddio'r A4244 o Llys y Gwynt a'r B4366 drwy bentref Bethel. Byddai dewis y llwybr melyn yn golygu teithio lawr allt o grib ffordd osgoi Y Felinheli at gylchdro Plas Menai, arafu neu hyd yn oed stopio cyn dringo fynnu allt eto i ymuno a'r llwybr Porffor ar yr un pwynt yng nghylchdro Cibyn. Mae'r llwybr Melyn yn golygu gostwng lefel o 30.1 m a chodi 30.1 m yn ychwanegol i'r llwybr Porffor. Mae yn glir felly bod y dewis Porffor yn fwy manteisiol o ran amser siwrnai a chostau tanwydd i gwmnïau a gyrwyr trafnidiaeth trwm. Mae hyn yn fwy tebygol o leihau'r nifer fyddai'n dewis sydd yn defnyddio'r llwybr drwy bentref Bethel fel ffordd osgoi anffurfiol ar gyfer trafnidiaeth trwm.

3.7 Mae'r gyffordd arfaethedig ar grib ffordd osgoi Felinheli yn cynnig llwybr lle mae'r A487 arfaethiedig yn rhedeg yn uniongyrchol o gylchdro Y Faenol at y cylchdro arfaethiedig yng Nghibyn. Fe fyddai'r sawl sydd yn teithio i Gaernarfon yn dilyn llwybr oddi ar y brif ffordd a chysylltu gyda'r llwybr ar yr allt lawr at Blas Menai. Mae hon yn gyffordd 'grade separated' sydd yn gyffordd o ansawdd uchel ar sail diogelwch ac yn osgoi'r prif lif o drafnidiaeth rhag arafu neu stopio i ddelio gyda'r gyffordd.

3.8 Mae'r gyffordd ger Plas Menai yn gyffordd cylchdro 5 braich. Yn gyffredinol, mae diogelwch yn gostwng fel mae'r nifer o freichiau ar gylchdro yn cynyddu. Mae dyluniadau ar gylchdro fel rheol yn ceisio cael balans ar y llif traffic ar bob braich. Yn sefyllfa'r llwybr Melyn, fe fyddai'r prif lif ar ddwy fraich sydd ddim yn ymarfer da oherwydd y bod hwn yn arwain at gynnydd mewn cyflymder ar y cylchdro ac felly gostyngiad sylweddol mewn diogelwch. Ar hyn o bryd, mae nifer o wrthdrawiadau ar y ffyrdd sydd yn arwain at cylchdro Plas Menai yn ei ffurf bresennol. Ar sail dechnegol,

byddai yn fwy manteisiol a diogel cael y gyffordd ar y llwybr Porffor yn hytrach na chylchdro 5 braich ym Mhlas Menai.

3.9 Dylid nodi'r bod maint y toriad sydd ei angen i gysylltu'r llwybr melyn i gyffordd Plas Menai yn sylweddol dros ben. Mae dyfnder y toriad oddeutu 22 m ac fe fyddai cryn effaith gweledol i hyn. Yn ogystal, mae'r barn arbenigwyr archaeoleg yn amlygu bod potential uchel o ddarganfod safleoedd o bwysigrwydd archaeoleg yn y rhan o'r llwybr Melyn rhwng cyffordd Plas Menai a chyffiniau Fferm Crug.

**Yn eich barn chi i ba raddau fyddai'r ffordd osgoi llwybr Porffor yn effeithio ar dir amaethyddol o safon uchel a faint o dir fyddai yn cael ei effeithio**

*3.10 Mater i'r ymchwiliad cyhoeddus fyddai hyn. Gellir cadarnhau bod yr arwynebedd tir fyddai angen i sefydlu'r dewis Porffor yn fwy na'r dewis melyn. O gyffordd Cibyn i'r gogledd yr arwynebedd a gymerir gan y llwybr Porffor fyddai 152,471 medr sgwâr (37.68 acer) a 132,260 medr sgwâr (32.68 acer) gyda'r Felyn.*

**Beth yw costau tebygol y llwybr Porffor o'i gymharu â chost y llwybr melyn sef ffordd osgoi Caernarfon hyd at Blas Menai?**

*3.11 Mae costau adeiladu'r dewis Porffor oddeutu £85.8 miliwn tra mae costau adeiladu'r dewis melyn oddeutu £77.3 miliwn (prisiau 2002). Wrth asesu cynlluniau gwella fel hwn, tra mae costau adeiladu, cynnal a threth yn cael ei ystyried fel costau'r cynllun, mae'r rhain yn cael eu cloriannu gyda materion sydd yn cynnig budd ariannol gan gynnwys lleihad amser teithio, lleihad yng nghostau rhedeg cerbyd, buddiant o leihau ôl troed carbon a lleihad mewn costau oherwydd lleihad damweiniau.*

*13.12 Mae'r ffigyrau buddion yn cael eu hystyried dros gyfnod o 60 mlynedd wedi agoriad y ffordd newydd. Mae'r buddion sydd yn cael ei amcanu am y llwybrau yn £420.2 miliwn i'r dewis Porffor a £415.8 miliwn i'r dewis Melyn. Mae felly yn gamarweiniol ystyried y swm adeiladu yn unig. Mae yn bwysig adnabod bod y llwybr Porffor yn hirach ac yn cynnig manteision eraill rhwng crib ffordd osgoi Felinheli a chyffordd arfaethedig Cibyn.*

**Beth yw eich barn mewn perthynas â nifer damweiniau a damweiniau angheuol posib ar y ffordd osgoi llwybr porffor o'i gymharu ar ffordd osgoi llwybr melyn**

*13.13 Mae amcanu nifer o ddamweiniau ar unrhyw gynllun yn anodd. Mae hyn felly yn cael ei asesu ar gyfartaledd o nifer o ddamweiniau sydd yn digwydd ar gyfartaledd pob cilomedr ar ffyrdd tebyg. Mae hyd y llwybr Porffor yn 10.900 cilomedr tra mae hyd y llwybr Melyn yn 9.65 cilomedr.*

*3.14 Mae cost i bob damwain ffordd, ac o ran yr asesiad mae £1,249,890 yn cael ei amcanu am ddamwain angheuol, £140,450 am ddamwain ddifrifol a £10,830 am ddamwain bach (prisiau 2002). O gymharu gyda'r rhwydwaith presennol mae amcan bod potential i'r llwybr Porffor arbed 899 o ddamweiniau tra mae ffigwr o 986 wedi ei amcanu i'r llwybr Melyn dros gyfnod o 60 mlynedd wedi agoriad y cynllun. Mae'r ffigyrau uchod yn cael eu cyrraedd drwy ddefnyddio meddalwedd COBA (COst Benefit Analysis) ac mae amcan yr un nifer o ddamweiniau fesul teithiau pob cilomedr wedi ei ddefnyddio i'r ddau*

*ddewis sef 0.138 o ddamweiniau pob miliwn cilomedr wedi ei deithio ar y rhannau 2 lon, a 0.089 o ddamweiniau ar y rhannau 1 lon, gan gofio bod 3 lon am ran helaeth o'r ddarpariaeth a bwriedir am bob opsiwn.*

3.15 *Un mater sydd yn glir, ac wedi ei ystyried gan beirianwyr y Gwasanaeth Trafnidiaeth fel rhan o'u hystyriaethau, yw bod cylchdro Plas Menai a'r nifer o ddamweiniau yno heb eu hystyried yn yr asesiad yma. Nid yw ychwaith yn cynnwys y rhan hwnnw o'r ffordd bresennol o'r cylchdro i grib y ffordd osgoi bresennol. Mae hyn, ynghyd a'r ffaith bod cyffordd safon uwch yn cael ei chynnig i gysylltu'r llwybr Porffor ar grib ffordd osgoi Felinheli ym marn broffesiynol y Gwasanaeth, yn cynnig opsiwn ffordd fyddai dros yr hyd cyfan yn fwy diogel.*

**Beth fyddai effaith y ddau gynllun at ffyrdd cyfagos megis ffordd gefn sy'n cysylltu Bethel a'r Felinheli**

3.16 *Mae effaith y llinell porffor ar y rhwydwaith Sirol yn niwtral. Mae'r rhwydwaith fel y mae yn bresennol yn cael ei gwarchod. O ran y ffordd gefn sydd yn cysylltu Bethel a Felinheli, fe fydd pont yn cario'r cyswllt yma tros y llinell Borffor ac felly yn ei gwarchod. Hefyd, mae mynediad i Fferm Cefn Coch oddi ar y ffordd gefn yn cael ei warchod. Mae hyn wedi ei gadarnhau yn y datganiad o'r canlyniadau o'r ymgynghoriad cyhoeddus gafodd ei ryddhau gan y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2012. Mae pwynt 9.12 a'r datganiad yn dweud* Byddai'r Opsiwn porffor a'r Opsiwn Du yn hollti'r ffordd gyswllt bach rhwng Bethel a Felinheli. Byddai'r ffordd yn cael ei hailsefydlu drwy ei chyfuno a phont feddiannu'r fferm.

3.17 *Mae effaith y llinell felen ar ffyrdd cyfagos yn llawer mwy andwyol oherwydd ei bod yn gwneud i fwrdd a'r gysylltiad uniongyrchol rhwng cylchdro Plas Menai a chylchdro Tyddyn Hen*.

**Beth fyddai effaith posib datblygiad y ffordd osgoi ar fusnesau lleol ac ar fannau trigiannol**

3.18 *Mae asesiadau cynhwysfawr wedi ei gwneud gan brif ymgynghorwyr y Llywodraeth ar effaith y ffordd osgoi ar faterion economaidd ac ar y trefi a phentrefi.*

**Beth fyddai effaith posib datblygiad y ffordd osgoi ar y diwedd**

3.19 *Mae'r mater yma hefyd wedi ei ystyried yn yr adroddiad effaith economaidd sydd wedi ei darparu ar ran y Llywodraeth.* Rhagwelir y bydd effaith y cynllun yn gadarnhaol o ran amser teithio, allaniadau carbon, lleihad damweiniau a chostau teithio. Gweler hefyd 3.18 uchod.

**Pa effaith allai datblygiad y ffordd osgoi ei gael ar rannau eraill o Wynedd _ Meirionnydd ac ardal Llyn**

3.20 *Mae cytundeb cyffredinol y byddai'r ffordd osgoi yn cael effaith cadarnhaol ar Meirionnydd ac ardal Llyn. Fe fyddai'r ffordd yn allweddol bwysig i gynnal a datblygu cyflogaeth yn ardaloedd gwledig Llyn a Meirionnydd. Gallai hefyd fod yn hwylusydd i ddatblygu a gwarchod swyddi sydd yn gysylltiedig gyda Trawsfynydd a chysylltiad y safle gyda Ynys Môn. Gallai'r parthau menter hefyd fanteisio o'r datblygiad.*


**A oes unrhyw risgiau sydd ynghlwm a newid barn y Cyngor ar lwybr y ffordd**


3.21 *Ystyrir bod risgiau sylweddol ynghlwm a'r mater yma. Mae'r Gweinidog wedi llithro cynlluniau cyfalaf eraill i wella ffyrdd yn ddiweddar ac yn yr hinsawdd ariannol presennol efallai byddai rhai manteision i'r Llywodraeth i lithro'r cynllun yma er buddsoddi mewn lleoliadau /cynlluniau eraill. Er na ellir rhoi sicrwydd o beth fyddai yn digwydd, mae profiad yn dangos ei bod yn anodd cael cynlluniau sydd wedi llithro yn ôl i'r rhestr flaenoriaeth. Gallasai hynny olygu rhai blynyddoedd o ohiriad cyn i waith datblygol gael ei gomisiynu a chyfnod pellach hyd at dorri'r dywarchen gyntaf a chwblhau'r gwaith. Er na ellir, cyfrifo effaith colli manteision economaidd dros y cyfnod yma gallasai fod yn sylweddol i economi'r Sir gyfan ac i dref Caernarfon ac ardaloedd Dwyfor a Gogledd Meirionnydd yn benodol pe byddai'r cynllun yn llithro am dyweder 5 i 10 mlynedd.*

**Beth yn eich barn fyddai'r ffordd gorau i sicrhau trafodaeth effeithiol ehangach ar y llwybr gorau i'w fabwysiadu yn y pen draw?**

3.22 *Wrth ddatblygu cynlluniau ffyrdd mae materion technegol yn cael eu hystyried yn ogystal â materion mwynderau ac iawndal. Mae'r llwybr a ffafrir yn cael ei ddewis wrth ystyried materion technegol a gan ddefnyddio strwythur WelTAG. Dyma'r materion gafodd ystyriaeth gan Swyddogion y Cyngor wrth ddarparu yr ymateb.*

3.23 *Fel y bydd y broses yn mynd rhagddi, bydd cyfle pellach i'r cyhoedd, tir feddianwyr a rhanddeiliaid eraill ymateb i gynigion y Llywodraeth. Os cyflwynir gwrthwynebiadau i'r llwybr dewisol yn ystod y camau yma, yna cynhelir ymchwiliad cyhoeddus ar gais y Gweinidog. Bydd y cyfiawnhad ar gyfer y cynllun a ffafrir yn destun her yn yr ymchwiliad cyhoeddus. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei arwain gan arolygwr annibynnol fydd yn cloriannu'r cyfiawnhad a gyflwynir gyda tystiolaeth a gyflwynir gan y rhai sydd yn gwrthwynebu.*




**ALLWEDD / KEY**

| DEWISIADAU PRESENNOL | | CURRENT OPTIONS |
|---|---|---|
| DEWIS PORFFOR | | PURPLE OPTION |
| DEWIS MELYN | | YELLOW OPTION |
| DEWIS DU | | BLACK OPTION |
| DEWIS OREN | | ORANGE OPTION |
| DEWIS COCH | | RED OPTION |
| DEWIS GWYRDDLAS | | CYAN OPTION |
| A487 BRESENNOL | | A487 EXISTING |
| AFON | | RIVER |

GRADDFA
SCALE
1:25000

0 500 1000 1500 2000 METRAU METRES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ASTUDIAETH O'R A487 CAERNARFON I'R BONTNEWYDD

# DATGANIAD O'R CANLYNIADAU O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

**GORFFENNAF 2012**

(Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol)

# ASTUDIAETH O'R A487 CAERNARFON I'R BONTNEWYDD
# DATGANIAD O'R CANLYNIADAU
# O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

**GORFFENNAF 2012**

**Cynnwys:**


**1 CYFLWYNIAD**

**2 DATBLYGU AC ARFARNU OPSIYNAU**

**3 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYCHWYNNOL**

**4 DADANSODDIAD O'R YMATEBION**

**Dadansoddiad o'r ymatebion i'r Holiadur**

**Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill**

**5 CANLYNIADAU**

**Camau a Gymerwyd yn Dilyn Pryderon a Godwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol**

**6 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS ATODOL**

**7 DADANSODDIAD O'R YMATEBION**

**Dadansoddiad o'r ymatebion i'r Holiadur**

**Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill**

**8 CANLYNIADAU**

**Camau a Gymerwyd yn Dilyn Pryderon a Godwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Atodol**

**9 CYMHARU'R OPSIWN PORFFOR A'R OPSIWN DU**

**10 RHESYMAU DROS DDEWIS Y LLWYBR A FFEFRIR**

**11 PENDERFYNIAD Y GWEINIDOG LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU**

**12 DIOGELU'R LLWYBR A FFEFRIR**

**13 BETH SY'N DIGWYDD NESAF**

**CYFEIRIADAU**

**ATODIAD A LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYCHWYNNOL**

**ATODIAD B LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS ATODOL**

**ATODIAD C CYNLLUN Y LLWYBR A FFEFRIR – TR111**

**ATODIAD D CYNLLUN GWELLA'R BRIFFORDD LEOL**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn 2009 comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth er mwyn mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth ar yr A487 drwy Gaernarfon a'r Bontnewydd. Defnyddiodd yr astudiaeth hon waith cynharach a gynhaliwyd ar wahân. Roedd yr astudiaeth Cam 2 diweddarach gan WelTAG yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2010 ac ymgynghoriad cyhoeddus atodol a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Ionawr 2011.

1.2 Mae'r Datganiad hwn o'r Canlyniadau yn crynhoi agweddau technegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hefyd yn egluro penderfyniad y Gweinidog dros Drafnidiaeth.

## 2 DATBLYGU AC ARFARNU OPSIYNAU

2.1 Rhoddodd yr Astudiaeth bwyslais penodol ar yr effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol - sef prif themâu datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru

2.2 Y prif faterion a godwyd gan yr astudiaeth oedd:

- Amseroedd teithio hwy a hwyach – mae cyfeintiau traffig ar yr A487 wedi bod yn cynyddu, ac o ganlyniad, ceir tagfeydd weithiau gan effeithio ar amseroedd teithio. Mae'r amser a gaiff ei dreulio mewn ciwiau o draffig yn rhoi straen ar yrwyr ac yn golygu cost i fusnesau lleol;
- Hygyrchedd gwael/pellenigrwydd - gall y ffaith nad oes cysylltedd o ansawdd uchel i'r de ar yr A487 o Fangor a'r A55 fod yn llesteirio datblygiad economaidd. Mae'r gwaith o ddatblygu Canolbwynt Menai yn darparu cyfle i atgyfnerthu ac ailstrwythuro economi Gogledd-orllewin Cymru. Fodd bynnag, er mwyn ei roi ar waith yn llwyddiannus a lledaenu'r buddiannau (yn arbennig i'r de o Fangor), mae'n dibynnu ar gysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd da;
- Hollti Cymunedau ac Ansawdd Bywyd - mae'r cyfeintiau traffig uchel sy'n teithio drwyddynt yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd anheddau ac aneddiadau gerllaw'r A487 (a gerllaw'r llwybrau sy'n cael eu defnyddio fel llwybrau ymuno).
- Diogelwch - mae cyfeintiau cymharol uchel o draffig mewn lleoliad trefol yn golygu bod mwy o risg y ceir damweiniau. Hefyd, mae'r cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio i ystâd ddiwydiannol Cibyn a cherbydau sy'n teithio ar hyd y llwybrau ymuno ar gyflymderau amhriodol yn gwaethygu'r sefyllfa;
- Mynediad i wneud gwaith cynnal a chadw ar y ffordd - mae gwaith cynnal a chadw ar y ffordd yn anodd o ganlyniad i'r lefelau uchel o draffig ar yr A487 a'r ffaith nad oes llwybr amgen addas y gellid dargyfeirio'r traffig ar ei hyd.

2.3 Defnyddiodd yr astudiaeth egwyddorion Canllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth yng Nghymru (WelTAG)[1] .

---

[1] Canllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru WelTAG, Mehefin 2008 – ar ein gwefan

2.4 Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a godwyd, ac yn unol ag amcanion ar gyfer rhwydweithiau strategol, nodwyd amcanion cynllunio trafnidiaeth gennym. Datblygwyd y pum Amcan Cynllunio Trafnidiaeth penodol canlynol ar gyfer yr astudiaeth drwy broses WelTAG, gan ystyried yr amcanion strategol y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Nodir yr amcanion isod:

Amcan 1:

- Lleihau'r amser teithio (rhwng Llanwnda a Phlas Menai) a gwella dibynadwyedd yr amser teithio er mwyn sicrhau ei fod o fewn +/-3 munud o'r amser teithio cyfartalog drwy gydol y dydd;

Amcan 2:

- Lleihau'r amser teithio (rhwng Llanwnda a Chaernarfon) a gwella dibynadwyedd yr amser teithio er mwyn sicrhau ei fod o fewn +/-3 munud o'r amser teithio cyfartalog drwy gydol y dydd;

Amcan 3:

- Lleihau nifer y cerbydau sy'n teithio drwy gymunedau preswyl; gan gynnwys Llanwnda, Dinas, y Bontnewydd a Chaernarfon;

Amcan 4:

- Lleihau damweiniau ar rwydwaith y cefnffyrdd 22% erbyn 2016 yn seiliedig ar y targedau a nodir yn yr ymgynghoriad drafft Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd y DU;

Amcan 5:

- Gwella gwydnwch y rhwydwaith - Cynyddu nifer a/neu gapasiti llwybrau amgen er mwyn wella gwydnwch y rhwydwaith.

Datblygwyd yr opsiynau drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, ac fe'u harfarnwyd er mwyn penderfynu sut roeddent yn perfformio yn erbyn yr Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth gan ddefnyddio WelTAG. Diystyrwyd y rheini nad oeddent yn llwyddiannus.

2.5 Nododd Adroddiad y Gweithdy Datblygu Opsiynau a'i Atodiad bedwar opsiwn ar gyfer ffordd osgoi (ac opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl i gymharu ag ef) i'w cyflwyno ar gyfer Cam 2 WelTAG, sef:

- Opsiwn Pinc – Ffordd osgoi Llanwnda, Dinas a'r Bontnewydd;
- Opsiynau Porffor a Melyn – Dwy ffordd osgoi amgen ar gyfer Caernarfon a'r Bontnewydd/Dinas/Llanwnda;
- Opsiwn Brown – Dewis amgen sef uwchraddio priffordd leol sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel ffordd osgoi answyddogol, gan gynnwys ffordd osgoi ar gyfer y Bontnewydd/Dinas/Llanwnda hefyd.

2.6 Daethpwyd i'r casgliad hefyd oni weithredir y bydd ciwiau hirach a mwy o oedi mewn lleoliadau allweddol ar y rhwydwaith gyda mwy o draffig yn teithio drwy gymunedau. Penderfynwyd bod angen pecyn o fesurau ar-lein er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ac aseswyd y pecyn hwn fel yr opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl.

2.7 Mae'r lefelau traffig a ragwelir yn gwarantu safon lôn gerbydau Unffrwd Lydan 2+1 (WS2+1). Cynlluniwyd pob Opsiwn i'r safon hon ac eithrio'r Opsiwn Brown, a gynlluniwyd fel cynnig i uwchraddio'r lôn gerbydau unffrwd rhwng y Bontnewydd a Phlas Menai gyda lôn yn dringo i'r de o gylchfan Plas Menai.

2.8 Mae llyfryn yr ymgynghoriad yn Atodiad A yn disgrifio'r opsiynau a ddeilliodd o'r broses yn fanylach.

2.9 Mae'r Adroddiad Arfarnu Technegol[2] yn cofnodi canfyddiadau'r astudiaeth yn fanwl.

## 3 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYCHWYNNOL

3.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gennym ar bedwar llwybr ar gyfer ffordd osgoi; Pinc, Porffor, Melyn a Brown a chynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 1 Mawrth a 24 Mai 2010, gyda phob opsiwn yn cael ei gymharu â'r opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl.

3.2 Aeth 972 o bobl i'r arddangosfa a'r noson ragolwg. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, roeddem wedi derbyn 1,996 o holiaduron wedi'u cwblhau a 64 o lythyrau gan randdeiliaid, unigolion, grwpiau â diddordeb, cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol. Ceir crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd isod ac mae adroddiad yr ymgynghoriad[3] yn disgrifio'r canfyddiadau yn fanylach.

3.3 Cafwyd tair deiseb yn ystod y cyfnod ymgynghori, sef:

- Deiseb â 50 o enwau yn erbyn y llwybrau i'r Dwyrain o'r Bontnewydd (er na chyflwynwyd y llwybrau hyn fel opsiynau yn y PCE);
- Deiseb â 52 o enwau yn erbyn yr Opsiwn Brown;
- Deiseb â 700 o enwau yn erbyn yr Opsiwn Pinc.

3.4 Gwnaeth grŵp lleol a oedd yn cynnwys dau fusnes a thrigolion lleol sylwadau yn cynnig llwybr amgen. Galwyd y llwybr hwn yn Opsiwn Du ac er mwyn helpu i gael barn y cyhoedd ar y llwybr amgen hwn, darparwyd 1,400 o holiaduron ychwanegol. Cafwyd 1,498 o holiaduron yn cefnogi'r llwybr hwn. Fodd bynnag, dim ond 353 ohonynt oedd wedi'u cwblhau'n llawn.

## 4 DADANSODDIAD O'R YMATEBION

### Dadansoddiad o'r ymatebion i'r Holiadur

4.1 Gofynnodd yr holiadur i bobl am y problemau canfyddedig yn ardal yr astudiaeth, y mesurau yr oedd eu hangen er mwyn gwneud gwelliannau, beth oedd bwysicaf iddynt a'u dewis opsiwn. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r 12 o gwestiynau fel a ganlyn.

*Cwestiwn 1 – Gofynnwyd tri chwestiwn cyffredinol fel a ganlyn:*

a) A ydych o'r farn bod angen gwella amodau traffig ar yr A487 drwy'r Bontnewydd? - Ydw 451 (94%) Nac ydw 31 (6%)

---

[2] Astudiaeth o'r A487 Caernarfon i'r Bontnewydd - Adroddiad Arfarnu Technegol, (mewn tair cyfrol), Chwefror 2010

[3] Astudiaeth o'r A487 Caernarfon i'r Bontnewydd - Adroddiad ar Ymgynghoriad Cyhoeddus Mawrth 2010 – ar ein gwefan

b) A ydych o'r farn bod amodau traffig ar yr A487 yn achosi oedi wrth deithio drwy Gaernarfon? - Ydw 398 (85%) Nac ydw 70 (15%)
c) A ydych o'r farn bod amodau traffig ar yr A487 yn achosi oedi wrth deithio i/o Gaernarfon? - Ydw 411 (88%) Nac ydw 55 (12%)

Mae'r consensws yn deillio o'r cwestiynau uchod yn nodi bod problem tagfeydd yn y Bontnewydd a Chaernarfon o ran traffig sy'n teithio yno fel cyrchfan a thraffig sy'n teithio drwy'r trefi.

*Cwestiwn 2 - Yn eich barn chi, beth yw'r problemau ar yr A487 yn y Bontnewydd a Chaernarfon ar hyn o bryd? Nodir y lleoliadau yn y llyfryn ar y cynllun yn y canol. (ticiwch y rheini sy'n gymwys)*

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymatebion, rhoddwyd y problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y drefn ganlynol o ran pwysigrwydd, gan ddechrau gyda'r broblem waethaf:

*Rhestr 1 Problemau yn y Bontnewydd*
e) Oedi ar yr A487 yng nghylchfan Glan Beuno 78%
b) Oedi ar yr A487 yng nghylchfan "Fingerpost" 56%
c) Anawsterau wrth gyrraedd a gadael Ysgol y Bontnewydd 56%
a) Tagfeydd traffig ar gylchfan "Goat" yr A487/A499 52%
d) Diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr yn y Bontnewydd 39%
f) Gweledledd gwael i gerbydau yng nghroesfan Glan Beuno 39%
g) Hollti cymunedau 27%
h) Arall – nododd 126 o bobl broblemau eraill. Ymhlith y problemau ychwanegol nodweddiadol a amlygwyd roedd:

- Cyfeintiau traffig uchel ar yr A487 (gan ei gwneud yn anodd ymuno â'r gefnffordd) 29%
- Parcio ar y gefnffordd ar Derasau Glan Beuno/Brymer 16%
- Mae'r cyfleuster croesi a lolipop yn llesteirio llif y traffig 14%
- Gwelededd o'r cyffyrdd a mynedfeydd cyffredinol i'r A487 10%

*Rhestr 2 Problemau yng Nghaernarfon*
c) Tagfeydd yng nghylchfannau "Dewi Sant" a "Morrisons" 82%
d) Oedi oherwydd traffig ym "Mhlas Brereton" 68%
a) Cyfleusterau croesi gwael i gerddwyr yng nghyffordd yr "Eagles" 46%
b) Damweiniau yng nghyffordd yr "Eagles" 32%
e) Hollti cymunedau 28%
f) Arall – nododd 100 o bobl broblemau eraill. Ymhlith y problemau ychwanegol nodweddiadol a amlygwyd roedd:

- Mae cyffyrdd Tesco/McDonalds yn peri problem 22%
- Tagfeydd traffig sy'n teithio drwy'r dref (gan gynnwys cyfeiriadau at gerbydau nwyddau trwm) 14%
- Plas Brereton 8%
- Cyffordd Eagles 9%

*Cwestiwn 3 – Pa fesurau fyddai'n ymdrin â'r problemau a nodwyd gennych yng Nghwestiwn 2 yn eich barn chi? (Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol)*

Nododd yr ymateb i'r cwestiwn hwn y mesurau yn y drefn a nodir isod:
g) Ffordd osgoi Bontnewydd 80%
h) Ffordd osgoi Caernarfon 70%
e) Cyfleusterau i gerddwyr a seiclwyr 29%
b) Cyfleusterau parcio a theithio 28%
d) Trefniadau lleddfu traffig yn y Bontnewydd 26%
c) Cyfleusterau parcio a rhannu 23%
a) Gwell gwasanaethau bws 22%
f) Trafnidiaeth gymunedol 16%
i) Arall – nododd 105 o bobl fesurau eraill. Ymhlith y mesurau ychwanegol nodweddiadol a amlygwyd roedd:

- Gwelliannau ar-lein yn y Bontnewydd 41%
- Ailbwysleisio safbwyntiau o'r eitemau a restrwyd, h.y. ni chodwyd unrhyw faterion eraill 31%
- Byddai'r mesurau Gwneud y Lleiaf Posibl yn lliniaru rhai o'r problemau 16%
- Gwelliannau uniongyrchol yng Nghaernarfon 6%

*Cwestiwn 4 – Nodwch y tri ffactor pwysicaf yn eu trefn wrth ddewis opsiwn. 1 yw'r pwysicaf; 3 yw'r lleiaf pwysig.*

a) Yr effaith ar eiddo preswyl
b) Yr effaith ar y tirlun
c) Yr effaith ar ffermydd a busnesau
d) Diogelu bywyd gwyllt
e) Lleihau traffig mewn cymunedau
f) Llai o dagfeydd yn y Bontnewydd a Chaernarfon
g) Mynediad i dwristiaeth
h) Gwell cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio cerbydau
i) Arall - nodwch

Roedd y tri ymateb a gafodd y nifer uchaf o ymatebion fel a ganlyn:

f) Llai o dagfeydd yn y Bontnewydd a Chaernarfon
e) Lleihau traffig mewn cymunedau
c) Yr effaith ar ffermydd a busnesau

Nododd 60 o ymatebwyr ffactorau eraill fel ffactorau pwysig gan amlygu'r canlynol:

- Ailbwysleisio problemau o'r eitemau a restrwyd 52%
- Mae angen gwelliant uniongyrchol yn y Bontnewydd, Llanwnda a Dinas 21%
- Nid oeddent am gael ffordd osgoi 17%

*Cwestiwn 5 – Ar gyfer y rhan o'r A487 rhwng Llanwnda a Phlas Menai, pa opsiwn ar y map yn y llyfryn a fyddai orau gennych pe byddai ffordd osgoi yn rhan o'r ateb? (Ticiwch un blwch)*

- Pinc  4%
- Porffor 53%
- Melyn 25%
- Brown 18%

Mae'n amlwg bod yn well gan y rhan fwyaf o bobl yr Opsiwn Porffor.

*Cwestiwn 6 - Os nad ydych o'r farn bod angen ffordd osgoi, awgrymwch ateb amgen i'r problemau.*

Awgrymodd 133 o ymatebwyr atebion amgen i ffordd osgoi fel a ganlyn:

- Roedd 31% am gael gwelliannau ar-lein;
- Nododd 15% y byddai'n well ganddynt gael ffordd osgoi o ryw fath;
- Nododd 14% fod angen llwybrau i'r Dwyrain o'r Bontnewydd;
- Roedd 14% o'r farn y dylid cynnig opsiynau amgen i opsiynau ar y ffordd;
- Nododd 9% nad oedd angen ffordd osgoi;
- Dywedodd 8% eu bod am gael llwybrau ar ffyrdd a oedd yn bodoli eisoes;
- Roedd 7% o'r farn bod angen dewisiadau amgen i ffordd osgoi.

*Cwestiwn 7 - Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich diddordeb yn yr astudiaeth orau?*
Nodir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eu trefn isod, gan ddechrau gyda'r uchaf:

a) Rwyf yn byw yn y Bontnewydd, Llanwnda neu Dinas - (35%)
c) Rwyf yn byw'n lleol (e.e. Bethel, Caeathro neu gymuned arall gerllaw'r llwybr) (35%)
b) Rwyf yn byw yng Nghaernarfon - (17%)

*Nodwch enw'r man lle rydych yn byw*
Nodir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eu trefn isod, gan ddechrau gyda'r uchaf:

e) Rwyf yn defnyddio'r A487 yn rheolaidd - (70%)
d) Rwyf yn berchen ar dir y byddai un o'r llwybrau yn ei groesi - (8%)
f) Rwyf yn dwrist neu'n ymwelydd â'r ardal - (5%)
g) Arall. Nodwch isod - (4%)

Ymatebodd 44 o bobl i g) Arall gyda'r mwyafrif naill ai'n byw/gweithio yn yr ardal neu'n byw'n agos at yr opsiynau.

*Cwestiwn 8 – Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych neu rhowch resymau am eich dewis opsiwn (parhewch ar dudalen o bapur ar wahân os bydd angen)*

Ychwanegodd 299 o ymatebwyr sylwadau. Y prif themâu oedd:

1. Yr angen am fesurau ychwanegol ar yr A487 yn y Bontnewydd.
2. Gwrthwynebu'r llwybrau i'r Dwyrain o'r Bontnewydd.
3. Yr angen am lwybrau amgen i'r Dwyrain o'r Bontnewydd.
4. Dewis o blaid yr Opsiwn Pinc.
5. Dewis o blaid yr Opsiwn Porffor.
6. Dewis o blaid yr Opsiwn Melyn.
7. Dewis o blaid yr Opsiwn Brown.

8. Dim angen ffordd osgoi o gwbl.
9. Dewis o blaid ffordd osgoi a buddiannau ffordd osgoi.
10. Pwysigrwydd busnes a thwristiaeth gan gynnwys cysylltiadau ag Ystad Ddiwydiannol Cibyn.
11. Cynlluniau nad ydynt yn ymwneud â'r briffordd.

*Cwestiwn 9 – I ba arddangosfa yr aethoch?*

Aeth 65% o'r rheini a ymatebodd i'r arddangosfa yng Nghaernarfon ac aeth 30% i'r arddangosfa yn y Bontnewydd. Aeth 5% i'r ddwy arddangosfa.

*Cwestiwn 10 – Gofynnwyd saith cwestiwn cyffredinol fel a ganlyn:*

a) A gawsoch ddigon o rybudd am yr arddangosfa? - Do (79%)
b) A lwyddodd yr arddangosfa i fodloni eich disgwyliadau? - Do (88%)
c) A oedd y wybodaeth a ddangoswyd yn ddigon i ateb unrhyw ymholiadau a allai fod wedi bod gennych? - Oedd (78%)
d) A oedd y lleoliad yn addas ar eich cyfer? - Oedd (98%)
e) A oedd yr amseroedd agor yn ddigon hir? - Oeddent (90%)
f) A oedd y staff yn ddigon hyddysg i ateb eich cwestiynau? - Oeddent (88%)
g) A oedd cyfle i chi drafod y cynllun yn eich dewis iaith? - Oedd (87%)

*Cwestiwn 11 - Sut y clywsoch am yr arddangosfa hon?*

a) Llyfryn drwy'r drws – 92 (23%)
b) Poster lleol - 14 (3%)
c) Radio lleol - 12 (3%)
d) Hysbyseb papur newydd - 159 (39%)
e) Ar lafar - 151 (37%)
f) Arall. Nodwch - 54 (13%)
Cafwyd 90 o ymatebion i gwestiwn f) Arall. Dywedodd 11% nad oeddent yn ymwybodol o'r arddangosfa o gwbl, roedd 27% wedi cael llyfrynnau o leoliadau cadw ac roedd 18% wedi cael gwybod drwy'r wasg leol.

*Cwestiwn 12 – A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran gwella arddangosfeydd yn y dyfodol?*

Cafwyd 111 o ymatebion yn nodi awgrymiadau fel a ganlyn:
- Angen mwy o hysbysebu ymlaen llaw 16%;
- Angen mwy o siaradwyr Cymraeg 12%;
- Roedd yr arddangosfeydd wedi'u trefnu'n dda 6%;
- Nid euthum 6%.

**Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill**

4.2 Ymatebodd **Cyngor Gwynedd** ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Nid oedd yr ymateb yn cynnwys unrhyw ddewis na barn ar unrhyw un o'r opsiynau o ran llwybrau a gyflwynwyd.

4.3 Ymatebodd **Maer Caernarfon** i fynegi pryderon y dylai Cwestiwn 4 ar yr holiadur fod wedi cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at Ystad Ddiwydiannol Cibyn.

4.4 Awgrymodd **Cyngor Cymuned Waunfawr** lwybrau amgen, gydag un yn debyg i'r Opsiwn Du ac un yn debyg i'r Opsiwn Gwyrdd Amgen a ddiystyrwyd yn ystod camau cynharach yr astudiaeth. Roedd y cyngor yn pryderu nad oedd eu hetholwyr yn fodlon ar yr Opsiwn Porffor gan ddatgan mai eu prif bryder oedd y byddai ffermdir gwerthfawr yn cael ei golli.

4.5 Gofynnodd **Cyngor Cymuned y Bontnewydd** pam bod llwybrau dwyreiniol y Bontnewydd wedi cael eu gwrthod gan awgrymu llwybr drwy Rhos-Bach er mwyn sythu'r aliniad ac effeithio ar lai o eiddo. Ystyriodd y cyngor hefyd yr angen i brofi gwelliannau yng Nglan Beuno a mynegodd fod angen cael gwared ar draffig o bentrefi lleol.

4.6 Mynegodd **Cyngor Cymuned Llanrug** ei wrthwynebiad i'r Opsiwn Brown gan nad oedd yn gwella cysylltiadau i'r A55 a Phwllheli a chan nad oedd ffordd unffrwd yn rhoi cyfle i gerbydau oddiweddyd. Nid oedd y cyngor o'r farn y byddai'r Opsiwn Brown yn cael gwared ar dagfeydd a nododd y byddai'n mynd drwy fwy o ardaloedd amaethyddol na'r Opsiynau Pinc, Porffor a Melyn.

4.7 Anfonodd **Cyngor Cymuned Llandeiniolen** ei ymateb i NWTRA a anfonodd eu hymateb ymlaen i'w ystyried. Roedd y cyngor o blaid yr Opsiwn Melyn ac yn gwrthwynebu'r Opsiwn Brown gan na fyddai'n lleihau'r traffig ym Methel na Rhiwlas ac awgrymwyd y byddai'r Opsiwn Brown o bosibl yn cynyddu'r traffig ar y "ffyrdd cefn".

4.8 Cyflwynodd **Fforwm Llanfaglan a Dinas** ddeiseb yn erbyn yr Opsiwn Pinc.

4.9 Darparodd **Plaid Cymru** ymateb ar ran dosbarth y Bontnewydd, gan ddod i'r casgliad mai'r ffordd osgoi yw'r ateb angenrheidiol i'r problemau ond roeddent wedi'u synnu mai dim ond un opsiwn yng nghyffiniau'r Bontnewydd a gyflwynwyd. Gwnaethant ofyn hefyd i fynedfa gyfleus o Rostryfan a Rhosgadfan i'r ffordd osgoi gael ei hystyried.

## 5 CANLYNIADAU

5.1 Ystyriwyd bod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi bod yn broses effeithiol o ran presenoldeb yn yr arddangosfa a nifer yr holiaduron a'r ymatebion ysgrifenedig a ddychwelwyd.

5.2 Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r atebion i ddatrys problemau trafnidiaeth yn ardal yr astudiaeth fod y cyhoedd o'r farn mai ffordd osgoi fyddai'r ateb gorau.

### Camau a Gymerwyd yn Dilyn Pryderon a Godwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

5.3 Gwnaethom wrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd a chynnal rhywfaint o waith pellach, a ddisgrifir isod:

(a) Dewisiadau Amgen i'r Opsiwn Pinc i'r Dwyrain o'r Bontnewydd

Gwnaethom ailystyried y dewisiadau hyn ar ôl cael gwrthwynebiad i'r llwybr Pinc i'r Gorllewin o'r Bontnewydd ar ffurf deiseb â 700 o enwau arni. Darparodd arfarniadau

Cam 2 WelTAG o ddau lwybr dwyreiniol (Opsiynau Glas a Gwyn) esboniad gwell o ran pam nad oedd llwybrau i'r dwyrain o'r Bontnewydd yn addas. Hefyd, yn ystod y cam hwn, er na chafwyd llawer o gefnogaeth i'r Opsiwn Pinc fel ffordd osgoi ar gyfer y Bontnewydd yn unig, ystyriwyd mai'r cynnig i'w halinio oedd y dewis mwyaf priodol i'w roi ar waith fel rhan gyffredin ar gyfer ffordd osgoi'r Bontnewydd a Chaernarfon.

(b) Cyswllt amgen i'r Opsiwn Brown

Ymchwiliwyd i gyswllt amgen i'r Opsiwn Brown, a oedd yn cysylltu'r rhan rhwng y Bontnewydd a'r ffordd osgoi answyddogol drwy Barc Coed Sipsi. Datblygwyd y llwybr hwn ymhellach, ond perfformiodd yr Opsiwn Brown gwreiddiol a'r Amrywiad Brown yn wael felly diystyrwyd y ddau ohonynt.

(c) Opsiwn Du Amgen (gan gynnwys Oren)

Cyflwynwyd yr Opsiwn Du yn yr ymgynghoriad cychwynnol ac roedd yn cynnwys alinio cylchfan arfaethedig y Bontnewydd (Meifod), drwy Barc Coed Sipsi a chylchfan bresennol Caeathro ac ymlaen tuag at Ystad Ddiwydiannol Cibyn gan gysylltu â'r Felinheli ar yr A487. Datblygwyd yr opsiwn hwn ac fe'i harfarnwyd ar y cyd ag Opsiwn Oren amrywiol a ddefnyddiodd yr un llwybr, ond gan derfynu yng nghylchfan Plas Menai.

(d) Opsiynau Coch/Gwyrddlas

Gwnaethom hefyd arfarnu dau ddewis amgen i'r cynigion alinio yn yr Opsiwn Du/Oren, a oedd ill dau yn osgoi Parc Coed Sipsi ond yn defnyddio cylchfan bresennol Caeathro o hyd. Roedd yr Opsiwn Coch yn cysylltu â Felinheli ar yr A487 ac roedd yr Opsiwn Gwyrddlas yn terfynu yng nghylchfan Plas Menai.

5.4 I grynhoi, ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ymchwiliadau pellach, gwnaethom ddiystyru'r opsiynau canlynol:

- Opsiwn Pinc (fel ffordd osgoi ar ei ben ei hun);
- Opsiwn Brown;
- Opsiwn Amrywiad Brown;
- Opsiwn Glas;
- Opsiwn Gwyn.

5.5 Roedd y rhai hyfyw fel a ganlyn:

- Opsiwn Porffor;
- Opsiwn Melyn;
- Opsiwn Du;
- Opsiwn Oren;
- Opsiwn Coch;
- Opsiwn Gwyrddlas.

5.6 Mae llyfryn yr ymgynghoriad atodol yn Atodiad B yn disgrifio'r opsiynau a ddeilliodd o'r broses yn fanylach.

5.7 Mae'r Adroddiad Arfarnu Technegol - Ymgynghoriad Atodol[4] yn cofnodi canfyddiadau'r astudiaeth yn fanwl.

## 6 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS ATODOL

6.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gennym ar chwe llwybr ar gyfer ffordd osgoi; Porffor, Melyn, Du, Oren, Coch a Gwyrddlas. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 1 Tachwedd 2010 a 24 Ionawr 2011.

6.2 Aeth 611 o bobl i'r arddangosfa a'r noson ragolwg. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, roeddem wedi derbyn 3,412 o holiaduron wedi'u cwblhau, y derbyniwyd tua 2,400 ohonynt mewn dau lwyth ar wahân drwy fusnes lleol a oedd o blaid yr Opsiwn Du, a 108 o lythyrau gan randdeiliaid, unigolion, grwpiau â diddordeb, cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol. Ceir crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd isod ac mae adroddiad yr ymgynghoriad[5] yn disgrifio'r canfyddiadau yn fanylach.

6.3 Ailgyflwynodd Fforwm Llanfaglan, Dinas a'r Bontnewydd eu deiseb yn cynnwys tua 700 o enwau o'r ymgynghoriad cychwynnol ym mis Mawrth 2010.

6.4 Cyflwynwyd deiseb bellach yn cynnwys tua 504 o enwau gan ddau ddeisebwr arweiniol o gymuned Bethel. Roedd y ddeiseb hon yn gwrthwynebu'r opsiynau a oedd yn cynnwys cysylltiad clwm llif rhydd i ffordd osgoi y Felinheli (yr A487 bresennol).

6.5 Codwyd mater yn ystod camau cynnar yr ymgynghoriad atodol gan ddau fusnes lleol o ran effaith y ffaith nad oedd rhai Opsiynau wedi'u nodi'n glir ar y cynllun yn y llyfryn. Ymdriniwyd â hyn drwy roi esboniadau wedi'u hargraffu yn y llyfrynnau a'u gosod mewn lleoliadau cadw er mwyn egluro'r ddau fater.

## 7 DADANSODDIAD O'R YMATEBION

### Dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur

7.1 Gofynnodd yr holiadur i bobl am eu diddordeb yn yr astudiaeth, yr angen i wella, beth oedd bwysicaf iddynt a'u dewis opsiwn. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r chwe chwestiwn fel a ganlyn.

*Cwestiwn 1 - Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich diddordeb yn yr astudiaeth orau?*
Nodir nifer yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eu trefn isod, gan ddechrau gyda'r uchaf:

e) Rwyf yn defnyddio'r A487 yn rheolaidd - 2,488 (46%)
c) Rwyf yn byw'n lleol (e.e. Bethel, Caeathro neu gymuned arall gerllaw'r llwybr) - 1,294 (24%)
a) Rwyf yn byw yn y Bontnewydd, Llanwnda neu Dinas - 717 (13%)
b) Rwyf yn byw yng Nghaernarfon - 554 (10%)
f) Rwyf yn dwrist neu'n ymwelydd â'r ardal - 202 (4%)
g) Arall. Nodwch isod - 117 (2%)
d) Rwyf yn berchen ar dir y byddai un o'r llwybrau yn ei groesi - 94 (1%)

---

[4] Astudiaeth o’r A487 Caernarfon i'r Bontnewydd - Adroddiad Arfarnu Technegol - Ymgynghoriad Atodol (mewn tair cyfrol), Ionawr 2011
[5] Astudiaeth o’r A487 Caernarfon i'r Bontnewydd - Adroddiad ar Ymgynghoriad Cyhoeddus Atodol Tachwedd 2010 – ar ein gwefan

*Nodwch enw'r man lle rydych yn byw:*
Nodwyd 48 o gymunedau yn yr ymatebion, a'r mwyaf poblogaidd oedd Bethel, Waunfawr, Caeathro a Llanrug.

Nododd 102 o bobl allan o'r 117 o ymatebion i Gwestiwn 1g) ryw ddiddordeb arall. Roedd y mwyafrif naill ai'n berchenogion carafán/chalet ym Mharc Gwyliau Glan Gwna, neu'n aelodau o'r Girl Guides Association.

*Cwestiwn 2a) - O'r ymgynghoriad cychwynnol, y dewis ateb oedd ffordd osgoi. A ydych o'r farn bod angen ffordd osgoi?*

O'r 3,147 o bobl a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 2,991 (88%) o'r farn bod angen ffordd osgoi, ac roedd 156 (5%) o'r farn nad oedd ei hangen. Nid ymatebodd 265 o bobl.

*Cwestiwn 2b) – Os "ydw", o'r opsiynau a nodir ar Dudalen 8 o'r llyfryn, pa un sydd orau gennych?*

O'r cyfanswm o 3,412 o holiaduron, ymatebodd 3,296 o bobl i'r cwestiwn hwn (dewisodd 80 o bobl fwy nag un opsiwn). Nodir yr ymatebion i bob opsiwn lliw yn y tabl. Dengys y tabl hefyd raniad yr ymatebion yn ôl atebion 'confensiynol' h.y. y rheini a dderbyniwyd yn uniongyrchol i'r cyfeiriad Rhadbost ac 'Arall' h.y. y rheini a anfonwyd gan fusnes lleol.

| | **Porffor** | **Melyn** | **Du** | **Oren** | **Coch** | **Gwyrd dlas** | **Gwag** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** (3,412) | **10%** (347) | **2%** (74) | **84%** (2,863) | **1%** (49) | **1%** (21) | **1%** (22) | **3%** (116) |
| **Confensiynol** (1,012) | **33%** (331) | **7%** (73) | **50%** (508) | **5%** (46) | **2%** (20) | **2%** (21) | **8%** (86) |
| **Arall** (2,400) | **1%** (16) | **0%** (1) | **98%** (2,355) | **0%** (3) | **0%** (1) | **0%** (1) | **1%** (30) |

*Cwestiwn 3 – Bydd unrhyw sylwadau a wnaed gennych yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol wedi'u hystyried. Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych mewn perthynas â'r ymgynghoriad atodol hwn a'r opsiynau cyfredol. Nodwch resymau dros eich dewis (parhewch ar bapur ar wahân os bydd angen)*

Atebodd 2,789 o bobl y cwestiwn hwn, a chafwyd sylwadau eang eu cwmpas. Fe'u trefnwyd i 30 o gategorïau a cheir crynodeb ohonynt yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Atodol. Roedd prif themâu'r sylwadau fel a ganlyn:

1. Gwell opsiwn neu lai o effaith.
2. Gwell opsiwn neu lai o effaith weledol.
3. Achub swyddi lleol.
4. Cefnogi'r Opsiwn Du.
5. Yn erbyn yr opsiwn Porffor.

6. Cefnogi'r Opsiwn Porffor neu'r Opsiwn Melyn.
7. O blaid ffordd osgoi.
8. Dim angen ffordd osgoi.
9. O blaid mesurau ar-lein.
10. Pryder dros yr effaith amgylcheddol a gweledol gan gynnwys sŵn, ansawdd aer, ecoleg ac agosrwydd at Ysgol Hendre.
11. A yw'r cynllun yn ariannol hyfyw.
12. Mae defnyddio ffyrdd sy'n bodoli eisoes yn bwysig.

*Cwestiwn 4 – I ba arddangosfa yr aethoch?*

Aeth 69% o'r rheini a ymatebodd i'r arddangosfa yng Nghaernarfon ac aeth 37% i'r arddangosfa yn y Bontnewydd.

*Cwestiwn 5 – Gofynnwyd saith cwestiwn cyffredinol fel a ganlyn:*

a) A gawsoch ddigon o rybudd am yr arddangosfa? – Do (82%)
b) A lwyddodd yr arddangosfa i fodloni eich disgwyliadau? – Do (91%)
c) A oedd y wybodaeth a ddangoswyd yn ddigon i ateb unrhyw ymholiadau a allai fod wedi bod gennych? – Oedd (86%)
d) A oedd y lleoliad yn addas ar eich cyfer? – Oedd (95%)
e) A oedd yr amseroedd agor yn ddigon hir? – Oeddent (94%)
f) A oedd y staff yn ddigon hyddysg i ateb eich cwestiynau? – Oeddent (92%)
g) A oedd cyfle i chi drafod y cynllun yn eich dewis iaith? – Oedd (93%)

Darparodd 138 o bobl esboniad ysgrifenedig o ran pam y gwnaethant ateb "na" i unrhyw rai o'r uchod. Nododd y rhan fwyaf yn syml nad oeddent wedi gallu mynd i'r arddangosfa.

*Cwestiwn 6 - Sut y clywsoch am yr arddangosfa hon?*

Nid atebodd 2,671 o bobl unrhyw ran o'r cwestiwn hwn. Rhoddodd y 741 o bobl nad atebodd (allan o'r 3,412 o holiaduron a dderbyniwyd) ymatebion fel a ganlyn:

a) Llyfryn drwy'r drws – 291
b) Poster lleol - 29
c) Radio lleol - 33
d) Hysbyseb papur newydd - 170
e) Llyfryn mewn siop leol - 68
f) Ar lafar – 324
g) Arall. Nodwch - 4
h) Arall – o'r pedwar ymateb i gwestiwn g) nododd pob un eu bod wedi clywed am yr arddangosfa "ar-lein".

**Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill**

7.2 Ymatebodd **Cyngor Gwynedd** ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Mae eu hymateb yn cefnogi'r Opsiwn Porffor ac yn croesawu'r cyfle i sicrhau bod traffig sy'n teithio o'r gogledd i'r de yn defnyddio'r ffordd osgoi.

7.3 Mae **Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon** yn croesawu ffordd osgoi ac o'r farn bod angen gwella pedwar maes penodol sy'n peri pryder gan gynnwys: cyffordd Eagles, Plas Brereton, croesfan ger Archfarchnad Morrisons ac arwyddion twristiaeth.

7.4 Mae **Cyngor Cymuned Waunfawr** yn cefnogi'r Opsiwn Du ac yn gwrthwynebu'r Opsiwn Porffor a'r Opsiwn Melyn. Cyflwynodd y cyngor sylwadau am gadw cymaint o'r ffordd bresennol â phosibl, yr angen i ddiogelu asedau ffermio, busnesau lleol a chadw mynediad lleol lle y bo'n bosibl.

7.5 Ailbwysleisiodd **Cyngor Cymuned y Bontnewydd** y ffaith ei fod o blaid ffordd osgoi Dinas, Llanwnda a'r Bontnewydd (a Chaernarfon). Noda'r cyngor er ei fod o blaid ffordd osgoi, fod y gymuned yn pryderu ynghylch y difrod y bydd y gwaith alinio ar gyfer ffordd osgoi'r Bontnewydd yn ei achosi. Noda hefyd fod angen lliniaru'r effeithiau gweledol cymaint â phosibl.

7.6 Cyflwynodd **Cyngor Cymuned Llanwnda** ddau holiadur ac mae o blaid ffordd osgoi, yn fwy penodol yr Opsiwn Porffor.

7.7 Ailbwysleisiodd **Fforwm Llanfaglan a Dinas** ei ddeiseb flaenorol yn erbyn yr Opsiwn Pinc a oedd yn cynnwys 700 o enwau.

7.8 Datgelodd yr **AC lleol, Alun Ffred Jones** fuddiant gan nodi fod ganddo berthynas y byddai'r Opsiynau Du, Oren, Coch a Gwyrddlas yn effeithio arno. Mae'n cydnabod y caiff yr Opsiwn Porffor effaith ar Barc Gwyliau Glan Gwna ac effaith andwyol ar Garej "Caeathro".

7.9 Ysgrifennodd **Hywel Williams AS** ar ran perchenogion Parc Coed Sipsi, y Bontnewydd gan ofyn sut y câi eu buddiannau eu diogelu yn ystod y broses ymgynghori gan fod y perchenogion o'r farn bod y testun yn y llyfryn yn gamarweiniol.

7.10 Cyflwynodd **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** sylwadau ar yr adroddiad EIA Cam 2 gan gadarnhau ei fod yn cytuno â'r astudiaethau ecolegol a'r arolygon a gynhaliwyd hyd yn hyn, ynghyd â chwmpas y rheini a nodwyd ar gyfer Cam 3. Mae CCGC yn cytuno â'r asesiad a'r drefn blaenoriaeth ar gyfer yr Opsiynau o ran effaith ecolegol, ond ailbwysleisiodd ei bryderon y dylid cynnwys darpariaethau seiclo wrth gynllunio'r Opsiynau.

7.11 Mae **YDCW Ynys Môn** o blaid yr Opsiwn Gwyrddlas a'r Opsiwn Oren gan eu bod yn rhoi mynediad agos i Ystad Ddiwydiannol Cibyn ac yn terfynu yng nghylchfan Plas Menai. Maent hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am ddarparu trydedd groesfan dros Afon Menai.

7.12 Roedd **YDCW Caernarfon** o'r farn bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ceir yn croesawu ffordd osgoi, ond roedd yn amau a oedd yn briodol yn ariannol, gan gefnogi atebion interim llai. Maent o blaid y llwybr i'r gorllewin o'r Bontnewydd (Opsiwn Pinc), yn cydnabod uniongyrchedd yr Opsiwn Porffor a'r Opsiwn Melyn ac yn nodi y byddai'r Opsiwn Du yn arwain at golli tir ac at effaith ar y tirlun. Yn gyffredinol, maent o blaid yr Opsiwn Porffor.

7.13 Hoffai **SUSTRANS** i'w safbwyntiau gael eu hystyried fel rhan o'r astudiaeth ac maent o'r farn y dylid cynnwys llwybr cerdded a seiclo cyfochrog wrth gynllunio'r dewis opsiwn.

7.14 Ysgrifennodd **Undeb Amaethwyr Cymru** ar ran tirfeddiannwr lleol yn gwrthwynebu'r Opsiynau Oren, Du, Coch a Gwyrddlas gan y byddai'r pedwar opsiwn yn amharu ar fynediad y tirfeddiannwr rhwng lleiniau o dir.

7.15 Anfonodd **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr** ddau lythyr, un yn cefnogi busnes lleol yn Kent Farm/Seiont Riverside nad ydynt o blaid ffordd osgoi. Mynegodd yr Undeb bryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar fusnes a'r economi leol a pha un a ymdriniwyd â'r mater hwn.

7.16 Cyflwynodd **Asiantaeth yr Amgylchedd** sylwadau ar yr adroddiad EIA CAm 2 gan nodi y dylid ymdrin â gwaith modelu hydrolig, caniatau ar gyfer newid yn yr hinsawdd, asesu canlyniadau llifogydd a mesurau draenio cynaliadwy. O ran bioamrywiaeth, maent yn disgwyl arolygon pellach o rywogaethau a ddiogelir a chyfleusterau croesi addas dros ffosydd, cwlfertau ac afonydd. O ran ansawdd dŵr, bydd angen Asesiad o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a bydd angen asesu effaith y gwaith adeiladu/gweithredu, gan gynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff ar y Safle.

7.17 Roedd **Cyfeillion y Ddaear** yn amau a oedd angen ffordd osgoi o gwbl gan holi ynghylch canlyniad yr astudiaeth mewn perthynas â dogfennaeth cynaliadwyedd a threfniadau llunio polisïau Llywodraeth Cymru. Gwnaethant holi hefyd ynghylch rhai o'r Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth.

7.18 Mae **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru** yn bryderus iawn ynghylch yr effaith a ragwelir ar fioamrywiaeth a achosir gan yr holl opsiynau, nid yw'n cefnogi unrhyw opsiwn ac mae o'r farn bod unrhyw ymdrechion i hyrwyddo ffordd osgoi yn mynd yn groes i dargedau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.

7.19 Mae'r **Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad** yn ceisio sicrhau y caiff ei haelodau eu hysbysu a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hawliau i gostau iawndal ac yn awyddus y dylai mynediad i dirfeddianwyr a thrigolion gael ei ystyried.

7.20 Cyflwynodd **Taith** ddau holiadur gan ddangos cefnogaeth tuag at ffordd osgoi yn gyffredinol, yn benodol yr Opsiwn Porffor.

7.21 Roedd **Wynns a Movement Along Welsh Routes (MAWR)** yn cefnogi'r Opsiwn Porffor fel y llwybr mwyaf uniongyrchol yn osgoi graddiannau serth. Gwnaethant ddarparu gwybodaeth am symudiadau llwythi abnormal a datblygiadau diweddar/arfaethedig yn ardal y gogledd-orllewin.

## 8 CANLYNIADAU

8.1 Ystyriwyd bod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn effeithiol oherwydd iddo greu llawer o drafodaeth gyhoeddus gyda thros 1,500 o bobl yn dod i'r arddangosfeydd ar gyfer y ddau Ymgynghoriad, a lefel uchel o holiaduron ac ymatebion ysgrifenedig yn cael eu dychwelyd.

8.2 Yn dilyn yr arddangosfeydd ac yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad atodol, cafwyd pedwar awgrym ar gyfer llwybrau amgen i'r dwyrain o'r Bontnewydd.

**Camau a Gymerwyd yn Dilyn Pryderon a Godwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus**

8.3 Gwnaethom wrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd a chynnal rhywfaint o waith pellach, a ddisgrifir isod:

- Opsiwn Llwyd
  Yn dilyn sylwadau gan berchenogion yr eiddo a elwir yn "Morogoro", adolygwyd y llwybr hwn ac yn dilyn arfarniad, nodwyd ei fod yn debyg i lwybr WelTAG Cam 1 cynharach (Llwybr Gwyrdd) a ddiystyrwyd.

- Opsiynau 1, 2 a 3 i'r dwyrain o'r Bontnewydd (Opsiynau Browngoch)
  Yn dilyn sylwadau gan Fforwm Llanfaglan a Dinas, adolygwyd y llwybrau hyn ac yn dilyn arfarniad, nodwyd eu bod yn cynnwys rhannau cyfansoddiadol tebyg i'r Opsiynau Gwyn a Glas a arfarnwyd yn flaenorol, ac y diystyrwyd y ddau ohonynt.

Y prif reswm dros wrthod y pedwar llwybr uchod yw'r effeithiau posibl y byddai pob llwybr yn eu cael ar y dynodiadau amgylcheddol SoDdGA ac ACA i'r dwyrain o'r Bontnewydd.

## 9 CYMHARU'R OPSIWN PORFFOR A'R OPSIWN DU

9.1 Arfarnwyd pob opsiwn o dan fframwaith WelTAG, Mehefin 2008 (Canllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru). Mae'r canllawiau yn seiliedig ar dair colofn Cynaliadwyedd, sef yr Amgylchedd, yr Economi a'r Gymdeithas. Mae WelTAG hefyd yn cynnwys rhai meini prawf mewn perthynas â dichonoldeb technegol a gweithredol, derbynioldeb i randdeiliaid a'r cyhoedd a risgiau eraill. Defnyddir yr Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth a ddeilliodd o WelTAG i asesu pob opsiwn.

9.2 Wrth ddefnyddio WelTAG, mae'n bwysig cydnabod nad yw 'gwerth' y sgoriau mor bwysig â'r gydberthynas rhwng y sgoriau ar gyfer un opsiwn o gymharu â'r sgoriau ar gyfer opsiwn arall. Nid ychwanegir unrhyw bwysoliadau ar gyfer y sgoriau ar gyfer unrhyw rai o'r meini prawf ac mae gan bob adran 'werth' cyfartal yn yr arfarniad.

9.3 Darparodd yr arfarniad technegol o'r opsiynau y sgoriau cymharol canlynol:

- Opsiwn Porffor 21.5
- Opsiwn Melyn 20.5
- Opsiwn Du 17.5
- Opsiwn Coch 17.5
- Opsiwn Oren 17
- Opsiwn Gwyrddlas 17
- Opsiwn Brown 15.5
- Opsiwn Amrywiad Brown 14.5
- Opsiwn Pinc 8.5
- Opsiwn Gwyn 6

- Opsiwn Glas 6

Dengys yr uchod mai'r Opsiwn Porffor sy'n perfformio orau yn erbyn y meini prawf a bennwyd. Yn seiliedig ar arfarniad o'r meini prawf technegol ac amgylcheddol, golyga hyn mai'r Opsiwn Porffor yw'r opsiwn gorau. Fodd bynnag, wrth ystyried canlyniadau proses yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, daw'r opsiwn Porffor a'r opsiwn Du i'r amlwg fel y Llwybr Dewisol posibl; yr opsiwn Porffor oedd y llwybr dewisol o'r ymgynghoriad cychwynnol a'r Opsiwn Du oedd y llwybr dewisol o'r ymgynghoriad atodol.

9.4 Daw'r prif wahaniaethau o ran sgoriau rhwng y ddau opsiwn hyn o dan benawdau canlynol WelTAG:

- Ansawdd Aer Lleol;
- Bioamrywiaeth;
- Treftadaeth;
- Cynhwysiant Cymdeithasol;
- Cost;
- Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth;
- Materion/Ystyriaethau Eraill.

9.5 Ansawdd Aer Lleol - mae'r Opsiwn Porffor yn sgorio un lefel arwyddocâd yn well yn rhannol gan fod yr Opsiwn Du yn cynyddu'r traffig yng Nghaeathro, ac yn cynyddu'r traffig sy'n rhyngweithio â'r cymunedau gwledig ar hyd y ffordd osgoi answyddogol sy'n bodoli eisoes.

9.6 Bioamrywiaeth - mae sgôr yr Opsiwn Du ychydig yn is o hanner lefel arwyddocâd oherwydd natur y tirlun yr effeithir arno.

9.7 Treftadaeth - mae sgôr yr Opsiwn Du ychydig yn is o hanner lefel arwyddocâd oherwydd ei effaith gymedrol ar dair Heneb Rhestredig.

9.8 Cynhwysiant Cymdeithasol - mae sgôr yr Opsiwn Du yn is o un lefel arwyddocâd. Er bod rhywfaint o fudd i'w gael drwy ychwanegu cylchfan yng Nghaeathro, caiff y budd hwn ei negyddu gan y cynnydd bach mewn traffig a'r rhyngweithio rhwng traffig lleol a thraffig sy'n teithio ar hyd y ffordd osgoi.

9.9 Cost – Byddai'r Opsiwn Du yn costio tua £5m yn llai na'r Opsiwn Porffor, er bod gan y ddau gymarebau Budd i Gost tebyg, sef 4, sy'n nodi buddiannau economaidd cryf i'r ddau Opsiwn.

9.10 Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth - Mae gan sgoriau'r Opsiwn Porffor a'r Opsiwn Du yr un lefelau arwyddocâd ar gyfer Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth 1 i 4. Ar gyfer Amcan Cynllunio Trafnidiaeth 4, sy'n ymwneud â gwella gwydnwch y rhwydwaith, yr Opsiwn Du sy'n sgorio waethaf gan fod mwy o hollti.

9.11 'Materion Eraill' – Ni chaiff yr agweddau hyn eu sgorio o dan arfarniad WelTAG ond mae yna rai materion allweddol i'w hystyried fel ffactorau a allai wahaniaethu; fel y trafodir isod.

9.12 Byddai'r Opsiwn Porffor a'r Opsiwn Du yn hollti'r ffordd gyswllt fach rhwng Bethel a Felinheli. Byddai'r ffordd yn cael ei hailsefydlu drwy ei chyfuno â phont feddiannu'r fferm.

9.13 Mae'r Opsiwn Du tua 900 metr yn hwy. Mae'r ddarpariaeth lonydd ar gyfer y ddau Opsiwn yn cynnwys Ffordd Unffrwd Lydan 2+1 gyda lonydd goddiweddyd cyfeiriadol yn cael eu darparu mewn lleoliadau priodol. Mae cyfran y rhaniad cyfeiriadol ychydig yn well ar yr Opsiwn Porffor.

9.14 Mae strwythur hir ar yr Opsiwn Porffor yng nghroesfan Glan Gwna, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar Barc Gwyliau Glan Gwna. Byddai'r Opsiwn Du hefyd yn effeithio ar y Parc Gwyliau ond i raddau llai. Byddai'r Opsiwn Du yn effeithio ar adeilad y Girl Guide Hostel (Felin Bach).

9.15 Byddai'r Opsiwn Porffor yn lleihau'r swm o draffig a fyddai'n teithio heibio i Garej Gwalia tua 58%. Byddai'r Opsiwn Du yn cynyddu swm y traffig 153%. Gyda'r Opsiwn Porffor, byddai effaith fach i gymedrol ar drosiant o ganlyniad i'r fasnach teithio heibio a gâi ei cholli.

9.16 Byddai'r Opsiwn Porffor yn lleihau traffig yng Nghaeathro, ond byddai'r Opsiwn Du yn ei gynyddu ychydig.

9.17 Mae'r ddau opsiwn yn gyson â nodau Cynllun Gweithredu Môn a Menai. Yr Opsiwn Porffor yw'r aliniad uniongyrchol mwy strategol ar gyfer cysylltu'r gogledd a'r de a'r A55 â Phenrhyn Llŷn, gan ei fod yn fyrrach ac nad oes cymaint o gyffyrdd.

## 10 RHESYMAU DROS DDEWIS Y LLWYBR A FFEFRIR

10.1 O'r 3,147 o bobl a ymatebodd i gwestiwn 2 yn holiadur yr Ymgynghoriad Cyhoeddus atodol (Tachwedd 2010), roedd 2,991 (88%) o'r farn bod angen ffordd osgoi. Nid oedd 156 o bobl o'r farn bod angen ffordd osgoi (5%) ac nid atebodd 265 o bobl. O'r Cynghorau Cymuned a ymatebodd, mae pob un ohonynt o'r farn bod angen ffordd osgoi, ond ceir gwahaniaeth barn rhwng yr Opsiwn Du a'r Opsiwn Porffor. Mae adran priffyrdd yr awdurdod lleol (Cyngor Sir Gwynedd) wedi nodi ei bod o blaid yr Opsiwn Porffor. Dangosodd yr ymatebion i'r holiadur (gan y cyhoedd) fwy o gefnogaeth o blaid yr Opsiwn Du.

10.2 Nid yw grwpiau amgylcheddol a grwpiau eraill â diddordeb gan gynnwys YDCW, Sustrans, NWWT, CLA, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr o blaid ffordd osgoi.

10.3 Mae Fforwm Dinas, Llanwnda a'r Bontnewydd yn parhau'n gadarn yn erbyn y cynnig alinio i'r gorllewin o'r Bontnewydd (llwybr cyffredin y cyfeirir ato fel yr Opsiwn Pinc). Ailgyflwynwyd eu deiseb â 700 o enwau arni yn erbyn y llwybr hwn. Fodd bynnag, rydym wedi gwrthod llwybrau amgen i'r dwyrain o'r Bontnewydd ar seiliau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan fod effeithiau negyddol sylweddol. Mae gan yr Opsiwn Pinc lai o effeithiau amgylcheddol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae ganddo hefyd lai o effaith ar eiddo unigol, cymunedau bach a busnesau. Mae'r opsiynau i'r dwyrain o'r Bontnewydd 40% yn ddrutach.

10.4 Daeth arfarniad WelTAG i'r casgliad mai'r Opsiwn Porffor sy'n perfformio orau yn erbyn yr amcanion ac mae'r opsiwn hwn sy'n effeithio leiaf ar ansawdd aer lleol,

bioamrywiaeth, treftadaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r Opsiwn Porffor hefyd yn darparu aliniad uniongyrchol mwy strategol gyda llai o effaith ar draffig lleol.

## 11 PENDERFYNIAD Y GWEINIDOG LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU

11.1 Ar ôl ystyried yr agweddau technegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar y cynllun hwn a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Gweinidog wedi penderfynu gwneud y canlynol:

- Mabwysiadu Llwybr Ffordd Osgoi'r Opsiwn Porffor ynghyd â gwelliannau priffordd a thraffig ar-lein (o'r pecyn mesurau Gwneud y Lleiaf Posibl) fel y Dewis Opsiwn ar gyfer ymdrin â'r problemau trafnidiaeth a nodwyd yn yr astudiaeth o’r A487 Caernarfon i'r Bontnewydd;

- Cyhoeddi Cynllun TR111 (Atodiad C) er mwyn diogelu Llwybr cyfan Ffordd Osgoi'r Opsiwn Porffor at ddibenion cynllunio.

11.2 Dengys y TR111 y Llwybr a Ffefrir fel llinell ddu lydan. Mae'r llinell hon yn ddangosol yn unig ac efallai y bydd yn newid ychydig yn ystod y cam cynllunio nesaf.

## 12 DIOGELU'R LLWYBR A FFEFRIR

12.1 Drwy gyhoeddi cynllun TR111, rydym yn diogelu'r llwybr o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995. Golyga hyn y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio pob cais cynllunio gerllaw'r Llwybr a Ffefrir yn y dyfodol at Lywodraeth Cymru. Gallwch weld y cynllun TR111 yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Neuadd y Sir, ac yn ein Swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, Conwy.

12.2 O dan amgylchiadau penodol, gall unrhyw berchennog sy'n ei chael hi'n anodd gwerthu eiddo ar linell y llwybr wneud cais mewn perthynas â malltod. Os bydd unrhyw achos yn bodloni meini prawf a bennwyd, byddwn yn prynu'r eiddo.

12.3 Nid yw'r ffaith bod Llwybr a Ffefrir wedi'i ddiogelu yn ein rhwymo i linell y llwybr hwnnw. Dim ond unwaith y bydd Gorchymyn y Llinell wedi'i wneud, a ddisgrifir yn yr adran nesaf, y byddwn wedi ein rhwymo iddo

## 13 BETH SY'N DIGWYDD NESAF

13.1 Byddwn yn ymchwilio ymhellach ac yn llunio'r cynllun yn fanylach – sef y Cynllun Rhagarweiniol. Yn benodol, byddwn yn edrych ar faterion amgylcheddol a pheirianyddol yn fanylach, gan ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ac yn edrych ar strategaeth ar gyfer cyffordd ac opsiynau ar gyfer ffyrdd ymyl a mynedfeydd.

13.2 Ar ôl llunio'r Cynllun Rhagarweiniol, byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Mae'r Gorchmynion drafft yn cynnwys y pwerau i sefydlu llinell, addasu'r ffyrdd ymyl, prynu tir a rhoi hawliau eraill sydd eu hangen arnom i gyflawni'r cynllun ar waith. Bydd cyfnod pan all pobl sydd â diddordeb yn y cynigion, neu y gallai'r cynigion effeithio arnynt, wrthwynebu'r Gorchmynion drafft neu hyd yn oed awgrymu cynigion amgen. Os na allwn ddatrys y gwrthwynebiadau hyn, a chan ddibynnu ar y materion a godir a lefel y gwrthwynebiad,

mae'n bosibl y byddwn yn cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Byddai Arolygydd annibynnol yn gwrando ac yn ystyried y dystiolaeth a gwneud argymhelliad i'r Gweinidog dros Drafnidiaeth ei ystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion.

13.3 Mae'r cynllun yn "brosiect perthnasol" o dan Reoliad 48 (1) (a) o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 (O.S. 1994/Rhif 2716) mewn perthynas ag Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE 92/43/EEC. Golyga hyn y byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn llunio Datganiad Amgylcheddol. Byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen hon ynghyd â datganiad i lywio penderfyniad Asesu Priodol ar yr un pryd ag y byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion drafft.

## ATODIAD A

## LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYCHWYNNOL

## ATODIAD B

## LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS ATODOL

**ATODIAD C**

**CYNLLUN Y LLWYBR A FFEFRIR – TR111**

## ATODIAD D

## CYNLLUN GWELLA'R BRIFFORDD LEOL

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **4 Rhagfyr, 2012** |
| **TEITL** | **Strategaeth Wastraff** |
| **PWRPAS** | **Adroddiad Cynnydd ar gais y Pwyllgor Craffu** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W Gareth Roberts** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bu i Strategaeth Wastraff y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2010 i 2025 gael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod 21 Ionawr, 2010. Gweler yr Atodiad.

1.2 Mae'r Adroddiad hwn ar gyfer rhoddi diweddariad cryno i'r Pwyllgor Craffu ar y Strategaeth Wastraff ac yn benodol i bwrpas ateb y cwestiynau restrir yn ganlynol:

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR CRAFFU

### A Beth fu prif lwyddiannau'r Strategaeth Wastraff hyd yn hyn?

Mae'r Strategaeth Wastraff fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cynnwys Cynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 12 cam/datblygiad i'w gwireddu i gyflawni'r Strategaeth Wastraff am y cyfnod 15 mlynedd dan sylw. Gweler camau 6.1.1 i 6.1.12 yn yr Atodiad.

Dyma ddiweddariad cryno parthed y camau hynny.

**6.1.1 Rhesymoli Cylchdeithiau Ardal Arfon –** wedi ei wireddu.

**6.1.2 Adolygu Gwastraff Masnachol –** wedi ei wireddu gyda darpariaeth ar gyfer casgliadau deunyddiau ailgylchu, bwyd, gwydr a gweddilliol, i dros 2200 o gleientiaid. Ffioedd gwahaniaethol i'w fabwysiadu gan y Cyngor ar gyfer 2013/14.

**6.1.3 Darparu Canolfannau Ailgylchu Ychwanegol -** wedi ei wireddu gyda chanolfannau newydd yn Nolgellau a Blaenau Ffestiniog. Lefelau ailgylchu'r canolfannau wedi codi o 63% i 69.42% (Medi 2012).

**6.1.4 Darparu Canolfan Adennill Deunyddiau yn Ne Gwynedd –** safle Coed Ffridd Arw, Dolgellau mewn defnydd, hawl cynllunio wedi ei dderbyn i addasu'r safle i'r pwrpas; cychwyn adeiladu yn fuan.

**6.1.5 Addasiadau i Ganolfan Adennill Deunyddiau Caergylchu** - rhai addasiadau wedi eu gwneud, modurdy wedi ei adleoli i greu gwagle ar gyfer ymestyn Caergylchu, tendro am y gwaith addasu ar hyn o bryd, gwaith adeiladu/addasu i gychwyn yn fuan yn 2013.

**6.1.6 Ymestyn Casgliadau Ailgylchu (bocs glas) i ddeunyddiau eraill –** marchnadoedd wedi eu sefydlu i'r pwrpas erbyn hyn a disgwyl addasiadau i Caergylchu (gweler 6.1.5). Bwriad ymestyn i gasglu cynhwysyddion plastigion meddal gwael a 'tetrapacs' yn y flwyddyn newydd.

**6.1.7 Lleihau ar y cynhwysydd gwastraff gweddilliol –** disgwyl adroddiad ymgynghorwyr gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr opsiynau (Rhagfyr 2012). Mater i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ar gyfer ei wireddu 2013/14.

**6.1.8 Mesurau Eraill i Gynyddu Ailgylchu a Chompostio (2012 – 2017) –** ymgyrchoedd addysgu, codi ymwybyddiaeth yn parhau, rhaglen yn cael ei weithredu o ran addasu pwyntiau cymunedol, addasiadau i gylchdeithiau casglu yn barhaol. Biniau ailgylchu ar y stryd yn cael ei ymestyn pan fydd cyfleon/grant ar gael.

**6.1.9 Ymdrin â Gwastraff Bwyd (Prosiect GwyriAD)** - wedi comisiynu cwmni Biogen i ddarparu cyfleuster Treuliwr Anaerobig yn safle Llwyn Isaf, Clynnog. Cyngor Gwynedd yw'r cyntaf yng Nghymru (a Phrydain) i gyrraedd a chwblhau cytundeb i'r pwrpas. Gwaith adeiladu wedi cychwyn ac wedi ei raglennu i fod yn weithredol Awst/Medi 2013.

**6.1.10 Casglu Gwastraff Bwyd yn Wythnosol –** yn weithredol drwy'r Sir gyda threfniadau yn cael ei ymestyn i safleoedd penodol fel clwstwr o fflatiau a.y.yb.

**6.1.11 Ymdrin â Gwastraff Gweddilliol (Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016-2017 ymlaen) –** Gwynedd mewn partneriaeth a Chonwy, Môn, Dinbych a Fflint. Achos Busnes Terfynol nawr dan ystyriaeth, 2 gwmni darparu yn weddill. Safle yn y Shotton, Fflint dan ystyriaeth.

**6.1.12 Lleihau ar ein Dibyniaeth ar Dirlenwi (2010 – 2025) –** Safle Gwaredu Llwyn Isaf wedi ei gau ynghynt (2012), ystyriaeth o ddyfodol Safle Gwaredu Ffridd Rasus i'w wneud ynghynt na raglenwyd. Gwaith capio a diogelu Safle Gwaredu Cilgwyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i'w orffen flwyddyn ariannol hon.

**O'r uchod gellir adrodd bod cynnydd sylweddol yn erbyn y Cynllun Gweithredu osodwyd hyd yn hyn. Bu i'r Cyngor osgoi talu unrhyw ddirwyon Lwfans Tirlenwi yn y cyfnod hyd yn hyn. 'Roedd Cyngor Gwynedd yn 1 o 12 Awdurdod Lleol wnaeth gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o lefelau ailgylchu/compostio o 40% yn 2009/10. (Bu i 10 Sir yng Nghymru beidio cyrraedd y targed hwn). Mae llwyddiant Cyngor Gwynedd ar ddatblygu Prosiect GwyriAD wedi derbyn canmoliaeth a chydnabyddiaeth yn genedlaethol.**

**Dylai'r Pwyllgor Craffu nodi, bod y Strategaeth Wastraff dros gyfnod hir, ac mae gan y Cyngor lawer mwy i'w gyflawni i sicrhau ei weithrediad.**

Mae ffigyrau ailgylchu/compostio/ailddefnyddio Gwynedd (hyd at Medi 2012) fel a ganlyn:

| | (Cyfanswn Ch1 a Ch2) | Chwarter 2 yn unig |
|---|---|---|
| Ail-ddefnyddio: | 4.13% | 4.17% |
| Ailgylchu: | 24.13% | 24.68% |
| Compostio: | 21.85% | 23.01% |
| Cyfanswm: | 50.16% | 51.86% |

(mae angen cyrraedd 52% erbyn 31 Mawrth, 2013)

Canran Gwastraff wedi ei dirlenwi: 46.2% (Medi 2012).

Ers cyflwyno newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Masnachol mae ailgylchu/compostio wedi cynyddu o 11% i 25.11% (Medi 2012).

**B Mae'r Mesurydd WMT/004 yn dangos dirywiad cymharol ym mherfformiad y Cyngor rhwng 2007/08 a 2011/12. Beth yn eich barn chi yw'r rhesymau am hyn, pa gamau a gymerwyd i'w ddatrys a beth yw'r rhagolygon ar gyfer gweddill cyfnod y Strategaeth?**

Dyma yw'r ffigyrau cywir ar gyfer WTM/004 'Canran o wastraff dirlenwyd' ar gyfer y blynyddoedd dan sylw:

| Blwyddyn | Tirlenwyd (t)* | % Tirlenwyd (WTM/004)* |
|---|---|---|
| 2007/08 | 54477 | 66.20% |
| 2008/09 | 50448 | 63.10% |
| 2009/10 | 45734 | 56.90% |
| 2010/11 | 41978 | 54.00% |
| 2011/12 | 39582 | 51.80% |

*Gwybodaeth uchod o Ddata Gwybodaeth Gwastraff sy'n statudol ar gyfer Llywodraeth Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.

Nid yw'r ffigyrau uchod yn dangos bod dirywiad. Beth sydd efallai dan sylw yw, i gymharu â siroedd eraill Cymru, bod Gwynedd wedi gostwng o 14fed safle (allan o 22 Sir) i 20fed safle dros y cyfnod ac mae hyn yn parhau i adlewyrchu ein gorddibyniaeth ar dirlenwi. Mae ffigwr o 46.2% (mis Medi 2012) yn awgrymu bydd Gwynedd yn gwella o ran safle yn y gymhariaeth dan sylw am y flwyddyn 2012/13.

**C Mae'n ymddangos bod cyfanswm y gwastraff gesglir wedi lleihau 5195 tunnell rhwng 2007 a 2012, tra bod cyfanswm sy'n mynd i dirlenwi wedi cynyddu o 3879 tunnell. Beth yn eich barn chi yw'r rhesymau am hyn?**

Nid yw’r cwestiwn ar sail gywir; cafwyd lleihad o 6103 tunnell mewn cyfanswm gesglir a bu gostyngiad o 14895 tunnell yn yr hyn dirlenwyd dros y cyfnod.

**CH Beth yw’r gwahaniaeth rhwng ein trefniadau ni a chynghorau mewn ardaloedd tebyg? Pa wersi y gellir eu dysgu o safbwynt arfer da gan y cynghorau hynny?**

Mae Cyngor Gwynedd o ran ei drefniadau yn cyd-fynd gyda ‘blueprint’ ymarferiad da argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o siroedd yng Nghymru wedi dewis casglu deunyddiau ailgylchu yn gymysg, yn hytrach na’i ddidoli yn y lleoliad fel sydd wedi ei ddatblygu a’i sefydlu yng Ngwynedd. Mae’r siroedd hyn yn wynebu potensial o orfod newid eu trefniadau i gyd-fynd a gofynion y Llywodraeth a gofynion yr Undeb Ewropeaidd.

Mae’r swyddogion sy’n ymdrin â gwireddu’r Strategaeth Wastraff yn cwrdd yn rheolaidd drwy gyfrwng nifer o dimau tasg ac mae esiamplau o ymarferiadau da (ac aflwyddiannus) siroedd eraill ar agenda pob tîm tasg. Yr ydym yn dilyn datblygiadau mewn siroedd eraill yn ofalus a chyson ac mae cyd-weithredu a rhannu syniadau yn digwydd mewn ystod o gyfarfodydd technegol a phroffesiynol i’r pwrpas e.e. C.LL.L.C, CSS Cymru, Cylch, WAW, LL.C a phrosiectau cydweithio. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn canmoliaeth yn genedlaethol fel y gorau yng Nghymru ar gyfer cynllunio manwl ac ariannol hir dymor strategaeth wastraff bwrdeistrefol.

**D Esboniwch pa waith sydd wedi digwydd o ran cysylltu â thrigolion ynglŷn â gweithredu’r strategaeth er mwyn cael dylanwad a'u hymddygiad ac i sicrhau cynnydd o ran ein targedau?**

Byddai rhoddi holl fanylion yr ymgyrchoedd sydd wedi, ac yn cael, ei weithredu yn dasg enfawr. Felly, i grynhoi, mae ymgyrchoedd penodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion, i fyfyrwyr (gyda Prifysgol Bangor), trigolion o ddrws i ddrws - yn bennaf ar hyn o bryd i bwrpas gwella cyfranogiad gyda chasglu bwyd, cymunedau, masnachwyr (gwasanaeth masnachol), sector wirfoddol - gan gynnwys cyd-weithio, digwyddiadau, ymgyrchoedd ar y cyd gyda’g eraill a.y.y.b. Cyhoeddusrwydd rheolaidd yn cael ei raglennu gyda Uned Gyfathrebu y Cyngor.

**DD Tynnwch sylw at unrhyw anawsterau neu broblemau eraill a gafwyd a sut yr eir ati i ddelio gyda nhw.**

Mae nifer o broblemau wedi codi ac wedi ei goresgyn e.e. bu oediad mewn pwrcasu fflyd (oherwydd gofynion caffael) a wnaeth achosi 7 mis o lithriad yn y rhaglenni casglu bwyd yn wythnosol a chyflwyno newidiadau i’r gwasanaeth casglu gwastraff masnachol. Mae hyn wedi profi’n rhwystredig yn enwedig o safbwynt gwastraff masnachol lle yr ydym wedi gosod targed o ailgylchu/compostio o 40% ar gyfer eleni. Gyda’r oediad mewn cyflwyno’r gwasanaeth newydd, mae’n debyg mai o gwmpas lefelau 30% ailgylchu/compostio fydd yn bosib eleni. Yn amlwg bod trigolion Gwynedd yn parhau i fod yn or-ddibynol (neu’n defnyddio gormod) ar y bin gweddilliol (neu 3 sach du) ac yn araf newid eu harferion i ailgylchu mwy. Mae yn rhaid i’r Cyngor weithredu ar hyn (gweler cam 6.1.7 o’r Atodiad ac uchod).

Mae ymgyrch sylweddol ar hyn o bryd i wella ar ein perfformiad casglu bwyd, ac er bod cynnydd pob mis yn yr hyn gesglir, mae trigolion yn araf i'w ddefnyddio yn llawn. Mae ganddom brofiad o oediad (fel arfer 6 mis) rhwng cyflwyno darpariaeth newydd i hwyluso ailgylchu a phryd mae trigolion (a masnachwyr) yn ei ddefnyddio yn rheolaidd.

**E Beth fyddai oblygiadau methu cwrdd â'r targedau?**

Mae hyn wedi ei amlygu yn Rhan 10 o'r Atodiad.

## 3. CANLYNIAD

3.1 Mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad hwn i bwrpas rhoddi diweddariad cryno parthed cyflawni'r Strategaeth Wastraff a rhoddi ymatebion i'r cwestiynau godwyd. Fel yr Aelod Cabinet perthnasol, byddaf, ynghyd â Phennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, ar gael i ymhelaethu ar yr hyn adroddir yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu pe dymunir.

G.M.Jones/W G Roberts – 14 Tachwedd, 2012

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21 IONAWR 2010** |
| **PWNC** | **STRATEGAETH WASTRAFF** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS**<br>**Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r strategaeth ar gyfer 2010 hyd at 2025 er mwyn cwrdd ag amcanion y Cyngor a'r gofynion allanol sydd arnom.** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO.** | **CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS** |

## 1 Cefndir

1.1 Yn Hydref 2005 fe fabwysiadodd y Pwyllgor Amgylchedd raglen waith ar gyfer gwireddu strategaeth wastraff a sefydliwyd bryd hynny.

1.2 Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi symud ymlaen yn sylweddol ac mae angen adolygu ein sefyllfa gan lunio rhaglen newydd fydd yn mynd a ni ymlaen at 2025 a thu hwnt.

1.3 Amcan y strategaeth yw lleihau'r gwastraff sydd yn mynd i safleoedd tirlenw i ac mae yna nifer o yrwyr sy'n ein harwain i lawr y llwybr yma.

1.4 Yn gyntaf oll wrth gwrs mae'r ystyriaeth ôl troed ecolegol. Mae gosod gwastraff mewn safle tirlenwi yn ychwanegu'n sylweddol at nwyon tŷ gwydr (gyda methane 21 gwaith yn fwy niweidiol na $CO^{2)}$ ac yn defnyddio deunydd crai prin y byd.

1.5 Gyda hyn mewn golwg wrth gwrs mae Senedd Ewrop wedi gosod lwfansau ar gyfer y gwastraff pydradwy gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi ac os yw Cyngor yn anfon mwy na'r lwfans fe fydd yna gosbau ariannol i'w talu. Mae yna yrwyr economaidd i'r strategaeth hefyd felly. [Er gwaethaf y ffaith fod rhai o'r cynigion a nodir yn y strategaeth yn ymddangos yn fwy costus na thirlenwi - pan gymerir y cosbau ar gyfer lwfansau tirlenwi i ystyriaeth a'r cynnydd disgwyliedig yn y gyfradd treth tirlenwi mae'r pendil yn symud y ffordd arall.]

1.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gosod targedau ar gyfer elfennau eraill yn ymwneud ag ail gylchu a'r hyn gaiff ei anfon i dirlenwi ac mae'r strategaeth yn ceisio cyfarch y targedau hynny

hefyd. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai wedi nodi ei bod yn bwriadu gwneud rhai o'r targedau yma yn rai statudol maes o law allasai olygu mwy o gosbau ariannol. Mae hi hefyd wedi nodi bwriad i wahardd rhag anfon rhai deunyddiau (e.e. bwyd, papur, caniau a.y.b) i safleoedd gwaredu.

**1.7** Mewn gwirionedd felly fe allasai'r bygythiad ariannol fod yn fwy na'r hyn a nodir yn y strategaeth.

**2 Y Strategaeth**

2.1 Rhan 6 yr adroddiad atodol sy'n manylu beth yw cynnwys y strategaeth am y cyfnod i ddod a'r hyn y bwriedir ei wneud.

2.2 Bydd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn darparu cyflwyniad byr i'r Cyngor yn crynhoi'r hyn y mae'r strategaeth yn ei olygu ac i roi eglurhad o'i gynnwys

2.3 Tra bod yna 12 o elfennau penodol yn cael eu nodi gellir gweld mai'r elfennau sydd am olygu'r gost fwyaf yw –

- Sefydlu darpariaeth ymdrin â gwastraff bwyd (prosiect GwyriAD) (Cymal 6.1.9)
- Sefydlu trefniadau ar y cyd ar draws Gogledd Cymru i ymdrin â gwastraff gweddilliol (Cymal 6.1.11);

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig cymorth ariannol i sefydlu'r cyfleusterau yma sydd yn cynorthwyo'r achos busnes. Fodd bynnag bydd hefyd yn golygu buddsoddiad sylweddol ar ran y Cyngor. O beidio ag ymgymryd â'r cyfleusterau yma fodd bynnag byddai'r gost lawer uwch.

Nodir y gwahaniaeth ar ffurf graff yn Atodiad D yr adroddiad gwreiddiol. Yn dilyn adolygiad pellach o'r ffigyrau nodwyd nad oedd y graff gwreiddiol yn cynnwys chwyddiant ar gyfer costau casglu. Nid yw hyn yn newid y casgliad ond er mwyn bod yn gyson fe roddir ffigyrau manwl ynghyd â graff diwygedig yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

2.4 O ran yr effaith ar drigolion fe welir mai'r effeithiau mwyaf ar drigolion fydd –

- Y bwriad i gynyddu amlder casglu deunydd ail gylchu (bocs glas) a bwyd i wythnosol; (cymal 6.1.1.)
- Yr ystyriaeth y bydd angen ei roddi i leihau maint y bin gwyrdd neu ystyried lleihau'r amlder casglu ymhellach (Cymal 6.1.7)

2.5 Unwaith y bydd y strwythurwaith yn ei le wrth gwrs yr hyn fydd yn allweddol i lwyddiant y strategaeth o hyn allan fydd cynyddu'r pwyslais ar addysgu ac anogaeth. (Cymal 6.1.8)

.3 **Ystyriaeth gan y Cyngor**

3.1 Rhaid tanlinellu fod yna oblygiadau difrifol iawn pe byddai'r Cyngor yn methu cyflawni'r strategaeth.

3.2 Os bydd y Cyngor yn ei fabwysiadu, byddwn yn symud ymlaen i ddatblygu'r gwahanol elfennau a bydd y Bwrdd wedyn yn gyfrifol am ystyried yr achosion busnes manwl ar gyfer y gwahanol elfennau hynny.

3.3 Mae'r strategaeth eisoes wedi bod o flaen y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a barn y Pwyllgor hwnnw oedd y dylid argymell i'r Cyngor ei fod yn mabwysiadu'r strategaeth gan nodi y bydd yn golygu'r angen i wynebu penderfyniadau anodd yn y dyfodol os am gyrraedd y targedau perthnasol.

3.4 Yn amlwg fe fydd hyn yn golygu cryn fuddsoddiad gan y Cyngor (er gwaethaf y cymorth ychwanegol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gynnig) a gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaeth a'r gofynion buddsoddi sy'n gysylltiedig â hynny.


# CYMHARIAETH CYLLIDEBOL Y STRATEGAETH YN ERBYN GWNEUD DIM

**Gwenud Dim**

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli ac ymwybyddiaeth | 572 | 587 | 601 | 616 | 632 | 648 | 664 | 680 | 697 | 715 | 733 | 751 | 770 | 789 | 809 | 829 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Costau gwaredu Uniongyrchol | 3,498 | 3,585 | 3,675 | 3,767 | 3,861 | 3,958 | 4,057 | 4,904 | 5,263 | 5,395 | 5,530 | 5,657 | 5,788 | 5,921 | 6,058 | 6,198 |
| Treth Tirlenwi | 1,746 | 2,220 | 2,590 | 2,989 | 3,397 | 3,517 | 3,640 | 3,731 | 3,825 | 3,920 | 4,018 | 4,078 | 4,138 | 4,199 | 4,261 | 4,324 |
| Dirwyon Lwfans Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 745 | 979 | 1,214 | 1,449 | 1,633 | 1,816 | 2,000 | 2,183 | 2,631 | 3,079 | 3,528 | 3,977 | 3,956 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Costau casglu | 5,555 | 5,694 | 5,837 | 5,982 | 6,132 | 6,285 | 6,442 | 6,603 | 6,769 | 6,938 | 7,111 | 7,289 | 7,471 | 7,658 | 7,849 | 8,046 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant Rheoli Gwastraff | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) | (3,372) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Costau** | **7,999** | **8,714** | **9,331** | **10,727** | **11,629** | **12,250** | **12,880** | **14,179** | **14,998** | **15,596** | **16,203** | **17,034** | **17,874** | **18,723** | **19,582** | **19,981** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Effaith y Strategaeth | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Costau Ychwanegol GwyriAD (net) | 0 | 38 | 38 | 801 | 810 | 826 | 842 | 859 | 876 | 893 | 911 | 929 | 948 | 967 | 987 | 1,007 |
| Costau Ychwanegol Ynni o wastraff | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,539 | 3,485 | 3,426 | 3,441 | 3,371 | 3,356 | 3,285 | 3,145 |
| Arbedion costau gwaredu | (39) | 35 | 93 | (204) | (199) | (192) | (173) | (915) | (1,476) | (1,529) | (1,584) | (1,626) | (1,683) | (1,733) | (1,793) | (1,865) |
| Arbedion Treth Tirlenwi | 0 | (137) | (308) | (511) | (646) | (735) | (1,011) | (1,125) | (3,603) | (3,693) | (3,786) | (3,842) | (3,898) | (3,956) | (4,014) | (4,073) |
| Arbedion dirwyon tirlenwi | 0 | 0 | 0 | (745) | (979) | (1,214) | (1,449) | (1,633) | (1,816) | (2,000) | (2,183) | (2,631) | (3,079) | (3,528) | (3,977) | (3,956) |
| Costau Casglu ychwanegol | 0 | 192 | 611 | 626 | 642 | 658 | 674 | 691 | 708 | 726 | 744 | 763 | 782 | 801 | 821 | 842 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm y strategaeth** | **7,960** | **8,842** | **9,765** | **10,694** | **11,257** | **11,593** | **11,763** | **12,056** | **13,226** | **13,478** | **13,731** | **14,068** | **14,315** | **14,630** | **14,891** | **15,081** |

**ATODIAD 2**

## *CYMHARIAETH CYNLLUN GWEITHREDU GYDA GWNEUD DIM*



---

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Member:**
**Dim yn fater lleol : ***Not a local matter*

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

*Nothing to add in terms of propriety.*

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Mae'n anochel y bydd cost gwaredu gwastraff yn cynyddu o ganlyniad i godiadau mewn treth tirlenwi, ayb. Cadarnhaf fod gweithredu strategaeth wastraff yn anorfod, gan na fyddai'n fforddiadwy nac yn gynaliadwy i "wneud dim". Yn amlwg, megis dechrau mae'r gwaith ar rai cynlluniau mawr arloesol, ac nid yw'n bosib amcangyfrif yr union gostau yn gywir.

Er hynny, daw rhai o'r costau sylweddol a amcangyfrifir yma gan ymgynghorwyr annibynnol, ac yn gyffredinol mae ei seiliau yn ymddangos yn rhesymol, ond bydd mwy o waith i'w wneud i addasu'r ffigyrau fel sy'n briodol. Mae'n glir y bydd raid newid rhai o arferion pobl Gwynedd, ond mae hynny yn anochel ac rwy'n cefnogi'r strategaeth gerbron.

Wrth gwrs, bydd angen symiau sylweddol ar gyfer elfennau o'r strategaeth, a bydd achosion busnes yn mynd drwy'r broses bidiau ar gyfer y rheiny, felly ffigyrau amlinellol sydd yma, a gofynnir i'r Cyngor gytuno i'r egwyddor ei fod yn fodlon buddsoddi ar y lefelau yma er mwyn gwireddu'r strategaeth.

--

It is inevitable that the cost of waste disposal will rise due to increases in landfill tax, etc. I confirm that implementation of a waste strategy is unavoidable, as it would be neither affordable nor sustainable to "do nothing". Obviously, the work on some large ground breaking schemes has only just commenced, and it is not possible to estimate the exact cost with accuracy.

However, some of the costs estimated here have come from specialist consultants, and generally their basis appears to be reasonable, but additional work will be carried out to adjust these figures as necessary. Clearly, some plans will mean changing Gwynedd residents' routine, but that is inevitable and I support the strategy submitted here.

Of course, substantial amounts of investment will be needed for elements of the strategy, and business cases will go through the bidding process in respect of those, therefore the figures submitted here are preliminary estimates, and the Council is asked to agree in principle that it is willing to invest at this level in order to accomplish the strategy.

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**C. Papurau Cefndir/Background Papers**

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**CH. Goblygiadau Polisi/Policy Implications**

Y strategaeth yma fyd dyn gosod y polisi i'w ddilyn yn y cyfnod 2010-2025.

*This strategy sets the policy to be followed for the period 2010-2025.*

**EITEM**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU YR AMGYLCHEDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **3 Rhagfyr, 2009** |
| **TEITL** | **Cyflawni'r Strategaeth Wastraff** |
| **AWDUR** | **Gwyn Morris Jones**<br>**Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd W. Gareth Roberts** |
| | |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Camau gweithredu a datblygiadau argymhellir yn ystod y cyfnod 2010 hyd at 2025 ar gyfer rheoli gwastraff ynghyd ac oblygiadau ar y Cyngor o beidio gweithredu.** |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | **Addasrwydd y Cynllun Gweithredu i gwrdd â Strategaeth Wastraff y Cyngor a'r Cynulliad** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **Adrodd ar y mater i'r Bwrdd ac yna i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod 25 Chwefror, 2010 (ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu hwn)** |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 I bwrpas cwrdd â thargedau ailgylchu, compostio a chyfyngiadau tirlenwi, mae Strategaeth Wastraff y Cyngor yn cynnwys Cynllun Gweithredu (gweler Atodiad A) sydd yn nodi'r camau, newidiadau, datblygiadau a darpariaethau fydd ei angen rhwng 2005 a 2010.

Prif bwrpas yr Adroddiad hwn yw egluro'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2010 hyd 2025; i amlygu'r camau, newidiadau, datblygiadau a'r darpariaethau fydd ei angen ar gyfer cwrdd â Strategaeth Wastraff y Cyngor a thargedau newydd ac uchelgeisiol y Cynulliad ar gyfer lleihau gwastraff, ailgylchu, compostio a chyfyngiadau ar dirlenwi.

**Dylid nodi bod angen datblygu technoleg amgen er mwyn cwrdd â'r cyfyngiadau sylweddol ar dirlenwi yn ystod y cyfnod dan sylw, a bod gan y datblygiadau sylweddol hyn oblygiadau hir dymor o ran ymrwymiadau cytundebol, partneriaethol ac ariannol i'r Cyngor.**

I amlygu'r achos a chyfiawnhad am y datblygiadau argymhellir yn y cyfnod 2010 i 2025, mae'r Adroddiad yn cynnwys ystyriaeth o oblygiadau peidio gweithredu ar y Cyngor h.y. gwneud dim o'i gymharu â gwireddu'r datblygiad.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae Strategaeth Wastraff y Cyngor yn berthnasol i wastraff bwrdeistrefol sef yr holl wastraff a gesglir o dai; sbwriel a gesglir o finiau stryd, drwy ysgubo'r strydoedd a thrwy lanhau'r traethau; gwastraff a gesglir yn ein canolfannau ailgylchu, parciau a thiroedd bwrdeistrefol; a gwastraff masnachol a gesglir lle mae cytundeb gyda Chyngor Gwynedd mewn bodolaeth.

2.2 Mae rheoli gwastraff bwrdeistrefol yn un o'r materion amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol sy'n wynebu Cymru. Mae Strategaeth Wastraff y Cyngor yn anelu at wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru i reoli gwastraff yn gynaliadwy a thrwy hynny warchod yr amgylchedd, iechyd dynol a sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol.

2.3 Mae Cyngor Gwynedd yn adnabod y Strategaeth Wastraff fel un o'i brif strategaethau sydd yn derbyn blaenoriaeth o ran ei amcan o wireddu Cymunedau Gynaladwy. Gellir crynhoi'r Strategaeth Wastraff fel a ganlyn:

**"i leihau ar y gwastraff a gynhyrchir ac i leihau yn sylweddol ar ein dibyniaeth ar dirlenwi drwy gynyddu lefelau ailgylchu a chompostio gwastraff".**

2.4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod targedau ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar gyfer cynyddu ailgylchu a chompostio - targedau sydd yn cynyddu'n flynyddol. Yn ychwanegol, gosodir lwfansau ar bob Awdurdod Lleol o ran y gwastraff pydradwy waredir drwy dirlenwi. Mae'r 'lwfans tirlenwi' statudol hwn yn gostwng yn flynyddol ac mae cosbau ariannol sylweddol (o leiaf £200/tunnell dros y lwfans) ar unrhyw awdurdod lleol sy'n methu cadw oddi fewn ei lwfans.

.

2.5 Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (LL.C.C.) wedi ymgynghori yn ddiweddar ar ei strategaeth, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un : Cenedl un Blaned'. Bu i'r mater dderbyn sylw'r Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod 11, Mehefin, 2009.

Dyma grynodeb o'r prif elfennau yn y Strategaeth drafft newydd:

- amcan hir dymor i wneud Cymru yn genedl ddiwastraff erbyn 2050
- amcan tymor canolig i gael cymdeithas 'ailgylchu uchel' erbyn 2025
- gosod targed bod 70% o wastraff i'w ailgylchu/compostio erbyn 2025
- cyfyngu ar yr hyn ellir ei dirlenwi o wastraff bwrdeistrefol yn flynyddol i 10% yn 2020 a 5% yn 2025
- pwyslais ar wahanu ac ymdrin â gwastraff bwyd
  -rhaid compostio 12% o wastraff bwyd erbyn 2012/13
  -rhaid compostio 14% o wastraff bwyd erbyn 2015/16
  -rhaid compostio 16% o wastraff bwyd erbyn 2024/25
- pwyslais ar ddatblygu technoleg Anaerobig Dreuliad (AD) ar gyfer gwastraff bwyd
- cyfyngiad ar y gwastraff gellir ei ddefnyddio ar gyfer creu ynni o 30% yn 2024/25
- cyfyngiad o 150kg gwastraff tŷ pob person erbyn 2024/25.

Fel rhan o'r Strategaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cynhyrchu 'cynllun sector' ar gyfer gwastraff bwrdeistrefol. Rhagwelir bydd y cynllun sector hwn yn cynnwys mwy o fanylion parthed y targedau a osodir yn flynyddol hyd 2025 gan gynnwys cadarnhad o'r union dargedau fydd yn cael eu gosod ar ailgylchu ac ymdrin â gwastraff bwyd. 'Rwyf ar ddeall na fydd y cynllun sector hwn ar gael hyd gwanwyn 2010.

**Dylid nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried gwneud y targedau ailgylchu a chompostio (gan gynnwys targedau ar fwyd) yn rhai statudol h.y. bydd dirwyon yn ddisgwyliedig pe na fyddent yn cael ei gyrraedd gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn ychwanegol i'r dirwyon posib gyda'r lwfans tirlenwi gwastraff pydradwy. Disgwyliwn gadarnhad o hyn yn y cynllun sector.**

## 3. DATBLYGIADAU HYD HEDDIW (2005 – MEDI 2009)

3.1 Mae braslun o'r Cynllun Gweithredu sy'n deillio o'r Strategaeth Wastraff yn Atodiad 'A' o'r Adroddiad hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn berthnasol i'r blynyddoedd 2005 i 2010.

3.2 Mae'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol ein bod wedi datblygu Cynllun Gweithredu llawer iawn fwy manwl sef y Rhaglen Waith 5 'mlynedd ar gyfer 2005/06 hyd 2009/10 (gweler Atodiad B).

Bu i'r Rhaglen Waith 5 'mlynedd gael ei ddatblygu ar sail:

- Y Strategaeth Wastraff
- Adolygiad Gwerth Gorau
- Adolygiad Cyfoedion
- Cynllun Gwella'r Gwasanaeth, Cyfadran, Cyngor
- Targedau'r Cynulliad a gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cafodd holl elfennau'r Rhaglen Waith 5 'mlynedd ei fantoli er mwyn:

- adnabod costau cyfalaf a refeniw blynyddol ar y Cyngor
- adnabod bidiau cyfalaf a refeniw a lle 'roedd angen ceisiadau am grantiau.

Mae'r Rhaglen Waith 5 'mlynedd wedi ei ddefnyddio i bwrpas monitro perfformiad a'i ddefnyddio fel ein rhaglen weithredol.

3.3 Dyma'r prif ddeilliannau/datblygiadau ers 2005 hyd heddiw (Medi 2009):

- Cau safle gwaredu Cilgwyn
- Datblygu safle gwaredu Llwyn Isaf
- Datblygu safle gwaredu Ffridd Rasus - i gwrdd â gofynion amgylcheddol statudol newydd
- Datblygu 5 canolfan ailgylchu newydd (safle mwynderau) – Harlech, Bala, Bangor, Caernarfon, Pwllheli
- Datblygu Canolfan Adennill Deunyddiau (Caergylchu)
- Datblygu 2 Cyfleuster Compostio Mewn Llestr – Penhesgyn a Harlech
- Ymestyn cynllun ochr y ffordd (bocs glas) i gasglu deunyddiau ailgylchu i dros 90% o gartrefi Gwynedd
- Ymestyn y cynllun casglu bocs glas i gynnwys casglu cardfwrdd a photeli plastig
- Darparu casgliadau gwastraff gardd i 70% o gartrefi Gwynedd
- Sefydlu dros 30 banciau ailgylchu/cymunedol newydd
- Ehangu casglu gwastraff gardd i gynnwys gwastraff bwyd
- Ehangu cynlluniau ailgylchu gwastraff masnachol

+ newid casgliadau ailgylchu (bocs glas) i wythnosol.

3.4 Bydd aelodau'r Pwyllgor yn sylwi bod y mwyafrif llethol o'r Cynllun Gweithredu eisioes wedi ei gyflawni. Mae blwyddyn arall yn weddill o'r Cynllun Gweithredu gyda'r bwriad i:

- Rhesymoli cylchdeithiau Casglu Gwastraff/Ailgylchu Ardal Arfon: Ionawr 2010
- Ymestyn casgliadau gwastraff gwyrdd a bwyd i weddill Arfon: Ionawr 2010
- Ehangu casgliadau ailgylchu gwastraff masnachol ar gyfer deunyddiau ailgylchu a gwastraff bwyd
- Sefydlu 2 canolfan ailgylchu newydd
- Sefydlu Canolfan Adennill Deunyddiau arall yn Ne'r Sir
- Diogelu Safle Gwaredu Cilgwyn.

**3.5 O ganlyniad i'r hyn ddisgrifir yn 3.3 a 3.4 uchod, bydd y Cynllun Gweithredu a sefydlwyd yn 2005 wedi ei gyflawni.**

## 4. PERFFORMIAD HYD HEDDIW (2005 – MEDI 2009)

4.1 Mae'r tabl sy'n dilyn yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn ystod y cyfnod yn erbyn y targedau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Perfformiad 2005 – Medi, 2009

| Ailgylchu/Compostio | | | | | Lwfans Tirlenwi (Gwastraff Bwrdeistrefol Pydradwy) | | | Cyfanswm Gwastraff Bwrdeistrefol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Targed (ailgylchu a chompostio) % | Perfformiad % | Ailgylchu % | Compostio % | Tunelli a Ganiateir t | Perfformiad t | Lwfans wedi ei ddefnyddio % | Cyfanswm Tirlenwi t | Cyfanswm Gwastraff Bwrdeistrefol t |
| 2005/06 | | 23.88% | 12.95% | 10.93% | 42076 | 35405 | 84% | 60,180 | 80,612 |
| **2006/07** | **25** | **25.24%** | **14.54%** | **10.70%** | **38796** | **35703** | **92%** | **59,932** | **81,645** |
| 2007/08 | | 32.04% | 17.61% | 14.43% | 35512 | 31867 | 90% | 54,477 | 82,661 |
| 2008/09 | | 35% | 18.79% | 16.06% | 32229 | 28717 | 89% | 50,512 | 79,866 |
| Medi, 09 | | 40.01% | 19.60% | 20.41% | (14462.5) | (12494) | (86%) | (25,220) | (43,235) |
| **2009/10** | **40** | | | | **28925** | | | | |

**4.2 O'r tabl uchod, gellir gweld bod Cyngor Gwynedd, o ganlyniad i wireddu'r Cynllun Gweithredu, wedi cyrraedd targed ailgylchu a chompostio y Cynulliad a osodwyd yn 2006/07 ac eisioes wedi cyrraedd targedau ailgylchu a chompostio diwedd Mawrth, 2010 sef 40%. Yn ystod y cyfnod, cadwyd o fewn y lwfans tirlenwi a ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gosbau ariannol o ganlyniad.**

4.3 Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd cynnydd ar gyfartaledd o 1% pob blwyddyn yng nghyfanswm gwastraff bwrdeistrefol yng Ngwynedd heblaw am 2008/09 lle bu gostyngiad.

## 5. TARGEDAU I'W CYRRAEDD I'R DYFODOL (2010-2025)

5.1 Mae'r tablau isod yn crynhoi yr hyn ydym ar ddeall fydd targedau a osodir gan y Cynulliad ar gyfer y cyfnod dan sylw. Bydd yr union ffigyrau targed yn cael ei gadarnhau gan y Cynulliad ar ddechrau 2010 a phan dderbynnir y Cynllun Sector.

| **Targedau ar gyfer:** | **Targedau am bob Blwyddyn Targed** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2009/2010** | **2012/2013** | **2015/2016** | **2019/2020** | **2024/2025** |
| Isafswm lefelau ailgylchu/compostio (neu AD). | 40% | 52% | 58% | 64% | 70% |
| Isafswm Cyfrannu ail-ddefnyddio/ailgylchu/ Compostio/sydd rhaid dod o ffynhonell wahanu (casgliad wrth y ffordd, pwyntiau cymunedol neu canolfan ailgylchu). | 80% | 80% | 80% | 80% | 80% |
| Lefelau isafswm compostio (neu AD) o wastraff bwyd wedi wahanu sydd rhan o'r targedau ailgylchu a compostio a nodi'r uchod. | - | 12% | 14% | 16% | 16% |
| Uchafswm lefelau o wastraff gweddilliol fesul preswylydd y flwyddyn. | - | 295kg | 258kg | 210kg | 150kg |
| Uchafswm lefel o dirlenwi. | - | - | - | 10% | 5% |
| Uchafswm lefelau o ynni o wast. | - | - | 42% | 36% | 30% |

<u>Lwfans Tirlenwi yn ystod y cyfnod</u>

| **Blwyddyn** | **Tunelli** |
|---|---|
| | |
| 2009/10 | 28,925 |
| 2010/11 | 28,909 |
| 2011/12 | 25,238 |
| 2012/13 | 21,567 |
| 2013/14 | 20,649 |
| 2014/15 | 19,731 |
| 2015/16 | 18,814 |
| 2019/20 | 15,143 |
| 2024/25 | 5,000 |

**5.2 Dylid nodi targedau uchelgeisiol (hyd at 70%) ar gyfer ailgylchu a chompostio ynghyd a'r angen i gynyddu ar gasglu gwastraff bwyd o 2012/13 ymlaen. Mae'r lwfans tirlenwi yn gostwng yn sylweddol yn 2012/13 ac erbyn 2020, 10% o'r holl wastraff fydd posib ei dirlenwi yn gostwng i 5% yn 2025. Mae cyfyngiad ar faint o wastraff y medrwn ei losgi ar gyfer creu ynni o 2015/16 ymlaen, gyda gostyngiad i 30% yn 2024/25.**

## 6. SUT I GYFLAWNI'R TARGEDAU - CYNLLUN GWEITHREDU 2010-2025

*Rhagarweiniad*

*Yn Atodiad C o'r Adroddiad hwn mae tabl yn crynhoi yr ystod o ddeunyddiau ddisgwylir mewn gwastraff bwrdeistrefol. Yn dilyn gwaith ymchwil gan gwmni Eunomia ar ran y Cynulliad, mae'r cyfrannau fesul deunydd wedi'i hadnabod mewn canrannau o'r cyfanswm.*

*Eleni, rhagwelir bydd y cyfanswm o wastraff bwrdeistrefol yng Ngwynedd o ddeutu 82000 tunnell ac mae'r tabl yn cynnwys ein hamcan o'r tunelli, fesul deunydd, y byddwn wedi ei dderbyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, sef 2009/10.*

*Mae'r tabl yn cynnwys y tunelli, fesul deunydd, bydd angen i ni ei ddidoli ar gyfer cyrraedd targedau ailgylchu/compostio y Cynulliad sef 52% (2012/13), 64% (2015/16) a 70% (2024/25).*

*Dylid nodi y bydd cynnydd yng nghyfanswm gwastraff bwrdeistrefol dros y cyfnod (gweler Rhan 7 o'r Adroddiad hwn). Mae'r tabl yn dangos y sefyllfa heb gynnydd yn y cyfanswm gwastraff.*

*Gellir gweld , o'r tabl yn Atodiad C, bod angen cynnydd sylweddol yn yr hyn gesglir o'r deunyddiau canlynol, sef: bwyd, cardfwrdd, papur, plastigion a chaniau – os ydym am gyrraedd y targedau osodir yn y cyfnod dan sylw. Mae'r Cynllun Gweithredu argymhellir ac sydd yn dilyn yn deillio ac yn seiliedig ar yr angen hwn.*

6.1 Dyma'r camau/datblygiadau argymhellir bydd angen eu gweithredu yn ystod y cyfnod i gwrdd â'r targedau ac i bwrpas osgoi dirwyon, cosbau ariannol a chynnydd sylweddol mewn costau i'r Cyngor:

**6.1.1 Rhesymoli Cylchdeithiau Ardal Arfon – Ionawr 2010**

- newid casgliadau ailgylchu (bocs glas) i wythnosol
- ymestyn casgliadau gardd a bwyd i weddill yr Ardal (o ddeutu 9000 eiddo yn weddill)
- i sicrhau cyrraedd targed ailgylchu/compostio 31 Mawrth, 2010, sef 40%.

**6.1.2 Adolygu Gwastraff Masnachol 2009/10 i 2010/11**

- ymestyn y deunyddiau ailgylchu a gesglir i fasnachwyr
- sicrhau gorsaf ar gyfer didoli deunyddiau ailgylchu
- darparu gwasanaeth casglu bwyd
- sicrhau ffioedd gwahaniaethol i hybu ailgylchu a gwahanu bwyd.

**6.1.3 Darparu Canolfannau Ailgylchu Ychwanegol 2010/11**

- 2 safle newydd sef Dolgellau a Blaenau Ffestiniog dan ystyriaeth
- adolygu lleoliad Rhyngddwyryd/Porthmadog
- cynyddu lefelau ailgylchu'r canolfannau (yn 63% ar hyn o bryd)
- ymdrin ac ystod ehangach o ddeunyddiau
- adolygu defnydd a darpariaeth.

**6.1.4 Darparu Canolfan Adennill Deunyddiau yn Ne-Gwynedd 2010/11**

- Safle yn Blaenau Ffestiniog dan ystyriaeth.

**6.1.5 Addasiadau i Ganolfan Adennill Deunyddiau Caergylchu 2010-2012**

- ar gyfer prosesu ystod mwy o ddeunyddiau
- ar gyfer ymdrin â chyfaint mwy o ddeunyddiau.

**6.1.6 Ymestyn Casgliadau Ailgylchu (bocs glas) i ddeunyddiau eraill 2010-2012**

- i gynnwys casglu plastigion gwael
- ystyried ymarferoldeb casglu 'tetrapacs'.

**6.1.7 Lleihau ar y cynhwysydd gwastraff gweddilliol (2010 ymlaen)**

- bin gwyrdd presennol safonol yn 240 litr – angen ei adolygu oherwydd gostyngiad yn ei ddefnydd
- ystyried yr opsiwn o newid amlder casglu.

### 6.1.8 Mesurau Eraill i Gynyddu Ailgylchu a Chompostio (2012-2017)

- ymgyrchoedd addysgu, codi ymwybyddiaeth a gorfodaeth
  - gan gynnwys mabwysiadu polisiau i gefnogi hyn
- cwblhau'r rhaglen o newid pwyntiau cymunedol
  - i gynnwys darpariaeth ailgylchu/casglu gwastraff bwyd
- adolygu ein trefniadau casglu gwastraff gardd
  - ystyriaeth o godi ffi am y ddarpariaeth
  - adolygu maint y cynhwysydd
- addasiadau i'r cylchdeithiau casglu gwastraff
  - i adlewyrchu'r pwysau cynyddol ar ailgylchu
  - i adlewyrchu'r lleihad yn y gwastraff gweddilliol
  - i hwyluso/symlhau trefniadau i drigolion
  - i sicrhau effeithiolrwydd
- ymestyn darpariaeth ailgylchu ar ein strydoedd
  - biniau ailgylchu ar y stryd.

### 6.1.9 Ymdrin â Gwastraff Bwyd (Prosiect GwyriAD) 2012/13 ymlaen

Er mwyn cadw oddi-fewn i lwfansau tirlenwi gwastraff pydradwy ac er mwyn cyrraedd targedau'r Cynulliad ar gyfer gwastraff bwyd bydd angen i'r Cyngor gael darpariaeth Anaerobig Dreuliad (AD) i bwrpas compostio'r bwyd.

Bu i'r mater hwn dderbyn sylw'r Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod 11 Mehefin, 2009 lle derbynwyd cefnogaeth y Pwyllgor i gyflwyno achos busnes amlinellol i'r Cynulliad ar gyfer AD.

Yn Atodiad Ch o'r Adroddiad hwn mae ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â Prosiect GwyriAD ar ffurf taflen gwybodaeth.

Oherwydd bod gostyngiad sylweddol yn y targed lwfans tirlenwi gwastraff pydradwy yn y flwyddyn 2012/13, mae brys i geisio sicrhau'r ddarpariaeth erbyn Ebrill, 2012 neu yn fuan wedi hynny.

Er bod gan y Cyngor eisioes 2 orsaf compostio mewn llestr ar gyfer compostio gwastraff gardd a bwyd (Ffridd Rasus, Harlech a Phenhesgyn - ar y cyd gyda Cyngor Môn a Chonwy), ni fydd hyn yn ddigonol ar gyfer ein hanghenion i'r dyfodol a bydd angen AD mewn lle o 2012/13 ymlaen i ymdrin â rhwng 8000 - 12000 tunnell o wastraff bwyd.

Mae rhaglen uchelgeisiol wedi ei osod ar gyfer Prosiect GwyriAD fel a ganlyn:

- Dogfen Prosiect Cychwynnol: cymeradwyd Ebrill, 2009
- Dewis Safle Cyfeiriol (Reference Solution) – sef Llwyn Isaf, Clynnog
- Achos Busnes Amlinellol: cymeradwyd Awst, 2009
- Cymeradwyaeth Amodol: derbynwyd Awst, 2009
- Archwiliad ‘Gateway’ Rhan 1: pasiwyd 9 Hydref, 2009
- Asesiad Cychwynnol o Ymgeiswyr: Hydref/Tachwedd, 2009
- Cyfnod Trafodaethau Cystadleuol: Rhagfyr, 2009 – Awst, 2010
- Dethol Darparwr: Medi, 2010
- Achos Busnes Terfynol: Medi/Hydref, 2010 - angen sylw’r Pwyllgor Craffu, cymeradwyaeth y Bwrdd a LL.C.C.
- Penodi Darparwr: Rhagfyr, 2010
- Cychwyn Adeiladu: Ebrill, 2011
- AD yn weithredol: Ebrill i Awst, 2012.

Cwmni preifat fydd yn adeiladu a gweithredu’r AD a hynny am gyfnod o 15 ‘mlynedd. Wedi’r cyfnod hwn bydd y ddarpariaeth yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor.

Yr ydym fel Cyngor wedi derbyn grant gan y Cynulliad i bwrpas ariannu’r gwaith pwrcasu/datblygu’r Achos Busnes Terfynol.

Mae grant ychwanegol gan y Cynulliad ar gyfer y costau cyfalaf o adeiladu’r AD gyda’r darparwr eu hunain yn ariannu’r gweddill yn ogystal â chostau ei weithredu. Amcangyfrifir bydd cost adeiladu’r AD rhwng £6 miliwn a £7 miliwn.

Bydd disgwyl i’r Cyngor ddarparu’r gwastraff bwyd i’r orsaf AD a thalu ffi giât i’r darparwr fesul tunnell a gyflwynir. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu tuag at 15% o’r gost ffi giât.

Wedi cyfnod o negodi gyda sawl darparwr (trafodaethau cystadleuol), bydd un darparwr yn cael ei ddewis ar gyfer datblygu’r cynllun yn fanylach. Yn ddilynol, bydd Achos Busnes Terfynol yn cael ei gynhyrchu fydd yn destun sylw y Pwyllgor Craffu hwn, ac angen cymeradwyaeth Bwrdd y Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn y gellir mynd i gytundeb gyda’r darparwr ar gyfer adeiladu a gweithredu’r AD.

### 6.1.10 Casglu Gwastraff Bwyd yn Wythnosol (2011/12)

Mae Prosiect GwyriAD yn cynnwys yr angen i gasglu bwyd yn wythnosol o dai Gwynedd. Mae treialon sydd wedi eu cynnal yn siroedd eraill Cymru yn dangos y bydd angen newid i gasglu yn wythnosol er mwyn sicrhau bod targedau’r

Cynulliad ar gyfer bwyd (o 2012 ymlaen) yn cael ei gyrraedd ac er mwyn gwyro gwastraff bwyd o dirlenwi drwy ddefnydd y dechnoleg AD.

Er mwyn sicrhau trefniadau casglu bwyd yn wythnosol i drigolion Gwynedd bydd angen:

- newidiadau i'r fflyd (loriau lludw)
- pwrcasu a dosbarthu biniau brown 22 litr i 70% o dai Gwynedd (bydd 30% o dai eisioes wedi derbyn bin 22 litr)
- sicrhau grant cysylltiol (i'r grant ar gyfer GwyriAD) gan y Cynulliad ar gyfer yr uchod.

Pe byddai'r grant cysylltiol ar gael ynghynt, yna gellir cynnig casgliadau bwyd yn wythnosol cyn 2011/12.

**6.1.11 Ymdrin â Gwastraff Gweddilliol (Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru). (2016-2017 ymlaen)**

Gyda gostyngiad blynyddol yn y lwfans tirlenwi statudol gellir gweld bod y Cyngor yn wynebu risgiau sylweddol pe byddai yn parhau yn ddibynnol ar dirlenwi ar gyfer ymdrin â gwastraff i'r dyfodol ac yn enwedig o 2018 ymlaen. Mae strategaeth newydd y Cynulliad yn rhoddi cyfyngiad ar dirlenwi o 10% o'r cyfanswm gwastraff yn 2020 sy'n lleihau i 5% yn 2025.

O ganlyniad, mae angen technoleg amgen i ymdrin â'r gwastraff gweddilliol h.y. y gwastraff na ellir ei ailgylchu neu gompostio yn ystod y cyfnod dan sylw.

Byddai cost a risgiau sylweddol i'r Cyngor mewn pwrcasu a sefydlu cyfleuster ei hunan ar gyfer gwyro ac ymdrin â gwastraff gweddilliol o dirlenwi. Mae'r Pwyllgor Craffu eisioes yn ymwybodol bod Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sefydlu partneriaeth ar y cyd gyda Siroedd Môn, Conwy, Dinbych a Fflint i bwrpas cael datrysiad ar gyfer gwastraff gweddilliol bwrdeistrefol y rhanbarth.

Cyngor Sir y Fflint sydd yn arwain ar y prosiect gyda'r Cynulliad yn cynorthwyo gydag ariannu'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu prosiect h.y. cyfnod pwrcasu.

Mae'r pum Cyngor wedi ffurfio cyd-bwyllgor gyda dau Aelod etholedig yn cynrychioli pob awdurdod ar gyfer llywio'r Prosiect Rhanbarthol. Cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd yw'r Uwch Arweinydd Portffolio: Cyng. W Gareth Roberts a'r Arweinydd Portffolio: Cyng. Arwel Pierce.

Cefnogir y cyd-bwyllgor gan Fwrdd Prosiect sy'n cynnwys uwch swyddogion a swyddogion arbenigol o'r pum Cyngor. Mae tîm prosiect o dri swyddog wedi ei sefydlu ar gyfer datblygu'r prosiect dan arweiniaeth y Cyfarwyddwr Prosiect sef Mr Stephen Penny. Mae'r Cynulliad yn ariannu'r tîm hwn.

Mae amserlen amlinellol y Prosiect Rhanbarthol fel a ganlyn:

- Dogfen Prosiect Cychwynnol - Rhagfyr, 2008
- Penodi Ymgymerwyr (technegol, ariannol a chyfreithiol) - Gorffennaf, 2009
- Dewis Safleoedd Cyfeiriol (Reference Solutions) - Medi - Tachwedd, 2009
- Achos Busnes Amlinellol – Rhagfyr, 2009
  (fydd angen sylw'r Pwyllgor Craffu, cymeradwyaeth y Bwrdd yn Chwefror 2010 cyn ei gyflwyno i LL.C.C.)
- Asesiad Cychwynnol o Ymgeiswyr - Gorffennaf, 2010
- Cyfnod Trafodaethau Cystadleuol - Awst i Gorffennaf, 2011
- Dethol Darparwr – Rhagfyr, 2011
- Achos Busnes Terfynol - Rhagfyr 2011
  (fydd angen sylw'r Pwyllgor Craffu, cymeradwyaeth y Bwrdd a LL.C.C.)
- Penodi Darparwr – Chwefror, 2012
- Cychwyn Adeiladu (wedi sicrhau hawl cynllunio) - Ionawr, 2014
- Cyfleuster yn weithredol: 2016-2017.

Fel gyda Prosiect GwyriAD, cwmni preifat fydd yn adeiladu a gweithredu'r ddarpariaeth a hynny am gyfnod o 25 'mlynedd. Wedi'r cyfnod hwn bydd y ddarpariaeth yn cael ei drosglwyddo i'r bartneriaeth sirol.

Bydd y dechnoleg a ddefnyddir ar gyfer ymdrin â gwastraff gweddilliol y pum Sir, yn fater i'r darparwr gynnig ac i'r bartneriaeth gytuno iddo ar sail achos busnes, sef yr Achos Busnes Terfynol. Bydd yr Achos Busnes Terfynol yn destun cymeradwyaeth Bwrdd y Cyngor a'r Cynulliad cyn gellir symud i'r cam nesaf o adeiladau a gweithredu'r cyfleuster. Mae posibiliad mai technoleg Ynni o Wastraff a ddatblygir, lle bydd y gwastraff gweddilliol yn cael ei losgi ar gyfer creu ynni, efallai mewn ffurf trydan neu ager ar gyfer gwresogi. Rhaid i'r dechnoleg amgen ein galluogi i gyfarfod a thargedau 10% (2020) a 5% (2025) uchafswm a ellir tirlenwi. Byddai technoleg Ynni o Wastraff yn sicrhau ein bod yn cwrdd a'r targedau hyn. Dylid nodi cyfyngiadau yn strategaeth newydd y LL.C.C. ar gyfer hyn lle mae gostyngiad (yn 2005) i fwyafswm canran o 30% o'r holl wastraff gellir ei drin gyda'r dechnoleg hwn.

Er bod y Cynulliad yn cynorthwyo gyda'r costau datblygu/pwrcasu, bydd yn ofynnol i bob Sir, gan gynnwys Gwynedd, gyfrannu hyd at £800k tuag at gostau pwrcasu'r ddarpariaeth. Mae Cyngor Gwynedd eisioes wedi neilltuo arian tuag at gwrdd â'r costau hyn.

Mae grant ychwanegol gan y Cynulliad ar gyfer y costau cyfalaf o adeiladu'r ddarpariaeth gyda'r darparwr ei hunain yn ariannu'r gweddill yn ogystal â chostau ei weithredu.  Amcangyfrifir bydd cost adeiladu'r ddarpariaeth rhwng £80 miliwn a £100 miliwn.

Bydd disgwyl i Gyngor Gwynedd ddarparu'r gwastraff gweddilliol i'r cyfleuster a thalu ffi giât (ar lefel gyfartal a'r siroedd eraill yn y bartneriaeth) i'r darparwr fesul tunnell a gyflwynir.  Bydd LL.C.C. yn cyfrannu tuag at 25% o gost y cynllun, gyda'r cyfraniad yn cael ei rannu rhwng costau datblygu a'r ffi giât. Amcangyfrifir bydd Cyngor Gwynedd angen i'r cyfleuster ymdrin â 27000 - 30000 tunnell o'i wastraff gweddilliol blynyddol fydd ddim yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio/trin mewn proses AD.

Ar gyfer creu yr Achos Busnes Amlinellol, rhaid cael safle neu safleoedd cyfeiriol (reference solution) ac mae opsiynau dan ystyriaeth ar hyn o bryd.  Mae posibiliad i opsiwn o ddau gyfleuster gael ei ddewis h.y. un yn y Gogledd Orllewin a'r llall yn Sir y Fflint.  Mae rhagor o waith ei angen cyn cadarnhau hyn.

Pe na fyddai cyfleuster yn y Gogledd Orllewin yna bydd yn ofynnol cael rhwydwaith o orsafoedd trosglwyddo mewn lle yng Ngogledd Cymru i hwyluso a chludo'r gwastraff gweddilliol yn effeithiol - gall hyn olygu'r angen am orsafoedd trosglwyddo gwastraff yng Ngwynedd.

**Mae'n hynod bwysig nodi na fydd cyfleuster ar gyfer ymdrin â gwastraff gweddilliol ar gael tan o leiaf 2016.  Mae hyn yn rhoddi pwysau ychwanegol arnom fel Cyngor i sicrhau cynnydd yn y lefelau ailgylchu a chompostio, sicrhau cynnydd mewn casglu gwastraff bwyd erbyn y cyfnod 2015 i 2017 pryd fydd ein safle tirlenwi yn Llwyn Isaf wedi cau.**

### 6.1.12 Lleihau ar ein Dibyniaeth ar Dirlenwi (2010 – 2025)

- Safle Gwaredu Llwyn Isaf
  - rhaglen o adeiladu celloedd/capio hyd 2013
  - hawl cynllunio presennol i waredu hyd Rhagfyr 2013
  - tebygrwydd bydd y gell olaf yn llawn 2014-2015 (dibynnol ar lefel ailgylchu, compostio a GwyriAD)
  - angen cau a diogelu'r safle 2015
  - diogelu ac ol-ofalaeth (am 60 mlynedd)
- Safle Gwaredu Ffridd Rasus
  - rhaglen o adeiladu celloedd/capio hyd 2025
  - adolygu'r ddarpariaeth (2017-2025)
- Safle Gwaredu Cilgwyn
  - adeiladu gorsaf trin y trwytholch 2010/11
  - cap cyntaf 2011/12
  - diogelu ac ol-ofalaeth (am 60 mlynedd)
  - ail gapio 2025.

## 7. CYFANSODDIAD A THWF GWASTRAFF

7.1 Mae'n hynod bwysig mewn ystyriaethau ar gyfer ymdrin â gwastraff i'r dyfodol cael dealltwriaeth o gyfansoddiad a thwf gwastraff.

7.2 Bydd y Pwyllgor Craffu yn sylwi o 4.3 yn yr Adroddiad hwn, bod cynnydd o 1% yn flynyddol yn y cyfanswm gwastraff bwrdeistrefol yng Ngwynedd yn y cyfnod 2005-2008 er bod dim twf ar yr un raddfa ers hynny.

7.3 Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar hyn, o ymdrechion trigolion i leihau ar y gwastraff gynhyrchir, effaith gwasgiad neu twf yn yr economi ac, o bwys yng Ngwynedd, nifer o ymwelwyr a'r Sir yn ystod y flwyddyn.

7.4 Mae LL.C.C a WRAP (Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau) yn cynnal gwaith ymchwil er mwyn cael gwell dealltwriaeth o wastraff gynhyrchir o dai yng Nghymru. Cynhaliwyd ymchwil tebyg yn 2002. Cynhelir y gwaith ymchwil ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a gwahoddir dros 3000 o gartrefi i gymeryd rhan gan gynnwys 200 o gartrefi yng Ngwynedd. Mae rhan gyntaf o'r archwiliad wedi ei gwblhau mis Gorffennaf eleni a bydd yr ail archwiliad yn digwydd mis Tachwedd - mae hyn yn hynod bwysig er mwyn dadansoddi gwahaniaethau rhwng beth a gynhyrchir yn yr haf o'i gymharu â'r gaeaf. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn allweddol bwysig ar gyfer adnabod natur, graddfa a tharddiad gwahanol fath o wastraff gynhyrchir gan roddi gwybodaeth bwysig fydd yn llywio strategaeth y Cynulliad a phenderfyniadau o ran y dulliau rheoli gwastraff i'r dyfodol ar gyfer uchafu ailgylchu a chompostio. Rhagwelaf y byddwn yn derbyn canlyniad y gwaith ymchwil mis Ionawr nesaf.

7.5 Ar gyfer dadansoddi'r cyfaint o wastraff, yr ydym yn modelu ar gyfer y cyfnod 2010-2025 ar yr un sail a LL.C.C. sef:

- cynnydd o 1% blynyddol yn y cyfanswm hyd 2015/16
- dim cynnydd o 2015/16 hyd 2019/20
- lleihad o 1% blynyddol o 2019/20 hyd 2025.

7.6 Mae'r modelu cyfeirir ato ym Mhwynt 7.5 uchod yn adlewyrchu bwriad LL.C.C. i osod targedau o ran uchafswm gwastraff gweddilliol fesul unigolyn o 2012/13 ymlaen sydd yn gostwng i 150kg pob person yn 2024/25. Mae hyn ar sail bod lleihad yn y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir pob tŷ. Mae hyn yn ddibynnol ar sawl ffactor e.e.

- bod llai o becynnu nwyddau gan y sector manwerthu
- bod deunyddiau pecynnu nwyddau yn rhai a ellir ailgylchu
- bod trigolion yn ceisio lleihau ar eu gwastraff gweddilliol.

**Heb leihad yn y cyfanswm gwastraff, ymdrechion i leihau lefelau gwastraff gweddilliol gan drigolion, bydd yn rhaid ystyried mesurau gorfodaeth o 2015/16 ymlaen er mwyn gwireddu'r Strategaeth.**

7.7 Yn ystod y cyfnod dan sylw gall cyfansoddiad gwastraff tŷ newid. Mae hyn yn elfen bwysig pan ystyrir pa ganrannau o ddeunyddiau ailgylchu ac yn enwedig faint o wastraff bwyd bydd posib ei gasglu a chyfeirio o dirlenwi.

7.8 Yn ystod y cyfnod dan sylw, argymhellir bod treialon rheolaidd yn cael eu gwneud i gadarnhau nad oes newidiadau sylweddol yn y deunyddiau gwastraff gynhyrchir a chesglir o dai - i bwrpas sicrhau bod y rhaglen waith yn addas a bod y targedau ar gyfer deunyddiau yn gyraeddadwy. Dylid nodi bod posib cael amrywiaethau yng nghyfansoddiad gwastraff ty o un ardal i'r llall ac o un Sir i'r llall.

## 8. NEWID DIWYLLIANT

8.1 Ni ellir gwireddu'r Strategaeth Wastraff heb gefnogaeth trigolion Gwynedd a bod newid mewn diwylliant ac agwedd tuag at ymdrin â gwastraff a gynhyrchir. Mae angen codi ymwybyddiaeth yn ehangach i'r nôd o leihau ein ôl-troed ecolegol, sicrhau cynaladwyedd yn wyneb bygythiadau newid hinsawdd. Mae angen lledaenu'r neges bod cael gwell rheolaeth ar wastraff yn arwain at Wynedd fwy 'gwyrdd' fydd, wedi hynny, yn cyfrannu at yr agenda byd-eang.

8.2 Mae i Aelodau rôl bwysig, rôl arweiniol, yn hyn o beth ac mewn sicrhau bod y Strategaeth Wastraff yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod dan sylw; ac yn ein rhoddi mewn sefyllfa gref fel Cyngor i gyrraedd gofynion yn y maes o 2025 ymlaen (y tymor hwy).

8.3 Yn ystod y cyfnod 2010-2025 bydd angen codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd penodol i bwysleisio pwysigrwydd atal a lleihau gwastraff; yr angen i ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff; yr angen i gynhyrchu ynni o beth sy'n weddill yn hytrach na'i waredu.

8.4 Bydd angen rhaglennu'r newid, sicrhau perchnogaeth Aelodau, cefnogaeth a chydweithrediad trigolion a chodi ymwybyddiaeth drwy'r cyfnod. Mae'n anorfod y byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio dulliau gorfodaeth er mwyn sicrhau cydweithrediad rhai trigolion mewn gwireddu'r newidiadau hyn - a sicrhau cysondeb os bydd yn rhaid gweithredu yn y modd hwn.

## 9. PRIF RISGIAU

Mae'r prif risgiau mewn gwireddu'r Strategaeth Wastraff yn y cyfnod wedi ei amlygu yn y tabl isod, ynghyd â mesurau awgrymir ar gyfer dileu neu liniaru'r risgiau hynny.

| | Prif Risg | Mesurau i ddileu/lliniaru | Cyfeirnod yn yr Adroddiad hwn |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Methu cyrraedd targedau ailgylchu. | Rhesymoli Cylchdeithiau, ailgylchu gwastraff masnachol, datblygu canolfannau ailgylchu, ailgylchu deunyddiau eraill. | 5.1, 6.1.1→ 6.1.8 |
| 9.2 | Methu cyrraedd targedau gwastraff bwyd. | Prosiect GwyriAD, casglu bwyd yn wythnosol. | 5.1, 6.1.9, 6.1.10 |
| 9.3 | Methu cadw oddi fewn i'r lwfans tirlenwi. | Prosiect GwyriAD (2012/13).<br>Prosiect Gweddilliol Rhanbarthol (2016-17).<br>Lleihau cynhwysydd gweddilliol. | 5.1, 6.1.9<br>6.1.11<br>6.1.7 |
| 9.4 | Cyfyngiad ar dirlenwi 2020 (10%), 2025 (5%). | Prosiect Gweddilliol Rhanbarthol yn weithredol. | 5.2, 6.1.11 |
| 9.5 | Lleihad mewn darpariaeth tirlenwi (2015-2017). | Prosiect GwyriAD yn weithredol.<br>Sicrhau cynnydd digonol mewn lefelau ailgylchu a chompostio. | 6.1.9<br>6.1.1→6.1.8 |
| 9.6 | Cynnydd uwch/ gostyngiad is na ragwelwyd yng nghyfanswm gwastraff a gynhyrchir. | Angen sefydlu hyblygrwydd yn y cyfaint gweddilliol ar gyfer y Prosiect Rhanbarthol.<br>Mesurau gorfodaeth, codi ymwybyddiaeth. | 7, 8, 6.1.11 |
| 9.7 | Newid mewn cyfansoddiad gwastraff yn ystod y cyfnod. | Prosiect GwyriAD – angen hyblygrwydd yn y cyfaint bwyd a gytunir i'w gyflenwi.<br>Treialon rheolaidd mewn lle.<br>Newid mewn trefniadau casglu. | 6.1.9<br><br>7.8<br>6.1.8 |
| 9.8 | Diffyg cefnogaeth trigolion ac Aelodau i'r newid. | Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, sicrhau perchnogaeth, mesurau gorfodaeth. | 8.1, 8.2, 8.4 |

## 10. OBLYGIADAU METHU CYFLAWNI

10.1 Mae Atodiad D o'r Adroddiad hwn yn cynnwys graff sydd yn amlygu, mewn termau ariannol i'r Cyngor, beth fyddai oblygiadau peidio gweithredu h.y. gwneud dim (mwy na'r presennol) o'i gymharu â gweithredu'r Cynllun Gweithredu argymhellir dros y cyfnod dan sylw sef 2010-2015.

10.2 Mae'r graff yn dangos effaith ar gyllideb y Cyngor ac yn seiliedig ar gyllideb presennol y Cyngor ar gyfer Rheoli Gwastraff. Nid yw yn cynnwys Grant Rheoli Gwastraff yn Gynaladwy y Cynulliad sydd, eleni, o ddeutu £3 miliwn.

10.3 Mae'r gymhariaeth yn Atodiad D yn grynhoad o waith trwyadl iawn gyflawnwyd ganddom gyda chynhorthwy Cwmni Grant Thornton, sef ein Ymgynghorwyr Ariannol, a chwmni Entec ein Ymgynghorwyr Technegol ar Brosiect GwyriAD a'r Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru.

10.4 Mae'r graff yn amlygu y bydd cynnydd mewn costau rheoli gwastraff dros y cyfnod pa bynnag opsiwn cymerir ond bod gwneud dim gydag oblygiadau ariannol sylweddol uwch ar y Cyngor na'r opsiwn o wireddu'r Cynllun Gweithredu argymhellir.

10.5 Gyda'r opsiwn o wneud dim, h.y. parhau gyda'n dibyniaeth ar dirlenwi, rhagwelir y byddai'r Cyngor erbyn 2010/13 yn denu cosb ariannol o £745k am fynd dros ei lwfans tirlenwi. Byddai hyn yn codi'n flynyddol i ffigwr o £4 miliwn erbyn 2024/25. Pe wireddir y Cynllun Gweithredu, rhagwelir na fydd y Cyngor yn denu'r cosbau ariannol hyn dros y cyfnod.

10.6 Gyda'r opsiwn o wireddu'r Cynllun Gweithredu rhagwelir bydd ychydig gynnydd yn ein costau fel Cyngor yn ddisgwyliedig yn 2011/12 o ganlyniad i'r angen i wneud darpariaeth ar gyfer casglu bwyd yn wythnosol. Rhagwelir bydd ein costau yn sefydlu o ganlyniad i gael AD yn weithredol yn 2012/13 (Prosiect GwyriAD).

10.7 Ar wireddu'r Cynllun Gweithredu rhagwelir cynnydd yn ein costau yn 2016/17 o ganlyniad i'r ffi giât fydd angen ei dalu ar gyfer ymdrin â gwastraff gweddilliol pan fydd y Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol yn weithredol. O 2016/17 ymlaen, gyda Phrosiect GwyriAD a Rhanbarthol yn weithredol ni ragwelir cynnydd o unrhyw sylwedd yng nghostau rheoli gwastraff i'r Cyngor.

10.8 Mae oblygiadau difrifol o beidio gweithredu h.y. gwneud dim wedi'i amlygu yn y graff cymhariaethol yn Atodiad D. Gellir gweld y byddai cynnydd sylweddol mewn costau i'r Cyngor yn deillio o 2012/13 ymlaen.

**10.9 I grynhoi, mae'r oblygiadau ariannol o fethu cyflawni ar y Cyngor o ddeutu £50 miliwn dros y 15 mlynedd dan ystyriaeth. Byddai hyn ac oblygiadau difrifol iawn ar y Cyngor.**

10.10 Mae 10.2 uchod yn cyfeirio at y Grant Rheoli Gwastraff yn Gynaladwy dderbynir yn flynyddol gan y Cynulliad. Mae'n rhesymol dod i ganlyniad y byddai'r grant hwn yn cael ei atal pe byddai'r Cyngor yn methu cyflawni'r Strategaeth Wastraff yn ystod y cyfnod.

10.11 Yn ogystal i'r oblygiadau methu cyflawni o safbwynt ariannol ar y Cyngor, byddai'r ffaith bod y Cyngor yn denu dirwyon o ganlyniad i barhad dibyniaeth ar dirlenwi yn achos i'r Cynulliad gymeryd drosodd y cyfrifoldeb am reoli gwastraff oddi ar y Cyngor.

10.12 Byddai methu cyflawni yn tanseilio gallu'r Cyngor i reoli gwastraff yn gynaliadwy, warchod yr amgylchedd, lleihau yr ol-droed ecolegol ac ymateb yn briodol i'r broblem Newid Hinsawdd.

## 11. CANLYNIAD

11.1 Mae oblygiadau difrifol iawn ar y Cyngor pe byddai'n methu cyflawni'r Strategaeth Wastraff.

11.2 Mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2010-2025 sydd i bwrpas cwrdd â thargedau osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes gwastraff ac i bwrpas cyflawni'r Strategaeth Wastraff.

11.3 Mae'r cyfeiriad, y Cynllun Gweithredu, argymhellir wedi ei grynhoi mewn ffurf amserlen yn Atodiad Dd o'r Adroddiad hwn.

## 12. ARGYMHELLIAD

12.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad hwn a'r Cynllun Gweithredu argymhellir ar gyfer y cyfnod 2010-2025 i bwrpas gwireddu'r Strategaeth Wastraff.

**Gwyn Morris Jones**
**Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**
**Hydref, 2009**

ATODIADAU

A.	Cynllun Gweithredu 2005-2010
B.	Rhaglen Waith 5 ‘mlynedd 2005-2010
C.	Tabl Eunomia – sut i gyrraedd targedau ailgylchu/deunyddiau
Ch.	Newyddlen Prosiect GwyriAD
D.	Graff yn dangos oblygiadau ariannol (gwneud dim/cyflawni)
Dd.	Y Rhaglen 2010-2025.

## CYNLLUN GWEITHREDU

Nodwyd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2006/07 a 2009/10 yn gynt yn y ddogfen hon. I gwrdd â'r targedau hynny, bydd angen cyflawni gwaith ar y cynllun gweithredu canlynol:-

1. Gosod cyfleusterau ailgylchu ychwanegol – o 2005 i 2008
2. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu defnyddiau ailgylchadwy sych – 2005 a 2006
3. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu gwastraff gwyrdd – 2005 a 2006
4. Sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig – o 2005 i 2008
5. Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau cyntaf i ddechrau gweithredu – yn fuan yn 2006
6. Cyfleusterau compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – y naill yn 2007 a'r llall yn 2008
7. Ehangu casglu gwastraff gwyrdd wrth ochr y lôn i gynnwys gwastraff cegin – 2007 a 2008
8. Ail Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddechrau gweithredu – 2007
9. Cyfleuster ar gyfer trin gwastraff gweddillion i ddechrau gweithredu – 2010
10. Ehangu cynlluniau ailgylchu gwastraff masnachol – parhaus.

Fodd bynnag, mae pryder ar hyn o bryd ynghylch faint o gynhwysedd tirlenwi fydd ar gael yng ngogledd Gwynedd yn y tymor byr i'r tymor canol. Oherwydd hyn, efallai y bydd angen rhoi blaenoriaeth i leihau swm y gwastraff a anfonir i dirlenwi yn y tymor byr yn hytrach na chwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer 2006/07. Gallai rhoi blaenoriaeth i leihau swm y gwastraff a anfonir i dirlenwi yng ngogledd Gwynedd olygu cynllun gweithredu fel a ganlyn:-

1. Gosod cyfleusterau ailgylchu ychwanegol – o 2005 i 2008
2. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu defnyddiau ailgylchadwy sych – 2005 a 2006
3. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu gwastraff gwyrdd – 2005 a 2006
4. Sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig – o 2005 i 2009
5. Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau cyntaf i ddechrau gweithredu – yn fuan yn 2006
6. Cyfleuster ar gyfer trin gwastraff gweddillion i ddechrau gweithredu – 2007
7. Cyfleuster gogleddol compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – 2007
8. Cyfleuster deheuol compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – 2008
9. Ehangu casglu gwastraff gwyrdd wrth ochr y lôn i gynnwys gwastraff cegin – 2007 a 2008
10. Ail Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddechrau gweithredu – 2009
11. Ehangu cynlluniau ailgylchu gwastraff masnachol – parhaus.

## CASGLIAD

Mae'r adolygiad o'r strategaeth gwastraff wedi dangos y gellir cwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio a thargedau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi ar gyfer Gwynedd trwy wella ac ychwanegu at yr isadeiladwaith casglu a thrin gwastraff, gan gynnwys:


- Ehangu cynlluniau casglu ochr y lôn i ardaloedd eraill, gan gynnwys tua 90% o'r cartrefi
- Cynyddu swm y defnyddiau ailgylchadwy sych a gesglir wrth ochr y lôn i gynnwys plastigion a chardbord
- Cyflwyno casgliadau o wastraff gwyrdd i 80% o'r cartrefi, gan eu hehangu i gynnwys gwastraff cegin rywbryd yn y dyfodol.
- Rhyw 30 o fanciau ailgylchu ychwanegol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig

- Cynyddu nifer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig i 7 a gwneud gwelliannau er mwyn hyrwyddo mwy o wahanu gwastraff i'w ailgylchu a'i gompostio
- Sefydlu 2 Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddidoli a bwndelu defnyddiau wedi'u hailgylchu
- Sefydlu o leiaf un cyfleuster gwastraff i drin gwastraff gweddilliol.

Credir bod y nifer o gyfleusterau a ddangosir uchod yn realistig ond efallai y bydd angen eu hadolygu wrth i ni fagu profiad o effeithiau daearyddol a ffactorau gweithrediadol.

Bydd y costau yn fater o bwys ac mae'n annhebygol y gellir rhoi'r strategaeth ddrafft ar waith heb gymorth parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bod cymhorthdal ar gael i helpu i ddatblygu cyfleusterau.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth gwastraff yn dangos sut y gellir cwrdd â'r targedau ar gyfer ailgylchu, compostio, ac ailgyfeirio gwastraff trefol pydradwy, a gweithio ar yr un pryd yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff a hefyd egwyddor agosrwydd. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn dal i berthyn i'r strategaeth hon, sydd yn rhoi gerbron opsiwn cystadleuol o ran cost ar gyfer rheoli gwastraff trefol yng Ngwynedd.



Drafft 2.5
Rhaglen Waith Gwastraff
ATODIAD B
Cyfeirnod
Tasgau
2005/06
2006/07
2007/08
2008/09
2009/10
1af
2ail
3ydd
4ydd
3.1.1/2
Strategaeth Mabwysiadu a Monitro
3.1.3
Adolygu'r Strategaeth
3.2.1
Cau a Diogelu Faengoch
Datblygu Cynllun Cau
Mewnlenwi a Siapio
Nwyon/Trydan
Gorsaf Driniaeth
Capio
Ol-ofalaeth a Monitro
3.2.2
Datblygu Safle Tirlenwi
Trwyddedau a Chynllunio
Caffael Tir
Gwaith Peirianyddol
Capio
Nwyon/Trydan
3.2.3
Datblygu Ffridd Rasus
Trwyddedau/Cynllunio/Cynllun Cau
Mewnlenwi a Siapio Ardal 2
Nwyon/Trydan Ardal 2
Capio Ardal 2
Datblygu Ardal 3
Capio Ardal 3
Nwyon/Trydan Ardal 3
3.2.4
Safleoedd Gwaredu/Trin Eraill
Ymchwil i Safleoedd
Dethol Safleoedd/Cynllunio
Datblygu Safleoedd
3.2.5
Gorsafoedd Trosglwyddo
Adnabod Safleoedd
Sicrhau Trwyddedau/Cynllunio
Datblygu'r Safleoedd
3.3.1
Casglu Gwastraff
Gwastraff Clinigol
Gwastraff Swmpus
Newidiadau i Gylchdeithiau
Newidiadau i Fflyd
3.4
Ailgylchu
Casglu Plastig (d)
(i) Arfon a Dwyfor
(ii) Meirionnydd
Casglu Cardbord a Phapur (m)
(i) Arfon a Dwyfor
(ii) Meirionnydd
3.5
Compostio
Biniau Brown Dwyfor
Biniau Brown Arfon
Biniau Brown Meirionnydd
In-vessel Ffridd Rasus
In-vessel Llwyn Isaf
Cynllun Compostio Rhanbarthol
Casglu Gwastraff Arlwyo (m)
Casglu Gwastraff Cegin
Trin Gwastraff Gweddilliol
3.6
Safleoedd Mwynderau Trefol
(1) Bangor
(2) Bala
(3) Caernarfon
(4) Ffridd Rasus
(5) Pwllheli
(6) Porthmadog
(7) Dolgellau
(8) Safle Llyn
(9) Blaenau Ffestiniog
Diddymu Safleoedd Symudol
Banciau Ailgylchu Cymunedol
3.7
Canolfan Adennill Defnyddiau
Trwyddedau a Cynllunio (Cibyn)
Addasiadau i'r Safle (Cibyn)
Canolfan A.D (Cibyn)
CAD Gogledd Meirionnydd
3.8
Gorfodaeth i Leihau
Polisi Cau Caead (Dwyfor)
Polisi Cau Caead (Arfon)
Polisi Cau Caead (Meirionnydd)
Allwedd
Datblygu
Adeiladu/Gweithredu
Ol-Ofal/Cynnal
Digwyddiad
C= Cyfalaf
R= Refeniw

**ATODIAD C**

| Cyfansoddiad y Gwastraff | Ymchwil Y Cynulliad | Cyfanswm Gwastraff Bwrdeistrefol 82000 (t) | Amcan Perfformiad Gwynedd 2009/10 (t) | Graddfa casglu ar gyfer Ailgylchu a Compostio **52% (2012/13)** (t) | Graddfa casglu ar gyfer Ailgylchu a Compostio **64% (2019/20)** (t) | Graddfa casglu ar gyfer Ailgylchu a Compostio **70% (2024/25)** (t) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Papur newydd & cylchgronau | 7.2 | 5904 | 4742 | 4841 | 4903 | 4959 |
| Papur | 1.9 | 1558 | 380 | 1013 | 1221 | 1278 |
| Cerdyn | 5.2 | 4264 | 330 | 1834 | 3113 | 3496 |
| Tecstilau | 1.05 | 861 | 220 | 284 | 506 | 594 |
| Gwastraff Bwyd | 17.6 | 14432 | 800 | 7649 | 10506 | 11546 |
| Gwastraff Gwyrdd | 10.5 | 8610 | 16211 | 6716 | 7405 | 7921 |
| Coed | 3.6 | 2952 | 1500 | 2303 | 2598 | 2686 |
| Esgidiau | 0.2 | 164 | 2 | 38 | 93 | 113 |
| Carpedi | 0.85 | 697 | 0 | 0 | 282 | 381 |
| Dodrefn | 0.75 | 615 | 67 | 430 | 525 | 549 |
| Olew | 0.1 | 82 | 0 | 41 | 46 | 49 |
| Gwastraff Pydradwy Arall | 4.25 | 3485 | 28 | 0 | 1350 | 1959 |
| Cardfwrdd/Bocs | 5.3 | 4346 | 1035 | 3216 | 3546 | 3651 |
| Poteli Plastig | 1.8 | 1476 | 245 | 937 | 1080 | 1194 |
| Plastig Arall | 3.2 | 2624 | 110 | 391 | 861 | 1443 |
| Plastig Ffilm | 3.1 | 2542 | 0 | 216 | 412 | 925 |
| Gwydr | 5.3 | 4346 | 4252 | 3659 | 3842 | 3894 |
| Caniau Bwyd a Diod | 1.9 | 1558 | 436 | 932 | 1178 | 1293 |
| Metalau Arall | 2.2 | 1804 | 862 | 1169 | 1364 | 1497 |
| Dim Fferrus | 0.4 | 328 | 76 | 198 | 251 | 275 |
| Oergelloedd | 0.9 | 738 | 195 | 610 | 631 | 661 |
| Eitemau Trydan Mawr | 0.2 | 164 | 170 | 104 | 109 | 125 |
| Monitor Teledu | 0.3 | 246 | 245 | 208 | 215 | 222 |
| Gwastraff Trydan Arall | 0.7 | 574 | 278 | 249 | 302 | 383 |
| Batris | 0.2 | 164 | 3 | 103 | 108 | 121 |
| Gwastraff Adeiladu | 5.2 | 4264 | 2814 | 3177 | 3224 | 3475 |
| Meinion | 5.7 | 4674 | 0 | 696 | 823 | 1547 |
| Arall | 10.4 | 8528 | 0 | 2192 | 2192 | 2192 |
| **Gweddilliol** | | | **47000** | 38794 | 29316 | 23570 |
| | 100 | 82000 | | | | |
| Cyfanswm gwastraff wedi ailgylchu neu gompostio = | | | 35000 | 43206 | 52684 | 58430 |

# Prosiect GwyriAD Project

**ATODIAD Ch**

## Taflen Newyddion Rhif 1, Hydref 2009

**Beth sy'n digwydd?**
Er mwyn cyrraedd targedau Ewropeaidd i ddargyfeirio gwastraff pydradwy o safleoedd tirlenwi bydd angen i awdurdodau lleol gasglu a thrin gwastraff bwyd.

Treulio Anerobig (AD) yw'r broses argymhellir ar gyfer ymdrin â gwastraff bwyd. Er mwyn cyrraedd targedau tirlenwi 2012/13, bydd rhaid cael cynlluniau AD wedi eu sefydlu er mwyn delio gyda gwastraff bwyd erbyn gwanwyn 2012, neu yn fuan iawn wedi hynny.

Mae Cyngor Gwynedd wedi amlygu'r angen am gyfleuster AD i ymdrin â gwastraff bwyd a gesglir yn y sir.


**Beth ydy AD?**
AD yw'r broses naturiol pan fydd bacteria yn torri deunyddiau organig i lawr pan nad oes aer yn bresennol, gan greu bionwy sy'n cynnwys methan.

Defnyddir AD fel ffynhonnell o ynni adnewyddadwy oherwydd bod y broses yn cynhyrchu:

- Bionwy (yn bennaf methan a charbon deuocsid) sy'n addas ar gyfer creu ynni, sydd o gymorth i gymryd lle tanwydd ffosil.
- Gweddillion solet (wedi ei dreulio) sy'n debyg i gompost, ond nid union yr un peth.
- Hylif y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith.



Uchod – llun o gyfleuster AD
Isod – llun o'r cysyniad sylfaenol




**Beth fyddwn ei angen?**
Byddwn angen modd i ymdrin â 10,000 i 12,000 tunnell o wastraff bwyd bob blwyddyn. Mae gwahanol fathau o dechnoleg AD ar gael, a phob un gyda manteision gwahanol. O ganlyniad, ni fyddwn yn nodi yn union pa fath o gyfleuster AD fydd yw adeiladu, ond byddwn yn defnyddio proses 'trafodaethau cystadleuol' i drafod manylion gyda chyflenwyr o ran yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig, a'r costau yn deillio o hynny.

**Yr Achos Busnes Amlinellol**
Mae'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) yn ddogfen sy'n cael ei defnyddio i ddangos bod manteision ac anfanteision ynghlwm â'r cynllun, bod y cynllun yn ddichonadwy a bod modd ei gyflawni o fewn yr amser sydd wedi ei nodi. Mae'n declyn cynllunio a rheoli sy'n dangos i'r Cyngor a Llywodraeth y Cynulliad fod achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol i'r cynllun.

**Datrysiad Cyfeiriol**
Rhaid i'r ABA gynnwys datrysiad posib 'cyfeiriol'. Yn yr achos hwn mae cyfeiriad at adeiladu cyfleuster AD yn safle Llwyn Isaf , Clynnog.

Er y cyfeiriad at safle Llwyn Isaf, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd cyfleuster yn cael ei ddatblygu yno. Gall cynigyddion nodi gwasanaeth wedi ei leoli mewn man arall, ac fe fyddai'n hanfodol cymharu'r manteision ac anfanteision eu cynnig gyda'r datrysiad cyfeiriol.

Y cynnig a fydd yn cael ei dderbyn fydd yr un a all gynnig gwerth gorau i'r Cyngor, yn ariannol ac amgylcheddol.

**Y Rhaglen / Amserlen**

Bydd yn her cyrraedd y targed o fod yn llwyr weithredol erbyn gwanwyn 2012.

Mae Gwynedd, fel nifer o awdurdodau eraill yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i symud ymlaen gyda'r broses caffael AD. Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Gymuned Ewropeaidd, mae'r bwriad i gael gwasanaeth i ymdrin â'r gwastraff bwyd wedi ei hysbysebu. Mae gan gyflenwyr hyd at ganol mis Hydref i gofrestru diddordeb i gynnig tendr.

Bydd rhestr fer o gwmnïau addas yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn proses trafodaethau cystadleuol, ac yn fuan yn ystod haf 2010 bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y datblygiad gorau a'r cyflenwr. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn ystod hydref 2010. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn gynnar yn 2011, gyda'r cyfleuster AD yn weithredol erbyn gwanwyn 2012 ar ôl cwblhau profion comisiynu.


**Y Strategaeth Gyfathrebu**
Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ar faterion ar raddfa eang fel rheoli gwastraff.

Cynhyrchwyd y daflen newyddion hon fel cyflwyniad cryno i'r prosiect ac I bwrpas ei osod yn ei gyd-destun.

**Beth Nesaf?**
Mae'r broses trafodaethau cystadleuol gyda'r rhai sy'n cyflwyno tendr wedi ei raglennu yn gynnar yn ystod 2010. Rhagwelir bydd y penderfyniad terfynol am y cynllun yn cael ei wneud erbyn diwedd Medi 2010. Rhwng rŵan a hynny bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i drigolion a budd-ddeiliad eraill am ddatblygiadau'r cynllun.

Am fwy o wybodaeth neu os ydych am drafod unrhyw fater gellir cysylltu gyda'r Ddesg Gymorth Gwastraff ar (01286) 679872.

## ATODIAD/APPENDIX D



**Strategaeth Wastraff:  Cynllun Gweithredu 2010 - 2025**

**ATODIAD Dd**

| **Dyddiadau Allweddol** | 2010/11 | 2011/12 | **2012/13** | 2013/14 | 2014/15 | **2015/16** | 2016/17 | **2019/20** | **2024/25** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| **TARGEDAU** | | | | | | | | | |
| Ailgylchu | | | | | | | | | |
| Compostio | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Targed (Ailgylchu/Compostio) | | | 52% | | | 58% | | 64% | 70% |
| Gwastraff Bwyd | | | 12% | | | 14% | | 16% | 16% |
| Lwfans Tirlenwi | 28909 | 25238 | 21567 | 20649 | 19731 | 18814 | 17896 | 15143 | 5000 |
| Uchafswm Ynni o Wastraff | | | | | | 42% | | 36% | 30% |
| | | | | | | | | | |
| **MESURAU A DATBLYGIADAU** | | | | | | | | | |
| Tirlenwi | | | | | | | | | |
| Cilgwyn | Trwytholch/Capio | | | | | | | | Capio |
| Llwyn Isaf | Datblygu Celloedd/Capio | | | | Cau/Capio | | | | |
| Ffridd Rasus | Datblygu Celloedd/Capio | | | | | | | Ystyriaeth Cau | |
| | | | | | | | | | |
| Gorsafoedd Trosglwyddo | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| Technoleg Amgen | | | | | | | | | |
| Prosiect GwyriAD | | | Gweithredol | | | | | | |
| Prosiect Trin Gweddilliol Rhanbarthol | | | | | | | Gweithredol | | |
| | | | | | | | | | |
| Eraill | | | | | | | | | |
| Adolygu Gwastraff Masnachol | | | | | | | | | |
| Canolfannau Ailgylchu Ychwanegol | | | | | | | | | |
| Addasiadau i CAD Caergylchu | | | | | | | | | |
| CAD De-Gwynedd | | | | | | | | | |
| Casglu Bwyd yn Wythnosol | | | | | | | | | |
| Casglu Mwy o Ddeunyddiau Ailgylchu | | | | | | | | | |
| Lleihau Cynhwysydd Gweddilliol | | | | | | | | | |
| Adolygu Pwyntiau Cymunedol | | | | | | | | | |
| Adiolygu Casglu Gwastraff Gardd | | | | | | | | | |
| Addasiadau i Gylchdeithiau | | | | | | | | | |
| Adolygu Cyfansoddiad Gwastraff | | | | | | | | | |
| Ymgyrchoedd Codi Ymwybyddiaeth a Gorfodaeth | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD** | **4 Rhagfyr 2012** |
| **TEITL** | **Gwasanaethau Bws Lleol a Chludiant Dysgwyr** |
| **PWRPAS** | **I Godi Ymwybyddiaeth a Diweddariad o'r Broses** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Aled Davies - Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn ymgymryd â throsolwg ac adolygiad o wasanaethau cludiant i deithwyr sy'n cael eu darparu ar eu rhan. Mae sgôp yr adolygiad yn cynnwys cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bws lleol.

1.2 Mae'r gwaith sy'n ymwneud â chludiant dysgwyr yn rhoi ffocws ar ddarparu cludiant lle mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb deddfwriaethol, neu drwy bolisi, i'w ddarparu. Y bwriad yw cyflenwi'r rhain yn y dulliau mwyaf effeithiol ac effeithlon bosib.

1.3 O ran gwasanaethau bws lleol, y nod yw cynnal cyfleoedd teithio priodol ar gyfer cyfarfod anghenion rhesymol craidd ar gyfer:

- Cymudo
- Mynediad i wasanaethau
- Siopa
- Cymdeithasu
- Hamdden a thwristiaeth

1.4 Rhoddir sylw penodol i leihau'r nifer o seddi gweigion sydd ar y cerbydau sy'n darparu gwasanaethau bws lleol.

## 2. TREFNIADAU PRESENNOL

2.1 Er mwyn i wasanaethau bws weithio'n effeithiol, o ystyried yr angen i fod yn ariannol ac amgylcheddol gynaliadwy, mae angen dwysedd poblogaeth neu o leiaf dwysedd o deithwyr sydd am deithio rhwng dau le, neu ar y trywydd rhyngddynt yn rheolaidd. Mae symud o'r egwyddor yma yn arwain at sefyllfa, pan fod lefelau cyfartalog o deithwyr yn isel, lle fod angen lefelau sylweddol o gymhorthdal i'w cynnal.

2.2 Gyda thwf ym mherchnogaeth ceir yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle'n aml fydd cartrefi a mwy na un car, mae hyfywdra gwasanaethau bws lleol wedi dioddef oherwydd lleihad yn ei defnydd. Mae ffactorau fel cyfleustra a chyfleoedd i weithio oriau hyblyg wedi dylanwadu ar batrymau teithio pobl drwy ei gwneud yn llai cyson. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud hi'n fwy anodd i ddylunio a darparu rhwydweithiau bysiau lleol sydd yn diwallu anghenion mewn ffyrdd atyniadol. Wedi dweud hyn mae gwasanaethau bws lleol yn gallu

bod yn bwysig iawn i'r rhai sydd yn wir ddibynnol arnynt i wneud siwrneiau hanfodol ac mae rhwng 75-80% o deithiau cludiant cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gwneud ar wasanaethau bws. O bosib bydd twf yn y niferoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau bws wrth i gostau moduro gynyddu.

2.3 Yn 2010/11 cafodd £1,655,062 ei wario fel cymhorthdal i gwmnïau i gynnal y rhwydwaith bysiau lleol yng Ngwynedd. Roedd £576,447 o'r cyfanswm yma o Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru. Cyfraniad Cyngor Gwynedd at gynnal y rhwydwaith bysiau oedd: £1,078,615.

2.4 Mae rhwydweithiau bysiau yn drefniadau deinamig sy'n golygu bod y math a lefel o wasanaeth yn medru newid am sawl rheswm dros amser. Fe all gwmni bws benderfynu fod fwy neu lai o alw ar gyfer gwasanaethau a newid ei darpariaeth ar drywydd i ymateb i hyn. Fe all Awdurdod Lleol addasu lefel a math o wasanaeth a ddarperir i adlewyrchu lefelau defnydd ond mae hefyd ffactorau eraill megis newidiadau yn y cyllidebau sydd ar gael i gefnogi gwasanaethau.

2.5 Mae Atodiad 1 yn rhoi'r cefndir i newidiadau diweddar yn y gwasanaethau bws rhwng Aberystwyth a Bangor. Mae'r esiampl yma yn amlinellu'r rhesymau pam bod newidiadau i'r rhwydwaith a beth i'w rhai o'r ystyriaethau a chyfyngiadau wrth geisio ymateb i'r fath sefyllfa.

2.6 Yn ystod mis Tachwedd 2012 derbyniwyd rhybudd oddi wrth gweithredwyr eu bod am ddiddymu gwasanaethau sy'n cael ei darparu ar sail masnachol ar y trywydd canlynol:

35 Dolgellau – Blaenau Ffestiniog (yn ystod y dydd)
X94 Abermaw – Wrecsam (gyda'r nos)

Nid yw'r gwasanaethau yma ar hyn o bryd yn derbyn nawdd cyhoeddus i'w cynnal.

Mae'r Awdurdod yn gofyn am brisiau i ddarparu ystod o opsiynau ar gyfer cynnal lefel o wasanaeth yn lle'r rhai fydd yn cael ei colli. Er hyn, gyda phwysau digynsail ar gyllidebau, yr her fydd cyfiawnhau a chwilio'r cyllid refeniw fyddai ei angen i ddarparu'r gwasanaethau yma.

2.7 Lle bynnag bosib, mae cyfleoedd teithio lleol ac addysg wedi ei integreiddio yng Ngwynedd. Mewn ardaloedd gwledig mae hyn yn cael ei dderbyn fel model o ymarfer da yn optimeiddio adnoddau, diwallu anghenion statudol a pholisi yn nhermau teithio dysgwyr ac uchafu cyfleoedd teithio i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion am drefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sydd, ac sydd ddim, yn ddilys i gludiant am ddim.

**Y Sefyllfa Yng Ngwynedd**

2.8 Mae'r rhwydwaith yng Ngwynedd yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau sy'n

*a) Llwyr fasnachol*
Cwmnïau yn adnabod angen a marchnad leol ac yn ei ddiwallu gyda'r bwriad o wneud elw o'r teithwyr a gludwyd.

*b) Llwyr wedi ei gefnogi.*
Lle na tybir fod yna achos busnes i ddarparu gwasanaeth masnachol mae'r Awdurdod yn talu cymhorthdal (x) i gynnal darpariaeth. Fel arfer y cwmni bydd yn cadw'r refeniw o docynnau (y) gyda bod x+y yn ei gwneud hi'n hyfyw iddynt ddarparu'r gwasanaeth. Mae gosod contractau ar sail pris sefydlog fel yma yn dueddol o arwain at well ansawdd o wasanaeth gyda bod cwmnïau wedi ei ysgogi i uchafu'r nifer o deithwyr maent yn ei gludo.

*c) Rhannol fasnachol / rhannol wedi ei gefnogi*
Mae'r ganran o siwrneiau ar drywydd neu wasanaeth sydd yn cael eu darparu yn y fath modd yn newid o un esiampl i'r llall ond yn gymysgedd o 1 a 2 uchod. Enghraifft o'r fath drefniant byddai bod gwasanaethau yn medru bod yn fasnachol yn ystod y dydd a derbyn cymhorthdal gyda'r nos neu ar y Sul.

2.9 Yn gyffelyb a nifer o siroedd eraill, mae'r rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd wedi esblygu yn hytrach na'i ddatblygu'n strategol oherwydd bod neb a rheolaeth neu weledigaeth lwyr ar ei gyfer.

2.10 Mae'r modd mae gwasanaethau yn cael ei darparu yn gallu bod yn gymhleth. Oherwydd trefniadau a chysylltiad gweithredol rhwng ei darparu, gall cyfleoedd teithio cyhoeddus cael ei gynnal am gost ymylol yn ystod y dydd drwy ddefnyddio adnoddau sydd yn cael ei dalu'n bennaf drwy gwrdd ag anghenion statudol i gludo dysgwyr.

2.11 Yn sgil newidiadau yn sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau a'r diwydiant bysiau yng Nghymru ac yng nghyd-destun yr her ariannol y mae pob awdurdod lleol yn ei wynebu, rhaid i Cyngor Gwynedd ymateb. Nod yr adolygiad a'r broses ail-dendro yw gwneud hyn yn y modd mwy cadarnhaol posib.

2.12 Mewn cyfnod heriol, felly, mae'r Awdurdod yn cymeryd camau i ddatblygu rhwydwaith bysiau sy'n amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy. Yr amcan yw darparu lefel o wasanaethau sy'n ddefnyddiol ac atyniadol i deithwyr o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'w cynnal.

2.13 Er mwyn gwireddu hyn, mae'r Awdurdod yn ymdrechu i ennyn cyfranogiad y cwmnïau bws er mwyn ymateb i'r sefyllfa. Drwy gydweithio gyda'r cwmnïau, y gobaith yw y bydd yn bosib adnabod buddion effeithlonrwydd, a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau i ddarparu gwasanaethau sydd yn debygol fod yn gynaliadwy yn yr hir dymor.

## 3. ADOLYGU Y RHWYDWAITH

3.1 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu matrics i arfarnu gwasanaethau bws lleol sydd yn derbyn cymhorthdal.

3.2 Y ffactorau a ystyrir o fewn y matrics yw:

- Cost fesul teithiwr;
- Math o ardal a wasanaethir (canolfan ranbarthol/ canolfan drefol/ canolfan leol / ardal ddifreintiedig/ cymunedau gwledig;
- Ardal dwristaidd;
- Niferoedd (nifer o deithwyr fesul siwrnai);
- A oes gwasanaeth am drafnidiaeth eraill ar gael;
- Cyfnod o'r dydd/ dyddiau'r wythnos mae'n weithredol;
- Cyfleusterau a wasanaethir.

## 4. Y BROSES ADOLYGU

4.1 Mae'r broses yma o adolygu gwasanaethau cludiant i deithwyr eisoes wedi digwydd yn ardal Meirionnydd. Mae sylw yn awr yn cael ei roi i ardal Dwyfor gyda adolygiad Arfon i'w gwblhau yn fuan wedi hynny. Y nod yw cael y trefniadau newydd yn weithredol fel y ganlyn:

- Dwyfor - 18 Chwefror 2013
- Arfon - 03 Mehefin 2013

4.2 Lle nad yw'n bosib neu briodol i ddarparu gwasanaethau bws traddodiadol, oherwydd lefelau'r cymhorthdal sydd angen i'w cynnal a/neu ddiffyg lefelau cyfartalog o deithwyr. Mae'r Awdurdod yn awyddus i godi proffil a defnydd gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnig gan ddarparwyr Cludiant Cymunedol.

4.3 Mae'r Uned Cludiant Integredig hefyd yn bwriadu gweithio gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod ffyrdd amgen o gynnig cyfleoedd teithio. Fe all hyn gynnwys datblygu gwasanaethau 'ar alw' neu brosiectau fydd yn cynyddu'r nifer sy'n rhannu ceir neu hwyluso cynlluniau gyrwyr gwirfoddol er enghraifft. Trwy yr adolygiad yn Meirionnydd mae 4 o wasanaethau "ar alw" wedi eu cyflwyno er sicrhau parhad gwasanaethau am gost is.

4.4 Dros yr haf 2012 ymgymerwyd â phroses ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau. Fe gasglwyd dros 800 o ymatebion i holiaduron gan deithwyr ar fysiau. Roedd hyn hefyd yn cynnig cyfle i fonitro lefel defnydd siwrneai penodol a safonau'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd y wybodaeth a gasglir yn cael ei fwydo i mewn i'r broses fel cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y rhwydwaith a lefel y ddarpariaeth yn y dyfodol.

# GWASANAETH BWS BANGOR – ABERYSTWYTH
# HYDREF 2012

---

## 1. CEFNDIR

1.1 Cafwyd rhybudd gan Fysiau Arriva Cymru, a fyddai'n dod i rym ar 22 Medi 2012, o'u bwriad i ddiddymu'r hyn a adnabyddir fel gwasanaeth bws X32 rhwng Aberystwyth a Bangor.

1.2 Ers 1 Ebrill 2012 roedd gwasanaethau dydd Llun i ddydd Sadwrn yn weithredol ar sail cwbl fasnachol gan Arriva ac roeddynt yn darparu gwasanaethau dwy awr rheolaidd yn ystod y dydd ar y coridor. Cyn hyn, roedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn hwyluso taliadau ariannu Llywodraeth Cymru i Arriva er mwyn uwchraddio'r cerbydau a ddefnyddir ar y llwybr.

1.3 Dyluniwyd y gwasanaethau i integreiddio gyda'r gwasanaethau X94 rhwng Bermo a Wrecsam yn Nolgellau. Roedd yr X32 a'r X94 yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith TrawsCambria o wasanaethau bws a choetsis pellter hir yng Nghymru.

## 2. YR HER O YMATEB I'R SEFYLLFA

2.1 Wedi derbyn cadarnhad y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddiddymu, mae Swyddogion o Gyngor Gwynedd a gweithwyr o Geredigion, Powys a Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio gyda'r bwriad o gynnal cyfleoedd teithio allweddol ar y llwybr. Yn ogystal â chyfleoedd teithio pellter hir, roedd yr X32 hefyd yn darparu ar gyfer nifer o ofynion teithio lleol, yn enwedig mewn rhannau o'r llwybr nad oeddynt yn cael eu gwasanaethu'n dda iawn gan wasanaethau eraill.

2.2 Y ddwy brif her oedd angen eu hystyried oedd:

- Natur gymhleth y gwasanaethau masnachol presennol mewn rhannau o'r llwybr. Cyn y broses dendro ddilynol roedd rhai gweithredwyr yn cwestiynu dilysrwydd a chyfreithlondeb proses o'r fath o ganlyniad i bryderon amlwg am gystadlu am gwsmeriaid (*abstraction*). Er ei bod yn ymddangos bod y pryderon yn ymwneud â gwarchod y gwasanaeth yn fwy na chystadleuaeth, ni fyddai'n bosib tendro gwasanaethau a oedd yn adlewyrchu'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol gan Arriva.
- Diffyg cyllideb refeniw i dalu am y gwasanaethau.

## 3. HWYLUSO'R YMATEB

3.1 Fel rhan o rwydwaith bysiau a choetsis pellter hir cenedlaethol TrawsCymru gan Lywodraeth Cymru bwriedir darparu cyfleoedd teithio ar goridorau teithio allweddol ledled Cymru.

3.2 Bydd gwasanaethau TrawsCymru yn cyflenwi ac yn cefnogi gwasanaethau lleol a phellter hir a weithredir gan gwmnïau ar sail fasnachol.

3.3 Sefydlwyd prosiect i ddarparu siwrneiau penodol yn ystod dyddiau'r wythnos a dydd Sadwrn a fydd nawr yn cael ei alw'n wasanaeth T2 *TrawsCymru* ™. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r cysylltiadau bws strategol pellter hir fel rhan o'r rhwydwaith *TrawsCymru* ™ cenedlaethol.

3.4 Nodau ac Amcanion y prosiect oedd i:

- Ddarparu cyfres o wasanaethau bws lleol pellter hir a phellter byr cytunedig sy'n cysylltu Bangor gydag Aberystwyth drwy Gaernarfon, Porthmadog, Dolgellau a Machynlleth yn ystod dyddiau'r wythnos a dydd Sadwrn, yn cynnwys:-
    - siwrnai 06.50 o Ddolgellau i Fachynlleth;
    - siwrnai 07.30 o Aberystwyth i Fangor a'r siwrneiau dychwelyd cyfatebol 13.25 o Fangor i Aberystwyth.
    - siwrnai 16.30 o Fachynlleth i Fangor;
    - siwrnai 19.20 o Ddolgellau i Fangor;
    - siwrnai 17.20 o Ddolgellau i Aberystwyth; a
    - siwrnai 19.20 o Ddolgellau i Aberystwyth.

- Bydd yr uchod yn cael eu gweithredu gan fysiau llawr isel modern, gyda seddi cyfforddus a mannau cadw bagiau i hwyluso teithiau cyfforddus ar gyfer teithwyr pellter hir;
- Bydd y gwasanaeth yn cysylltu â gwasanaeth bws lleol X94 (Bermo i Wrecsam) yn Nolgellau a gwasanaeth bws lleol 40 (Aberystwyth i Gaerfyrddin) yn Aberystwyth:

3.5 Mae'r gwasanaethau sydd wedi'u tendro yn darparu cyfleoedd i siwrneiau pellter hir fynd i Ysbytai Cyffredinol a Phrifysgolion ym Mangor, Aberystwyth a Wrecsam yn ogystal â chynnig siwrneiau lleol at ddibenion cymudo / gwaith, addysg, siopa, diwylliant, iechyd a chymdeithasol.

3.6 Mae Cyngor Gwynedd wedi hwyluso caffaeliad y gwasanaethau sydd wedi'u tendro.

3.7 Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cyfanswm y gost flynyddol am y gwasanaethau dydd Llun i ddydd Sadwrn sydd wedi'u tendro, ar yr hyn a elwir yn goridor T2. Bydd hyn yn costio oddeutu £214,000 y flwyddyn.

3.8 Cafodd y gwasanaethau eu tendro fel siwrneiau unigol gyda'r bwriad o gynyddu cystadleuaeth a darparu'r gwerth gorau am arian am opsiynau arian.

3.9 Roedd y siwrneiau a gafodd eu tendro yn osgoi unrhyw honiadau amlwg o gystadlu sef *abstraction*. ('Abstraction' – '*pan fo gwasanaeth sy'n derbyn cymorth gwladwriaethol i'w weld yn cystadlu am deithwyr gyda gwasanaeth a weithredir ar sail fasnachol. Mae hyn yn groes i'r ddeddfwriaeth berthnasol').*

3.10 Cafodd y siwrneiau eu tendro mewn ffordd a oedd yn debygol o arwain at ddarparu cyfleoedd teithio ychwanegol drwy siwrneiau masnachol sy'n angenrheidiol i hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd wedi'u tendro.

## 4. GWASANAETHAU AR DDYDD SUL A GŴYL Y BANC

4.1 Mae gwasanaethau dydd Sul a Gŵyl y Banc ar lwybrau Aberystwyth- Bangor a Bermo – Wrecsam wedi cael eu hail dendro i gyd-fynd â llinell amser gwasanaethau dydd Llun –dydd Sadwrn.

4.2 Llwyddodd y gweithredwyr cyfredol i gadw'r contractau hyn.

4.3 Felly ni fydd y cyhoedd sy'n teithio yn gweld unrhyw newid yn y gwasanaethau ar ddydd Sul a Gwyliau Banc ar y coridorau hyn.

4.4 Telir am y gwasanaethau hyn gan yr Awdurdodau Lleol ar y llwybr ar sail fformiwla milltiredd a gytunwyd yn flaenorol.

## 5. BARN Y TEITHWYR

5.1 Mae'n debyg na fydd diflaniad brand a gwasanaeth a oedd wedi'i sefydlu'n dda yn cael ei groesawu ar y cychwyn.

5.2 Roedd y llinell amser o'r amser y derbyniwyd cadarnhad y byddai gwasanaethau masnachol Arriva yn cael eu diddymu oddi ar y llwybr i'r amser y cwblhawyd y broses caffael yn arbennig o heriol. Roedd y tendrau yn cau 10 diwrnod yn unig cyn i'r gwasanaethau gael eu gweithredu. Roedd hyn yn golygu bod trosglwyddo manylion am y gwasanaeth, yn cynnwys amserlenni a gweithredwyr yn anodd iawn.

5.3 Ceir manylion am y gwasanaethau newydd ar:
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_amserlen_bws.asp?rhif_gwasanaeth=T2

5.4 Bydd yn cymryd amser i deithwyr a budd-ddeiliaid eraill ddeall er bod gostyngiad wedi bod yn y nifer o wasanaethau trwodd bydd gwasanaethau cysylltiol yn darparu cyfleoedd teithio ar hyd y coridor. Dengys dadansoddiad blaenorol o ddata siwrneiau mai 16% yn unig o siwrneiau oedd yn fwy na'r hyn a ellir eu disgrifio fel pellter hir.

5.5 Nid yw defnyddio rhifau gwasanaeth gwahanol mewn gwahanol rannau o'r coridor yn helpu'r rhai sydd eisiau gwneud siwrneiau pellter hir. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn berthnasol i wasanaethau a weithredir yn fasnachol gyda ffocws lleol (X28, X27, 35, X1, 1B). Felly nid yw Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i ddylanwadu'n uniongyrchol neu wneud newidiadau i'r rhain.

5.6 Fel sy'n wir am unrhyw newid i wasanaethau bws efallai y bydd rhai yn gweld bod y trefniadau newydd yn bodloni eu hanghenion yn well, tra bydd eraill yn anghytuno.

5.7 Mae rhai pryderon lleol sy'n ymwneud â gwasanaethau masnachol ar y coridor (Express Motors ddim yn gwasanaethu Gellilydan dan y drefn – ar gais yn unig) eisoes wedi codi. Yn gyffredinol, bydd Cyngor Gwynedd yn ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar weithredwyr, ble bo hynny'n bosib er mwyn bodloni anghenion lleol.

## 6. Y DYFODOL

6.1 Bydd y gwasanaethau sydd wedi'u tendro ac a gafodd eu caffael yn ddiweddar yn weithredol o 24 Medi 2012 hyd at 1 Tachwedd 2014. Bwriedir y bydd hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau lleol ar y llwybr i ddadansoddi'r gofynion ar y coridor. Mae hefyd dyhead i sefydlu Cynllun Partneriaeth Ansawdd Bysiau Statudol ar gyfer y coridor, gan ddefnyddio pwerau dan Adran 114 Deddf Trafnidiaeth 2000 (fel y'i diwygiwyd).

**Cludiant Ysgolion Gwynedd**

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae hi'n ddyletswydd statudol i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n gymwys i'r ysgol, ac o'r ysgol. Mae Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi'u cofrestru ag ysgol neu uned a redir gan y Cyngor dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Ysgolion cynradd – dysgwyr sy'n byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol sy'n eu dalgylch, neu o'r ysgol agosaf.
- Ysgolion uwchradd – dysgwyr sy'n byw tair milltir neu fwy o'r ysgol sy'n eu dalgylch, neu o'r ysgol agosaf.
- Dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau'n unol ag argymhelliad y Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig.

1.2 Disgwylir i ddysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd (oni bai am y rhai hynny gydag anghenion addysgol arbennig neu anableddau) gerdded hyd ar ddwy filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan yr Awdurdod.

1.3 Darperir cludiant am ddim gan yr Awdurdod mewn achosion pan dybir, wedi ystyried amrediad o ffactorau, bod y llwybr cerdded yn peri risg afresymol.

## 2. SUT MAE CYNGOR GWYNEDD YN CYFLAWNI EI DDYLETSWYDD

2.1 Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd i ddysgwyr sy'n gymwys mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

1. Contractau bws addysg 'caeedig'.
2. Contractau tacsi addysg 'caeedig'.
3. Talu am seddi ar wasanaethau bws masnachol (a. Un ai ar sail swm penodol i bob dysgwr (£1.50 i bob disgybl ysgol / £2.20 i bob myfyriwr coleg) neu b. ar sail tender 'pris am y gwaith').
4. Cyfraniad i swm sy'n cefnogi gwasanaeth bws lleol, yn seiliedig ar nifer y dysgwyr.
5. Taliad i rieni yn seiliedig ar y gyfradd filltiroedd, sy'n £0.30 y filltir ar hyn o bryd.

2.2 Mae cyfartaledd y gost sy'n gysylltiedig â darparu trefniadau a wneir trwy 1,2,3b a 4 yn amrywio'n fawr yn nhermau ardaloedd / llwybrau gwahanol. Mae hyn oherwydd y gwasanaethau sy'n cael eu caffael drwy broses dendro sydd, yn nhermau gwasanaethau cludiant, yn rhoi ystyriaeth i bethau megis y llwybr penodol a'r pellter; cyfanswm y milltiroedd 'marw'; y math o gerbyd sy'n addas ar gyfer llwybr a chystadleuaeth yn y farchnad leol.

2.3 Mae'r Uned Trafnidiaeth Integredig yn gyfrifol am gaffael y gwasanaethau sy'n cydymffurfio â'r polisïau a'r ddeddfwriaeth berthnasol yn y modd mwyaf effeithlon a chost effeithiol posib ar ran yr Awdurdod.

**3. DYSGWYR NAD YDYNT YN GYMWYS I DDERBYN CLUDIANT AM DDIM**

3.1 Gall dysgwyr nad ydynt yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim, elwa o gyfleon i deithio i'w lleoliad addysg ar gludiant cyhoeddus, ar fws, ac ar drên mewn rhai achosion. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddisgyblion sy'n byw o fewn y pellter dynodedig neu sy'n dewis mynychu ysgol arall, yn hytrach na'r un agosaf neu'r ysgol yn eu dalgylch.

3.2 Mae cytundeb wedi bod mewn lle ers tro ar gyfer gwasanaethau bws lleol a weithredir ar ran yr Awdurdod, wrth i ddisgyblion dalu ffi sengl enwol o £0.30 i deithio os ydynt yn byw o fewn 2/3 milltir i'w hysgol.

3.3 Mae 'cynllun seddi gwag' ar gael i wasanaethau bws addysg caeedig ble y gall dysgwyr dalu ffi benodedig o £25 (o fewn eu dalgylch) / £50 (y tu allan i'w dalgylch) i deithio pob tymor gan ddefnyddio capasiti ychwanegol y cerbydau. Nid yw'r trefniant hwn ond ar gael pan fo capasiti ychwanegol yn bodoli.

3.4 Bydd rhai dysgwyr eisoes yn talu ffi fasnachol, boed hynny ar sail sengl / dychwelyd neu ar sail unrhyw gynnig arall am docyn a gyflwynir gan gwmnïau bysys i ddiwallu'r galw.

3.5 Cedwir at un egwyddor yma, ble na ddylai'r cludiant sydd ar gael ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys i deithio am ddim, beri costau ychwanegol i'r Awdurdod mewn unrhyw ffordd.

**4. CASGLIAD**

4.1 Mae'r amrywiol drefniadau sydd ar waith yn golygu bod gwahaniaeth yn nifer y cyfleon teithio sydd ar gael i ddysgwyr anghymwys, gan ddibynnu ar yr ardal benodol y maent yn byw ynddi neu ar y llwybr i'r ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn adlewyrchu'r rhwydwaith bysiau lleol ac mae hyn yn berthnasol ac yn effeithio hefyd ar y cyfleon teithio sydd ar gael i gymdeithas ehangach y Sir.

4.2 Mae'n debygol y bydd y newidiadau i'r modd y gweithredir gwasanaethau bws ynghyd â chraffu mwy ar y ddarpariaeth gwasanaeth yn effeithio ar y disgyblion anghymwys hynny sy'n defnyddio gwasanaethau bws lleol i deithio i'w darpariaeth addysg. Mae hyn yn arbennig o wir am wasanaethau a weithredir ar sail 'fasnachol' gan y bydd cwmnïau bws yn ceisio codi ffi fasnachol am deithio. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar benderfyniad y cwmnïau hynny o ran gosod ffioedd.

4.3 Mae'r adolygiad cludiant i deithwyr yn ystyried y gwahanol elfennau sy'n berthnasol i'r mater hwn, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mewn sefyllfaoedd pan fo gan yr Awdurdod ddylanwad, ceisia'r adolygiad gywiro unrhyw enghreifftiau o anghysondeb yn y modd y gweithredir y polisïau perthnasol yn ymarferol.

4.4 Mae'n debygol y bydd canlyniadau sylweddol i'r arolwg ac i effeithiau ehangach ymyraethau i wasanaethau bws lleol. Bydd y rhain yn cynnwys nifer y cyfleoedd teithio sydd ar gael i ddysgwyr anghymwys yn ogystal â'r ffioedd cysylltiedig a godir arnynt. O ran defnyddio polisi, mae cyfiawnhad dros y deilliannau, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn derbyn ymateb cadarnhaol gan fudd-ddeiliaid i fater sy'n hynod emosiynol a sensitif.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT:
**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Drafft Ymgynghorol Ynni Gwynt ar y Tir**
**Consultation Draft Supplementary Planning Guidance (SPG) Onshore Wind Energy**

AELOD CABINET/CABINET MEMBER Cynghorydd John Wyn Williams

PENDERFYNIAD/DECISION

Adroddiad i fynd allan i ymgynghoriad gan yr Arweinydd Cabinet a'r canlyniadau i'w hadrodd yn ol i'r Cabinet ffurfiol am benderfyniad.

*Circulate the report by the Cabinet Leader for consultation and report back to the formal Cabinet for a decision.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Er mwyn i'r Canllaw gael statws fel ystyriaeth cynllunio perthnasol wrth ystyried ceisiadau cynllunio mae'n ofynnol i'r ddogfen fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a bod ystyriaeth wedi cael ei roi i'r sylwadau gafodd eu cyflwyno.

*So that the Guidance can be regarded as a material planning consideration for development control purposes the document must be subject to public consultation and that the submitted comments are considered.*

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Mae gan ynni gwynt rôl bwysig i chwarae i gyfrannu i leihau neu addasu i ardrawiadau andwyol newid hinsawdd. Fe all ddod a buddiannau cymdeithasol ac economaidd trwy greu gwaith yn y diwydiannau cynhyrchu, adeiladu a chynnal.

Cafodd CCA drafft ei baratoi gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn ac mae'n cefnogi ac egluro'r polisi presennol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd, sef Polisi C26, sy'n ymwneud a datblygiad ynni gwynt ar y tir. Er mwyn i'r CCA gael statws fel ystyriaeth cynllunio berthnasol mae'n ofynnol i'r CCA fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

Cafodd y pwnc ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet anffurfiol ar 17/10/12. Pan gaiff y penderfyniad uchod ei gadarnhau bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gwneud trefniadau i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y ddogfen i gychwyn yn ystod mis Tachwedd 2012, ac yn cymryd y camau isod i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw:

1. roi rhybudd yn y papurau lleol;
2. gyrru gwybodaeth i nifer o randdeiliaid statudol er mwyn cael eu barn am gynnwys y ddogfen. Mae'r rhanddeiliaid statudol yma'n arbenigo mewn meysydd all gael eu heffeithio gan ddatblygiad melin wynt;

3. gyrru gwybodaeth i Gynghorau Cymuned/ Tref/ Dinas;
4. gyrru gwybodaeth i unigolion a grwpiau sydd wedi dangos diddordeb yn y maes yma;
5. roi gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor.
6. ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth yn 'Newyddion Gwynedd'

*Wind energy has an important role to play contributing to reducing or adapting to the harmful effects of climate change. It can bring social and economic benefits by creating jobs in the manufacturing, construction and maintenance industries.*

*A draft SPG was prepared by the Anglesey and Gwynedd Joint Planning Policy Unit and it supports and clarifies the existing policy included in the Gwynedd Unitary development Plan, i.e. Policy C26, which deals with onshore wind energy development. In order for the SPG to gain status as a material planning consideration the SPG must be subject to public consultation before it is adopted by the Council.*

*The topic was considered by the informal Cabinet's meeting on the 17/10/12. When the above decision is confirmed the Joint Planning Policy Unit will make the necessary arrangements to undertake a public consultation about the document to start during November 2012, and will take the following steps to raise awareness about the public consultation*

1. *include a notice in local papers;*
2. *send information to a number of statutory consultees in order to obtain their views about the document. These statutory consultees specialise in matters that may be affected by a wind turbine development;*
3. *send information to Community/ Town/ City Councils;*
4. *send information to individuals and groups that have shown an interest in the matter;*
5. *provide information about the consultation on the Council's website;*
6. *look into the possibility of including information in 'Newyddion Gwynedd'*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

Yn amlwg, mae datblygiadau yn y maes ynni gwynt yn medru bod yn gynhennus ac mae'n bwysig bod polisi'r Cyngor yn eglur ar y mater a'i fod yn cymryd ystyriaeth o farn y cyhoedd. Mae'r ymgynghoriad arno'n allweddol felly. Rwy'n ymwybodol hefyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn awyddus i edrych ar y mater hefyd./ *Obviously, wind energy development can be a contentious issue and it is important that the Council's policy takes account of the public's views on the matter. Consultation about the matter is therefore important. I am also aware that the Communities Scrutiny Committee is keen to examine the matter as well.*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb / *Nothing to add regarding propriety*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb ariannol/ *Nothing to add regarding*

*financial propriety.*

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Dim yn berthnasol gan nad yw’r mater yn ymwneud ag ardal benodol o’r Sir

*Not applicable since the matter does not relate to a specific area within the County*

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
|---|---|
|  | 23.11.12 |

# CYFEILLION LLŶN

Cadeirydd: Elfed Gruffydd,
24, Min y Môr,
Pwllheli,
Gwynedd.

Ysgrifennydd: Gillian Walker,
Tan y Castell,
Sarn Mellteyrn,
Pwllheli,
LL53 8EY.

Pwyllgor Rhanbarth Dwyfor,
16eg o Fedi, 2012

Annwyl Gynghorwyr Dwyfor,

**Parthed: Tyrbinau Gwynt - Pen Llŷn.**

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar bob un Cynghorydd yn bersonol i warchod neu wella harddwch naturiol AHNE Llŷn. Mae Cyfeillion Llŷn yn aelod o Gydbwyllgor AHNE Llŷn ac yn bryderus iawn am y bygythiad aruthrol sydd yn wynebu harddwch godidog, tirweddau dynodedig arbennig Penrhyn Llŷn, yn sgil datblygiad y diwydiant ynni gwynt. Mae tyrbinau gwynt yn strwythurau mawr diwydiannol, sy'n gwbwl estron a dieithr yn nhirlun naturiol y penrhyn. Am hyn gofynnwn yn garedig i chwi drafod y mater hwn yn eich cyfarfod heno fel mater brys. 'Rydym yn gwbwl argyhoeddedig y bydd niwed sylweddol pellach i'r AHNE a'r golygfeydd i mewn ac allan ohoni, os na cymerir camau brys i'w gwarchod.

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau cadarn yn eu lle sydd yn cyfyngu ar ddatblygiadau i ffiniau pentrefi ac yn ein diogelu rhag effeithiau negyddol gorddatblygu a diwydiannau mawr. Mae'r ardal wedi ei dynodi yn 'Ardal Gwarchod y Tirwedd' ac yn 'Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol' yn ogystal ag AHNE a sawl dynodiad arall sydd yn cadarnhau fod yma rinweddau arbennig sydd angen eu gwarchod. Y mae yna hefyd bolisïau a chyfreithiau yn eu lle sydd yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny. Yn y gorffennol mae'r polisïau a'r cyfreithiau hyn wedi arwain at wrthod caniatáu ffenestr gromen, am y byddai yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y tirlun a chymeriad yr ardal.

Er hyn, y mae'n amlwg bellach bod diffygion yn y drefn bresennol sydd wedi achosi i dyrbinau o hyd at 34medr o uchder gael eu caniatáu, a bod yna tua 50 o geisiadau am dyrbinau yn Arfon a Dwyfor ar hyn o bryd, gyda sawl un yn uwch na 70 medr. Un o'r diffygion mwyaf ydi fod Cyngor Gwynedd wedi methu â chyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol, a fyddai yn rhoi manylion ar y polisi penodol am dyrbinau gwynt, sef polisi C26.

Nid oes felly ddiffiniadau ar faterion mor sylfaenol â - beth ydi maint tyrbin bach, neu o fewn sawl milltir i ffin ardal ddynodedig y byddai tyrbin o faint penodol yn cael effaith ar osodiad yr ardal ddynodedig.

Gofynnwn i chi felly gefnogi ein cais i Swyddogion a Chynghorwyr Cyngor Gwynedd.

1) i weithredu o hyn ymlaen yn unol â'r gyfraith a'r polisïau lleol a chenedlaethol cyfredol sydd eisoes yn eu lle er mwyn diogelu harddwch naturiol a chymeriad unigryw yr ardal rhag effaith niweidiol y tyrbeini gwynt.

2) i sicrhau y bydd Canllaw Cynllunio Atodol y polisi gwynt yn ategu polisïau B8, B10 a B12, C26 trwy gyflwyno diffiniadau pendant a fydd yn sicrhau gwarchod neu wella harddwch naturiol a chymeriad unigryw'r ardal.

3) i gydweithio gyda Chyfeillion Llŷn a chyrff perthnasol eraill, i sicrhau y cymerir pob cam angenrheidiol i sicrhau gwarchod yr ardaloedd ar ymylon AHNE Llŷn sydd o safon uchel iawn ac sydd ac yn haeddu cael eu cynnwys oddi mewn i'r AHNE yn ôl asesiad LANDMAP gan y Cyngor Cefn Gwlad, fel y cyfeirir atynt ym mholisi 3.3.5

Gyda'r gobaith y byddwn yn Swyddogion, yn Gynghorwyr ac yn Gyfeillion Llŷn yn medru mynd ymlaen efo'n gilydd i warchod ein treftadaeth a "chadw i'r oesoedd a ddel y glendid a fu".

Yn gywir iawn,

***Gillian Walker***

(Ysg.)